



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Bil
Senedd Cymru
(Rhestrau Ymgeiswyr Etholiadol)

Memorandwm Esboniadol
yn ymgorffori'r
Asesiad Effaith Rheoleiddiol a'r
Nodiadau Esboniadol

Mawrth 2024

Bil Senedd Cymru (Rhestrau Ymgeiswyr Etholiadol)

Memorandwm Esboniadol ar gyfer Bil Senedd Cymru (Rhestrau Ymgeiswyr Etholiadol)

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan Grŵp yr Economi, Trysorlys a'r Cyfansoddiad Llywodraeth Cymru ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru.

Datganiad yr Aelod

Yn fy marn i, byddai Bil Senedd Cymru (Rhestrau Ymgeiswyr Etholiadol), a gyflwynir gennyf i ar 11 Mawrth 2024, o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru.

Jane Hutt AS

Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip
Yr Aelod o'r Senedd sy'n gyfrifol am y Bil

11 Mawrth 2024

Cynnwys

Rhan 1 – MEMORANDWM ESBONIADOL

1. Disgrifiad.....	3
2. Cymhwysedd Deddfwriaethol.....	4
3. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael.....	5
4. Ymgynghori.....	33
5. Y pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth.....	38

RHAN 2 – ASESIAID EFFAITH RHEOLEIDDIOL

6. Crynodeb o'r Aseiad Effaith Rheoleiddiol.....	42
7. Yr opsiynau.....	45
8. Costau a manteision.....	46
9. Aseidiadau o'r Effaith.....	52
10. Aseiad Fforddiadwyedd.....	62
11. Adolygu ar ôl gweithredu.....	64

ATODIAD 1 – Nodiadau Esboniadol..... 65

ATODIAD 2 – Mynegai o ofynion y Rheolau Sefydlog..... 70

ATODIAD 3 – Atodlen o Ddiwygiadau..... 75

RHAN 1 – MEMORANDWM ESBONIADOL

1. Disgrifiad

1. Bydd Bil Senedd Cymru (Rhestrau Ymgeiswyr Etholiadol) ("y Bil") yn gweithredu'r argymhellion sy'n ymwneud â chwotâu rhywedd a wnaed yn adroddiad y Pwyllgor Diben Arbennig ar Ddiwygio'r Senedd,¹ a gyhoeddwyd ym mis Mai 2022.
2. Bydd y Bil yn cyflwyno cwotâu rhywedd statudol integredig i'r system a ddefnyddir i ethol Aelodau o'r Senedd (ASau). Mae'r Bil yn gwneud darpariaethau sy'n gymwys pan fo plaid wleidyddol gofrestredig yn dewis cyflwyno rhestr neu restrau o ymgeiswyr ar gyfer etholiadau i'r Senedd. Mae'r Bil yn gwneud gofynion ynghylch rhestr neu restrau o ymgeiswyr a gyflwynir gan y pleidiau hynny a'r rheolau cwota y mae rhaid i restrau o'r fath gydymffurfio â hwy.
3. Diben y diwygiadau hyn yw gwneud Senedd Cymru ("y Senedd") yn ddeddfwrfa fwy effeithiol ar gyfer pobl Cymru ac ar ran pobl Cymru. Er mwyn cyflawni hyn, nod y Bil yw sicrhau bod y Senedd yn gynrychioliadol ar y cyfan o gyfansoddiad rhywedd y boblogaeth.
4. Cafodd y Memorandwm Esboniadol hwn ei lunio a'i osod yn unol â Rheol Sefydlog 26.6.
5. Mae'n egluro cefndir darpariaethau a chwmpas y Bil, ac yn cynnwys asesiad o oblygiadau ariannol y Bil, ac amrywiaeth o asesiadau o'r effaith.

¹ Y Pwyllgor Diben Arbennig ar Ddiwygio'r Senedd, [Diwygio ein Senedd: Llais cryfach i bobl Cymru](#), Mai 2022.

2. Cymhwysedd Deddfwriaethol

Mae gan Senedd Cymru ("y Senedd") y cymhwysedd deddfwriaethol i wneud y darpariaethau ym Mil Senedd Cymru (Rhestrau Ymgeiswyr Etholiadol) ("y Bil") yn unol â Rhan 4 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Cymru 2017.

3. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

Y cyd-destun

6. Cafodd y Pwyllgor Diben Arbennig ar Ddiwygio'r Senedd ei sefydlu yn 2021 i ystyried y casgliadau a wnaed yn flaenorol gan y Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Senedd, ac i wneud argymhellion ynghylch cyfarwyddiadau polisi ar gyfer deddfwriaeth gan Lywodraeth Cymru ar ddiwygio'r Senedd. Cyhoeddodd y Pwyllgor Diben Arbennig ei adroddiad, *Diwygio ein Senedd: Llais cryfach i bobl Cymru*,² yn 2022. Argymhellodd yr adroddiad y dylid ethol y Senedd gyda chwotâu rhywedd statudol integredig.
7. Ym mis Mehefin 2022, pleidleisiodd y Senedd o blaid cymeradwyo adroddiad y Pwyllgor Diben Arbennig.
8. Ym mis Gorffennaf 2022, ymatebodd Llywodraeth Cymru yn ffurfiol³ i adroddiad y Pwyllgor Diben Arbennig, gan ddatgan y byddai'n llunio ac yn cyflwyno deddfwriaeth er mwyn bwrw ymlaen ag argymhellion y Pwyllgor. Nodwyd yn yr ymateb y byddai dadansoddiad polisi a chyfreithiol pellach yn cael ei gynnal lle y bo'n briodol er mwyn pennu'r manylion sydd eu hangen i weithredu'r argymhellion, yn enwedig mewn perthynas ag argymhellion lefel uwch y Pwyllgor.
9. Cyflwynodd y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad, Mick Antoniw AS, Fil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) ("Bil SC(AE)") ar 18 Medi 2023. Hwn oedd y Bil cyntaf mewn pecyn o ddiwygiadau gyda'r nod o sicrhau bod y Senedd yn ddeddfwrfa fwy effeithiol ar gyfer, ac ar ran, pobl Cymru. Fe'i lluniwyd at ddiben cyflawni'r mwyafrif o argymhellion y Pwyllgor Diben Arbennig ar gyfer diwygio'r Senedd. Mae ei ddiwygiadau yn cynnwys mesurau i gynyddu gallu'r Senedd i gyflawni ei chyfrifoldebau'n effeithiol a darpariaethau i newid system etholiadol y Senedd fel bod ASau yn cael eu hethol gan ddefnyddio system rhestr gyfrannol gaeedig a phleidleisiau yn cael eu troi'n seddi drwy ddull D'Hondt. Mae hefyd yn darparu llwybr i'r Senedd ystyried ymhellach oblygiadau ymarferol a deddfwriaethol rhannu swyddi, gyda'r bwriad o asesu dichonoldeb rhannu swyddi fel modd o ddenu ystod fwy amrywiol o ymgeiswyr. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn parhau i fod wedi ymrwmo i weithredu rhai o'r argymhellion eraill yn adroddiad y Pwyllgor Diben Arbennig gyda'r nod o ddarparu mwy o dryloywder ynghylch amrywiaeth ymgeiswyr i'r Senedd ac annog pleidiau gwleidyddol i gyhoeddi Strategaethau Amrywiaeth a Chynhwysiant.

² Y Pwyllgor Diben Arbennig ar Ddiwygio'r Senedd, [Diwygio ein Senedd: Llais cryfach i bobl Cymru](#), Mai 2022.

³ Llywodraeth Cymru, [Ymateb i Adroddiad y Pwyllgor Diben Arbennig ar Ddiwygio'r Senedd](#), Gorffennaf 2022.

10. Mae Bil Senedd Cymru (Rhestrau Ymgeiswyr Etholiadol) yn Fil pellach o fewn y pecyn hwn o ddiwygiadau at ddibenion gwneud y Senedd yn ddeddfwrfa fwy effeithiol, sy'n gallu gwasanaethu pobl Cymru yn well. Gan gydnabod nad yw'r Senedd ar hyn o bryd yn adlewyrchu cyfansoddiad poblogaeth Cymru o ran rhywedd, nod y Bil yw sicrhau bod y Senedd yn adlewyrchu'n fras y boblogaeth y mae'n ceisio ei chynrychioli a'i gwasanaethu, yn enwedig o ran cynrychiolaeth menywod.
11. Bydd gwella cynrychiolaeth yn y Senedd yn ei galluogi i fod yn fwy effeithiol wrth:
- ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif;
 - goruchwyllo a gwella polisi, deddfwriaeth a gwariant, a chraffu ar y rhain; a
 - chynrychioli a gwasanaethu pobl Cymru, ac ymateb iddynt.

Cefndir y Bil

Y Senedd a chwotâu rhywedd

12. Mae cwotâu rhywedd wedi ymddangos yn gyson yng ngwaith gwahanol grwpiau arbenigol a sefydlwyd i ystyried trefniadau etholiadol ar gyfer y Senedd ac amrywiaeth cynrychiolaeth.
13. Ystyriodd y Panel Arbenigol annibynnol ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad (2017) dystiolaeth yn ymwneud â chwotâu rhywedd a daeth i'r casgliad y byddai ethol Senedd fwy amrywiol yn gwella sut mae'n gweithredu a sut mae'n cynrychioli pobl Cymru. Tynnodd sylw at y ffaith bod menywod yn cyfrif am oddeutu 52% o boblogaeth oedolion Cymru ac nad oeddent yn cael eu cynrychioli'n ddigonol yn y Senedd er eu bod yn grŵp mwyafrifol.⁴
14. Cyfeiriodd y Panel Arbenigol at dystiolaeth sy'n nodi bod dros hanner cenhedloedd y byd yn defnyddio rhyw fath o gwota etholiadol a bod eu defnydd yn cynyddu'n rhyngwladol.⁵ Ymhellach, cyfeiriodd at ymchwil gan Norris a Krook o 2011, a ganfu fod cyflwyno cwotâu rhywedd yn ffordd effeithiol o gynyddu cyfran yr aelodau etholedig benywaidd:

“Among the twenty OSCE countries registering the sharpest growth in the proportion of women in parliament during the last decade [...] half had introduced legal quotas. By contrast, among the twenty OSCE countries lagging behind in growth [...] none had implemented legal quotas.”⁶

⁴ Y Panel Arbenigol, [Senedd sy'n gweithio i Gymru: Adroddiad y Panel Arbenigol ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad](#), Tachwedd 2017, t. 117.

⁵ Y Panel Arbenigol, [Senedd sy'n gweithio i Gymru: Adroddiad y Panel Arbenigol ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad](#), Tachwedd 2017, t. 118.

⁶ Norris, Pippa a Krook, Mona Lena ar gyfer OSCE (2011), *Gender equality in elected office: a six-step action plan*, a ddyfynwyd yn adroddiad y Panel Arbenigol, [Senedd sy'n gweithio i](#)

15. Argymhellodd y Panel Arbenigol y dylid integreiddio cwota rhywedd i'r system etholiadol a'i sefydlu ar gyfer etholiad 2021.
16. Ystyriodd y Panel Arbenigol sut y gellid mabwysiadu gwahanol fathau o systemau etholiadol yng Nghymru a gwerthusodd y systemau hyn yn erbyn yr egwyddor o sicrhau bod y Cynulliad/Senedd mor gynrychioliadol â phosibl o bobl Cymru. Daeth i'r casgliad y gallai system etholiadol rhestr gyfrannol weithredu'n effeithiol yng Nghymru ac y dylai'r egwyddorion canlynol fod yn gymwys:
- dylai fod yn ofynnol i bleidiau sy'n sefyll rhestrau o ymgeiswyr rhanbarthol, o dan system o'r fath, sicrhau bod 50% o'u hymgeiswyr ym mhob rhanbarth yn fenywod a 50% yn ddynion
 - dylai rhestrau fod mewn trefn am yn ail (h.y. gosod menywod a dynion am yn ail ar restrau ymgeiswyr)
 - dylai pleidiau sy'n sefyll ymgeiswyr mewn mwy nag un rhanbarth sicrhau bod cydbwysedd yn gyffredinol o ran faint o'u rhestrau sydd â menyw ar y brig, a faint sydd â dyn ar y brig.⁷
17. Cyhoeddodd y Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Senedd, a sefydlwyd i ystyried argymhellion y Panel Arbenigol, ei adroddiad, *Diwygio'r Senedd: y camau nesaf*,⁸ ym mis Medi 2020. Noda'r adroddiad fod y Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Senedd wedi'i berswadio gan "[...] y dystiolaeth glir a chymhellol y gall cwotâu rhywedd [...] wella amrywiaeth yr ymgeiswyr ac Aelodau etholedig".⁹
18. Sefydlwyd Pwyllgor Diben Arbennig y Senedd ar Ddiwygio'r Senedd yn 2021. Ei gylch gwaith oedd ystyried casgliadau'r Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Senedd a gwneud argymhellion ynghylch cyfarwyddiadau polisi ar gyfer deddfwriaeth ddrafft gan Lywodraeth Cymru ar Ddiwygio'r Senedd. Cyhoeddodd ei adroddiad, *Diwygio ein Senedd: Llais cryfach i bobl Cymru*,¹⁰ ym mis Mai 2022. Gan adlewyrchu canfyddiadau'r Panel Arbenigol, daeth y Pwyllgor Diben Arbennig i'r casgliad unfrydol y dylid cyflwyno cwotâu rhywedd deddfwriaethol a threfn am-yn-eilio orfodol fel rhan o'r system rhestr etholiadol newydd.¹¹ Argymhellodd y Pwyllgor Diben Arbennig hefyd y dylai'r system newydd "[...] gynnwys gwrthod rhestrau ymgeiswyr gan Swyddogion Canlyniadau fel sancsiwn am

[Gymru: Adroddiad y Panel Arbenigol ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad](#), t. 118. Mae aelodaeth y Sefydliad Diogelwch a Chydweithrediad yn Ewrop (OSCE) yn cynnwys 57 o wledydd o Ewrop, Asia a Gogledd America.

⁷ Y Panel Arbenigol, [Senedd sy'n gweithio i Gymru: Adroddiad y Panel Arbenigol ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad](#), Tachwedd 2017, t. 125.

⁸ Y Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Senedd, [Diwygio'r Senedd: y camau nesaf](#), Medi 2020.

⁹ Y Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Senedd, [Diwygio'r Senedd: y camau nesaf](#), Medi 2020, t. 133.

¹⁰ Y Pwyllgor Diben Arbennig ar Ddiwygio'r Senedd, [Diwygio ein Senedd: Llais cryfach i bobl Cymru](#), Mai 2022, t. 43.

¹¹ Y Pwyllgor Diben Arbennig ar Ddiwygio'r Senedd, [Diwygio ein Senedd: Llais cryfach i bobl Cymru](#), Mai 2022, t. 43.

beidio â chydymffurfio â chwotâu deddfwriaethol'.¹² Pleidleisiodd y Senedd o blaid cymeradwyo'r adroddiad ar 8 Mehefin 2022.

19. Roedd y Panel Arbenigol yn cydnabod nad yw menywod yn grŵp unffurf o bobl. Nododd fod hunaniaeth pobl yn aml-ddimensiwn ac roedd yn cydnabod 'rhyngberthnasedd hunaniaeth unigolion' o fewn y grŵp hwn sydd heb gynrychiolaeth ddigonol.¹³ Dywedodd y Panel Arbenigol ei fod yn credu'n gryf:

"[...] y byddai dethol ac ethol Cynulliad mwy amrywiol ar draws yr ystod lawn o nodweddion gwarchodedig yn gwella gweithrediad y Cynulliad, a'r ffordd y mae'n gweithio dros bobl Cymru ac yn eu cynrychioli."¹⁴

Fodd bynnag, dadleuodd fod gwahaniaeth rhwng rhywedd a rhai o'r nodweddion gwarchodedig eraill oherwydd, er mai lleiafrif bach iawn o'r boblogaeth yw rhai grwpiau, menywod yw mwyafrif y boblogaeth oedolion '[...] ac felly, maent yn fwyafrif heb gynrychiolaeth ddigonol'.¹⁵

20. Dywedodd y Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Senedd nad oedd:

"[...] wedi gallu casglu digon o dystiolaeth i ddod i farn bendant ynghylch a fyddai cwotâu amrywiaeth yn ddull priodol o sicrhau mwy o amrywiaeth yn y Senedd. Credwn y dylid gwneud rhagor o waith ar y mater hwn yn y Chweched Senedd ac y dylai'r gwaith hwnnw gael ei lywio gan gyngor arbenigol ar ddylunio a gweithredu cwotâu amrywiaeth a thrwy weithio'n agos mewn partneriaeth â grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol, gan gynnwys cymunedau BAME yng Nghymru a phobl ag anableddau."¹⁶

21. Roedd y Pwyllgor Diben Arbennig yn teimlo nad oedd wedi gallu ystyried y mater hwn yn fanwl ac na allai felly:

"[...] argymhell y dylid cyflwyno cwotâu ar gyfer nodweddion gwarchodedig ar wahân i rywedd, ac nid [oedd] yn rhagweld cwotâu o'r fath yn cael eu gweithredu ar y cyd [â'i] argymhellion ar gyfer cwotâu rhywedd deddfwriaethol."¹⁷

¹² Y Pwyllgor Diben Arbennig ar Ddiwygio'r Senedd, [Diwygio ein Senedd: Llais cryfach i bobl Cymru](#), Mai 2022, t. 43.

¹³ Y Panel Arbenigol, [Senedd sy'n gweithio i Gymru: Adroddiad y Panel Arbenigol ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad](#), Tachwedd 2017, t. 117.

¹⁴ Y Panel Arbenigol, [Senedd sy'n gweithio i Gymru: Adroddiad y Panel Arbenigol ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad](#), Tachwedd 2017, t. 117.

¹⁵ Y Panel Arbenigol, [Senedd sy'n gweithio i Gymru: Adroddiad y Panel Arbenigol ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad](#), Tachwedd 2017, t. 117.

¹⁶ Y Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Senedd, [Diwygio'r Senedd: y camau nesaf](#), Medi 2020, t. 134.

¹⁷ Y Pwyllgor Diben Arbennig ar Ddiwygio'r Senedd, [Diwygio ein Senedd: Llais cryfach i bobl Cymru](#), Mai 2022, tt. 50-51.

22. Ym mis Rhagfyr 2021, ymrwymodd Rhaglen Lywodraethu newydd Llywodraeth Cymru, sy'n ymgorffori'r Cytundeb Cydweithio, i gyflwyno '[...] cwotâu rhywedd wedi'u pennu mewn cyfraith'.¹⁸

Y rhesymeg dros gynyddu cynrychiolaeth menywod yn y Senedd

Nid oes digon o fenywod yn y Senedd

23. Ar Ddiwrnod y Cyfrifiad diweddaraf, 21 Mawrth 2021, roedd 1,586,600 o fenywod (51.1% o'r boblogaeth) ac 1,521,000 o ddynion (48.9%) yng Nghymru.¹⁹

24. Yn etholiad diweddaraf y Senedd, a gynhaliwyd ym mis Mai 2021, yn fuan ar ôl Diwrnod y Cyfrifiad, cafodd 26 o fenywod (43%) a 34 o ddynion (57%) eu hethol. Felly, nid yw'r Senedd bresennol yn adlewyrchu'r cydbwysedd o ran rhywedd ym mhoblogaeth Cymru.

25. Mae'r cydbwysedd o ran rhywedd yn y Senedd wedi amrywio ers cynnal etholiad cyntaf y Cynulliad/Senedd yn 1999. Yn etholiad 2003, etholwyd y gyfran uchaf o ASau benywaidd, gyda 30 allan o 60 (50%) o'r Aelodau etholedig yn fenywod. Etholwyd y gyfran isaf o Aelodau benywaidd yn dilyn etholiadau 1999, 2011 a 2016, lle'r oedd 25 allan o'r 60 o Aelodau (42%) yn fenywod.

26. Mae'r tabl isod yn nodi cyfran yr ASau benywaidd a gwrywaidd a etholwyd ym mhob etholiad ar draws pob plaid.

Tabl 3.1: Y cydbwysedd o ran rhywedd yn y Senedd yn dilyn pob etholiad rhwng 1999 a 2021

Blwyddyn Etholiad y Senedd	Aelodau benywaidd		Aelodau gwrywaidd	
	Nifer	%	Nifer	%
1999	25	42%	35	58%
2003	30	50%	30	50%
2007	28	47%	32	53%
2011	25	42%	35	58%
2016	25	42%	35	58%
2021	26	43%	34	57%

¹⁸ Llywodraeth Cymru, [Rhaglen lywodraethu: diweddariad | LLYW. CYMRU](#), t. 7.

¹⁹ Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, ['Amcangyfrifon poblogaeth ac aelwydydd, Cymru: Cyfrifiad 2021'](#).

27. Dengys y ffigurau a gyflwynir yn Nhabl 3.1 fod menywod yn grŵp heb gynrychiolaeth ddigonol yn y Senedd a bod hyn yn nodwedd hirsefydlog.
28. Mae'n ffaith gydnabyddedig mewn llenyddiaeth academiaidd fod gan ddeiliaid seddi fantais dros ymgeiswyr nad ydynt yn ddeiliaid seddi mewn etholiadau, a hynny mewn achosion pan ddefnyddir systemau'r cyntaf i'r felin²⁰ a systemau cynrychiolaeth gyfrannol²¹.
29. Mae ymchwil damcaniaeth newid, a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru, yn nodi'n benodol fod y ffaith bod mwyafrif gwrywaidd mewn seddi etholiadol ar hyn o bryd yn rhwystr sy'n atal menywod rhag ymgeisio am swyddi etholedig o'r fath. Mae'r adroddiad ymchwil yn nodi y gall costau ymgyrchu fod yn sylweddol i fenywod gan eu bod '[...] yn fwy tebygol o fod â chyfrifoldebau gofalu, o weithio'n rhan-amser, ac o gymryd seibiant o'u gyrfa i fagu plant' o'i gymharu â dynion. Nododd yr adroddiad hefyd fod '[...] ofn trais, cam-drin ac aflonyddu gan y cyhoedd yn rhwystr sylweddol i fenywod [...]' sy'n sefyll mewn etholiadau lleol.²²
30. Pryder pellach yng nghyd-destun etholiadau'r Senedd yw bod dynion yn gyffredinol yn cynrychioli cyfran uwch o'r llif o wleidyddion newydd o'i gymharu â menywod, fel y gwelwyd yn etholiad y Senedd yn 2021, lle'r oedd 69% o'r 470 o ymgeiswyr a safodd yn yr etholiad yn ddynion.²³
31. Gan fod nifer y dynion sy'n ymgeisio yn etholiadau'r Senedd fel arfer yn fwy na nifer y menywod sy'n ymgeisio, mae perygl y bydd y cynlluniau arfaethedig i ehangu maint y Senedd yn sylweddol, o 60 i 96 o Aelodau, heb gyflwyno cwotâu, yn arwain at fwy o anghydbwysedd o ran rhywedd nag sydd ar hyn o bryd.

Mae mwy o amrywiaeth o ran rhywedd mewn deddfwrfeydd yn arwain at well cynrychiolaeth

32. Byddai mwy o gydbwysedd o ran rhywedd yn y Senedd yn arwain at nifer o fanteision.
33. Mae llawer o ymchwil academiaidd wedi archwilio ffactorau sy'n gysylltiedig â'r ffyrdd y mae cynrychiolaeth gan fenywod o fudd i sefydliadau democrataidd ac yn gwella eu heffeithiolrwydd. Un o

²⁰ Schleiter, Petra a Belu, Valerie (2018) 'Electoral incumbency advantages and the introduction of fixed parliamentary terms in the United Kingdom', *The British Journal of Politics and International Relations*, Cyf. 20, Rhifyn 2, tt. 263–84.

²¹ Redmond, Paul a Regan, John (2015) 'Incumbency advantage in a proportional electoral system: A regression discontinuity analysis of Irish elections', *European Journal of Political Economy*, Cyf. 38, tt. 244–56.

Fiva, Jon H., a Røhr, Helene Lie (2018) 'Climbing the ranks: incumbency effects in party-list systems', *European Economic Review*, Cyf. 101, tt. 142–156.

²² Llywodraeth Cymru (2022), '[Chwalu'r rhwystrau i swydd etholedig ar gyfer pobl â nodweddion gwarchoddedig: damcaniaeth newid \(crynodeb\)](#)'.

²³ Comisiwn y Senedd, [Etholiad y Senedd yn 2021: Papur briffio](#), 2021.

ganfyddiadau allweddol y llenyddiaeth hon yw bod gan fenywod brofiadau bywyd gwahanol o'i gymharu â dynion a'u bod yn defnyddio eu safbwyntiau wrth gynrychioli dinasyddion mewn deddfwrfeydd.²⁴

34. Dengys ymchwil y gall deddfwrfa sydd â chydbwysedd o ran rhywedd fod yn ddeddfwrfa fwy effeithiol oherwydd ffocws menywod ar feysydd polisi gwahanol, eu harddulliau arwain cydweithredol a'u dulliau o weithio. Dengys y dystiolaeth fod sawl mantais yn deillio o gynrychiolaeth menywod mewn sefydliadau gwleidyddol. Canfuwyd bod menywod mewn gwleidyddiaeth yn:

- Rhoi blaenoriaeth i faterion polisi a deddfwriaethol gwahanol
- Rhoi blaenoriaeth i fathau penodol o waith
- Hyrwyddo ffyrdd penodol o weithio
- Annog safon uwch o ymgeiswyr yn gyffredinol
- Creu modelau rôl mewn swyddi arweinyddol gwleidyddol
- Cynyddu cynrychiolaeth grwpiau lleiafrifol
- Lleihau llygredigaeth a gweithgarwch anfoesegol.

35. Dengys dystiolaeth sy'n ymwneud â Gogledd America, Sweden, America Ladin, Affrica a De Asia fod gwahaniaeth rhwng dinasyddion gwrywaidd a benywaidd o ran y materion sydd bwysicaf iddynt, gyda menywod yn tueddu i bryderu mwy am ofal iechyd a thlodi na dynion.²⁵

36. Gan gefnogi'r canfyddiad hwn, dengys ymchwil ryngwladol hefyd fod gwahaniaeth rhwng deddfwyr sy'n ddynion a deddfwyr sy'n fenywod o ran y meysydd polisi y maent yn tueddu i roi blaenoriaeth iddynt, gyda menywod fel arfer yn canolbwyntio mwy ar hawliau menywod, iechyd y cyhoedd, a lliniaru tlodi.²⁶ Noda ymchwil a wnaed gan Dr Minna Cowper-Coles ar gyfer y Sefydliad Byd-eang dros Fenywod mewn Rolau Arwain, sy'n adolygu'r llenyddiaeth academiaidd ar effaith rhywedd a democratiaeth, fod deddfwyr benywaidd yn ystyried cynrychioli menywod yn rhan o'u rôl ac yn deddfu mwy na dynion ar faterion sydd o flaenoriaeth i fenywod.²⁷ Awgrymwyd hefyd fod presenoldeb menywod yn

²⁴ Philips, Anne (1995) *The Politics of Presence* (Gwasg Prifysgol Rhydychen).

²⁵ Clayton, Amanda (2021) 'How Do Electoral Gender Quotas Affect Policy?' *Annual Review of Political Science*, t. 239.

Bhalotra, Sonia a Clots-Figueras, Irma (2014) 'Health and the Political Agency of Women', *American Economic Journal: Economic Policy*, Cyf. 6, Rhifyn 2, tt. 164–97.

Clayton, Amanda; Josefsson, Cecilia; Mattes, Robert; Mozaffar, Shaheen (2019) 'In whose interest? Gender and mass-elite priority congruence in sub-Saharan Africa', *Comparative Political Studies*, Cyf. 52, Rhifyn 1, tt. 69–101.

Gottlieb, Jessica; Grossman, Guy; Robinson, Amanda Lea (2018) 'Do men and women have different policy preferences in Africa? Determinants and implications of gender gaps in policy prioritization', *British Journal of Political Science*, Cyf. 48, Rhifyn 3, tt. 611–36.

²⁶ Clayton, Amanda (2021) 'How Do Electoral Gender Quotas Affect Policy?' *Annual Review of Political Science*, t. 235.

Schwindt-Bayer, Leslie A. (2010) *Political Power and Women's Representation in Latin America*, Gwasg Prifysgol Rhydychen.

²⁷ Cowper-Coles, Minna (2021) '[Women political leaders: the impact of gender on democracy](#)', Y Sefydliad Byd-eang dros Fenywod mewn Rolau Arwain yng Ngholeg y Brenin Llundain a Sefydliad San Steffan dros Democratiaeth, t. 58.

arwain at ddeddfwrfeydd lle mae mwy o ymatebolrwydd i bolisiâu sy'n bwysig i fenywod.²⁸ Yn ôl Dr Amanda Clayton, mae mwy o amrywiaeth o ran rhywedd yn arwain at fwy o sylw deddfwriaethol i ddiddordebau a blaenoriaethau menywod fel grŵp.²⁹ Mae tystiolaeth hefyd i awgrymu y gall cwtâu rhywedd arwain at ddyinion yn cymryd mwy o ddiddordeb mewn meysydd polisi a flaenoriaethir yn draddodiadol gan fenywod.³⁰

37. Ceir peth tystiolaeth sy'n awgrymu bod mwy o amrywiaeth o ran rhywedd yn arwain at ganlyniadau polisi gwahanol, ac mewn rhai achosion, canlyniadau polisi gwell. Dangosodd astudiaeth gan ymchwilyr yn yr Unol Daleithiau, sy'n defnyddio dysgu peirianyddol i ddadansoddi lefelau gwariant y llywodraeth, fod menywod yn dylanwadu ar bolisi unwaith y bydd eu cyfran o fewn senedd yn cyrraedd màs critigol.³¹ Canfu'r astudiaeth gysylltiad rhwng cyfran y deddfwyr sy'n fenywod a lefel y gwariant ar feysydd, yn cynnwys iechyd ac addysg. Cefnogir hyn gan dystiolaeth ehangach sy'n awgrymu bod cael mwy o fenywod mewn gwleidyddiaeth yn arwain at ganlyniadau iechyd gwell, gan gynnwys gostyngiadau mewn cyfraddau marwolaethau yng Nghanada.³² Mae'r Athro Liam Swiss a'i gydweithwyr wedi cyflwyno crynodeb o'r corff ymchwil sy'n archwilio effeithiau ymarferol presenoldeb menywod mewn deddfwrfeydd o fewn gwledydd datblygedig. Dywedant fod cynnydd yn nifer y deddfwyr sy'n fenywod yn arwain at roi blaenoriaeth i iechyd, cynnydd mewn gwariant polisi cymdeithasol, a gostyngiad mewn tlodi.³³

38. Awgryma ymchwil hefyd fod gwahaniaethau rhwng dynion a menywod o ran y mathau o waith y maent yn rhoi blaenoriaeth iddynt fel

²⁸ Ng, Edwin a Muntaner, Carles (2018) 'The effects of women in government on population health: An ecological analysis among Canadian provinces, 1976-2009', *Population Health*, Cyf. 6, tt. 141–48.

Swiss, Liam; Fallon, Kathleen M.; a Burgos, Giovani (2012) 'Does Critical Mass Matter? Women's Political Representation and Child Health in Developing Countries', *Social Forces*, Cyf. 91, Rhifyn 2, tt. 531–58.

²⁹ Clayton, Amanda (2021) 'How Do Electoral Gender Quotas Affect Policy?' Annual Review of Political Science, t. 235.

Schwindt-Bayer, Leslie A. (2010) *Political Power and Women's Representation in Latin America*, Gwasg Prifysgol Rhydychen.

³⁰ Franceschet, Susan (2011) 'Gendered institutions and women's substantive representation: female legislators in Argentina and Chile'. Yn *Gender, Politics and Institutions: Towards a Feminist Institutionalism*, gol. Mona Lena Krook a Fiona Mackay, Palgrave Macmillan, tt. 58–78.

³¹ Funk, Kendall D.; Paul, Hannah L.; a Philips, Andrew Q. (2021) 'Point break: using machine learning to uncover a critical mass in women's representation', *Political Science Research and Methods*, Cyf. 10, Rhifyn 2, tt. 372–90.

³² Ng, Edwin a Muntaner, Carles (2018) 'The effects of women in government on population health: An ecological analysis among Canadian provinces, 1976-2009', *Population Health*, tt. 141–48.

Swiss, Liam; Fallon, Kathleen M.; a Burgos, Giovani (2012) 'Does Critical Mass Matter? Women's Political Representation and Child Health in Developing Countries', *Social Forces*, Cyf. 91, Rhifyn 2, tt. 531–558.

Lee, YuJung Julia (2018) 'Gender, Electoral Competition, and Sanitation in India', *Comparative Politics*, Cyf. 50, Rhifyn 4, tt. 587–605.

³³ Swiss, Liam; Fallon, Kathleen M.; a Burgos, Giovani (2012) 'Does Critical Mass Matter? Women's Political Representation and Child Health in Developing Countries', *Social Forces*, Cyf. 91, Rhifyn 2, tt. 531–558.

cynrychiolwyr etholedig. Dengys astudiaethau fod menywod yn tueddu i wneud mwy o waith etholaethol na dynion.³⁴ Maent hefyd yn fwy llwyddiannus wrth ymgysylltu ag etholwyr benywaidd a mudiadau menywod.³⁵

39. Mae menywod yn hyrwyddo ffyrdd penodol o weithio, ac mae'r rhain yn cael effaith gadarnhaol ar y diwylliant mewn deddfwrfeydd. Mae menywod yn fwy tebygol o noddi biliau ar y cyd â menywod eraill a chydweithio ar draws y rhaniad gwleidyddol ar feysydd o ddi-ddordeb i'r ddwy ochr, sy'n ymwneud â'u rhywedd neu sy'n gysylltiedig â'u rhywedd, megis materion sy'n cwmpasu'r teulu a'r gymdeithas.³⁶ Awgryma ymchwil hefyd fod menywod yn mynd ar ôl arddull arweinyddiaeth sy'n fwy cydweithredol a chynhwysol, ac sy'n llai tebygol o orfodi hierarchaeth.³⁷
40. Dengys ymchwil fod cwotâu rhywedd yn arwain at ethol gwleidyddion o ansawdd gwell yn gyffredinol. Cynhaliodd yr Athro Syr Timothy Besley a chydweithwyr yn Ysgol Economeg Llundain astudiaeth ar gyflwyno cwotâu rhywedd yn Sweden. Adroddwyd ganddynt fod cwotâu rhywedd yn arwain at ethol menywod a dynion sydd â lefel uwch o gymhwysedd. Gan fod rhaid i ddynion gystadlu am leoedd, mae ymgeiswyr gwrywaidd sy'n fwy cymwys yn codi i'r brig. Golyga hyn na fydd ymgeiswyr gwrywaidd gwannach bellach yn gallu camu i swyddi yn rhwydd, o flaen menywod mwy cymwys sy'n cystadlu yn eu herbyn. Yng nghyd-destun dethol ymgeiswyr etholiadol, canfu'r astudiaeth fod cwota rhywedd llymach yn gwella cymhwysedd, yn enwedig ymhlith dynion.³⁸ Canfu astudiaeth draws-genedlaethol, ar wahân, fod cwotâu rhywedd yn gysylltiedig â lefelau uwch o brofiad gwleidyddol ac â deddfwyr mwy cymwys sydd â chefnidiroedd proffesiynol yn y gyfraith, economeg a chyllid, a materion rhyngwladol a diplomyddiaeth.³⁹

³⁴ Cowper-Coles, Minna (2021) '[Women political leaders: the impact of gender on democracy](#)', Y Sefydliad Byd-eang dros Fenywod mewn Rolau Arwain yng Ngholeg y Brenin Llundain a Sefydliad San Steffan dros Ddemocratiaeth.

Holman, Mirya R., (2015) *Women in Politics in the American City*, Gwasg Prifysgol Temple.
Norris, Pippa (1996) 'Women Politicians: transforming Westminster?', *Parliamentary Affairs*, Cyf. 49, Rhifyn 1.

³⁵ Childs, Sarah (2002). 'Hitting the Target: Are Labour Women MPs 'Acting for' Women?', *Parliamentary Affairs*, Cyf. 55, Rhifyn 1, tt. 143-153.

Cowper-Coles, Minna (2021) '[Women political leaders: the impact of gender on democracy](#)', Y Sefydliad Byd-eang dros Fenywod mewn Rolau Arwain yng Ngholeg y Brenin Llundain a Sefydliad San Steffan dros Ddemocratiaeth.

³⁶ Clayton, Amanda (2021) 'How Do Electoral Gender Quotas Affect Policy?' *Annual Review of Political Science*, t. 242.

³⁷ Cowper-Coles, Minna (2021) '[Women political leaders: the impact of gender on democracy](#)', Y Sefydliad Byd-eang dros Fenywod mewn Rolau Arwain yng Ngholeg y Brenin Llundain a Sefydliad San Steffan dros Ddemocratiaeth, t. 48.

³⁸ Besley, Timothy; Folke, Olle; Persson, Torsten; Rickne, Johanna (2013) 'Gender quotas and the crisis of the mediocre man: theory and evidence from Sweden', *American Economic Review*, Cyf. 107, Rhifyn 8, t. 2239.

³⁹ Aldrich, Andrea S. a Daniel, William T. (2020) 'The Consequences of Quotas: Assessing the Effect of Varied Gender Quotas on Legislator Experience in the European Parliament', *Gender and Politics*, Cyf. 16, Rhifyn 3, tt. 738–67.

41. Ym 1994, cyflwynwyd cwotâu rhywedd ymgeiswyr i'r system a ddefnyddiwyd i ethol rhai aelodau o senedd genedlaethol yr Eidal. Cynhaliodd Dr Ana Weeks a'r Athro Lisa Baldez astudiaeth yn seiliedig ar dystiolaeth yn ymwneud â'r etholiadau hynny a chanfuwyd nad oedd sail i'r honiad bod cwotâu yn arwain at ethol menywod llai galluog. Canfu'r astudiaeth fod gan fenywod a etholwyd drwy'r cwota fwy o brofiad mewn llywodraeth leol na deddfwyr eraill, a chyfraddau absenoldeb is na'u cymheiriaid gwrywaidd.⁴⁰ Yn ôl awduron yr astudiaeth, mae'r canfyddiadau hyn yn mynd i'r afael â phryderon y bydd ymgeiswyr a enwebir oherwydd deddfau cwota rhywedd yn llai cymwys ar gyfer y swydd.⁴¹
42. Cynhaliodd yr Athro Rainbow Murray o Brifysgol Queen Mary yn Llundain astudiaeth yn archwilio safon cynrychiolwyr etholedig ar ôl cyflwyno cwotâu rhywedd yn Ffrainc. Dangosodd yr astudiaeth fod menywod, er bod eu rhywedd yn rhwystr i'w hethol, yr un mor effeithiol â dynion yn y swydd. Mae hyn yn atgyfnerthu honiadau o blaid defnyddio cwotâu i oresgyn rhwystrau mynediad ac yn gwrthbrofi honiadau bod cwotâu yn cynhyrchu seneddwyr eilradd.⁴²
43. Dangosir bod cynrychiolaeth sydd â mwy o gydbwysedd o ran rhywedd yn cryfhau cyfreithlondeb deddfwrfeydd. Gall twf yn nifer y seneddwyr benywaidd adfywio democratiaeth, gan fod tystiolaeth bod diddordeb mewn gwleidyddiaeth ymhlith pleidleiswyr benywaidd yn cynyddu pan fydd mwy o ymgeiswyr benywaidd.⁴³ Dengys astudiaethau gan Atkeson a Carillo,⁴⁴ a chan Ulbig,⁴⁵ fod mwy o gynrychiolaeth o blith menywod yn arwain at fwy o ymddiriedaeth yn y llywodraeth. Mae Atkeson a Carillo yn canfod, pan fydd cyfran uwch o deddfwyr benywaidd, fod menywod yn teimlo'n well am y llywodraeth a bod gan gynrychiolaeth ddisgrifiadol fenywaidd fanteision pwysig i gymdeithas ddemocrataidd.⁴⁶
44. Pwysleisia astudiaethau ar amrywiaeth o ran rhywedd mewn deddfwrfeydd pa mor bwysig yw cael menywod mewn swyddi arweinyddol gwleidyddol, gan eu bod yn gwasanaethu fel modelau rôl a

⁴⁰ Weeks, Ana Catalano; Baldez, Lisa (2014) 'Quotas and Qualifications: The Impact of Gender Quota Laws on the Qualifications of Legislators in the Italian Parliament', *European Political Science Review*, Cyf. 7, Rhifyn 1, t. 119.

⁴¹ Weeks, Ana Catalano; Baldez, Lisa (2014) 'Quotas and Qualifications: The Impact of Gender Quota Laws on the Qualifications of Legislators in the Italian Parliament', *European Political Science Review*, Cyf. 7, Rhifyn 1, t. 119.

⁴² Murray, Rainbow (2010) 'Second Among Unequals? A Study of Whether France's "Quota Women" are Up to the Job', *Politics & Gender*, Cyf. 6, Rhifyn 1, t. 93.

⁴³ Phillips, Anne (1998) *Politics of Presence*, Gwasg Prifysgol Rhydychen.

⁴⁴ Atkeson, Lonna Rae a Carillo, Nancy (2007) 'More is Better: The Influence of Collective Female Descriptive Representation on External Efficacy', *Politics and Gender*, Cyf. 3, Rhifyn 1, tt. 79-101.

⁴⁵ Ulbig, Stacy G. (2007) 'Gendering Municipal Government: Female Descriptive Representation and Feelings of Political Trust', *Social Science Quarterly*, Cyf. 88, Rhifyn 5, tt. 1106-1123.

⁴⁶ Atkeson, Lonna Rae a Carillo, Nancy (2007) 'More is Better: The Influence of Collective Female Descriptive Representation on External Efficacy', *Politics and Gender*, Cyf. 3, Rhifyn 1, t. 94 a t. 79.

all annog menywod a merched eraill i ddilyn eu hesiampl. Canfu ymchwilwyr fod arweinwyr benywaidd ar y llwyfan cenedlaethol yn gallu bod yn bwysig iawn wrth ddarparu modelau rôl i genedlaethau'r dyfodol o fenywod sy'n ymwneud â gwleidyddiaeth.⁴⁷

45. Dengys dwy astudiaeth gan yr Athro David E. Campbell a'r Athro Chistina Wolbrecht o Brifysgol Notre Dame yn yr Unol Daleithiau fod cael menywod proffil uchel mewn gwleidyddiaeth yn arwain at fwy o ymwneud gwleidyddol gan fenywod a merched ifanc. Yn yr astudiaeth gyntaf, canfuwyd po fwyaf o sylw y mae gwleidyddion benywaidd yn ei gael yn y newyddion cenedlaethol, y mwyaf tebygol y mae merched yn eu harddegau o nodi bwriad i fod yn weithgar yn wleidyddol.⁴⁸ Yn yr ail astudiaeth, a archwiliodd ddata o dros 20 o wledydd Ewropeaidd, canfuwyd bod merched ifanc yn fwy tebygol o drafod gwleidyddiaeth pan fo mwy o aelodau seneddol benywaidd:

"[...] where there are more female members of parliament (MPs), adolescent girls are more likely to discuss politics with friends and to intend to participate in politics as adults, and adult women are more likely to discuss and participate in politics."⁴⁹

Dengys eu canfyddiadau fod gwleidyddion benywaidd yn gweithredu fel modelau rôl:

"[...] female politicians in democratic nations do function as true role models, inspiring women and girls to be politically active themselves. Women of all ages are more likely to discuss politics, and younger women become more politically active, when there are more women in parliament."⁵⁰

46. Dangosodd astudiaeth uchel ei phroffil arall o'r Unol Daleithiau fod menywod blaenllaw yn cael effaith gadarnhaol ar ymgeiswyr benywaidd:

"[...] high-profile women exert substantively large positive effects on female candidates. [...] [W]omen in major offices are crucial for women's representation [...] [as] they amplify women's political voice by motivating more women to enter politics."⁵¹

⁴⁷ Clare McNeil, Carys Roberts a Charlotte Snelling (2017), [*Power to the people? Tackling the gender imbalance in combined authorities and local government*](#), Y Sefydliad dros Ymchwil Polisi Cyhoeddus, t. 38.

⁴⁸ Campbell, David E. a Wolbrecht, Christina (2006) 'See Jane Run: Women Politicians as Role Models for Adolescents', *Journal of Politics*, Cyf. 68, Rhifyn 2, t. 233.

⁴⁹ Wolbrecht, Christina a Campbell, David E. (2007) 'Leading by Example: Female Members of Parliament as Political Role Models', *American Journal of Political Science*, Cyf. 51, Rhifyn 4, t. 921.

⁵⁰ Wolbrecht, Christina a Campbell, David E. (2007) 'Leading by Example: Female Members of Parliament as Political Role Models', *American Journal of Political Science*, Cyf. 51, Rhifyn 4, t. 936.

⁵¹ Ladam, Christina; Harden, Jeffrey J.; Windett, Jason H. (2018) 'Prominent Role Models: High-Profile Female Politicians and the Emergence of Women as Candidates for Public Office', *American Journal of Political Science*, Cyf. 62, Rhifyn 2, t. 369.

47. Dengys ymchwil gan yr Athro Fabrizio Gilardi yn seiliedig ar etholiadau yn y Swistir fod menywod sydd newydd eu hethol yn gatalydd i fenywod eraill sefyll mewn etholiad.⁵²
48. Dengys y canfyddiadau ymchwil hyn y gallai'r cynnydd yn nifer a chyfran yr ASau benywaidd ddarparu modelau rôl cadarnhaol i fenywod a merched yng Nghymru, cynhyrchu cronfa o fentoriaid posibl a allai gefnogi darpar ymgeiswyr benywaidd, a helpu i normaleiddio'r syniad bod swydd AS etholedig yn hyfyw i fenywod.
49. Ymhellach, mae tystiolaeth o ymchwil draws-genedlaethol y gallai cyflwyno cwotâu rhywedd fod o fudd i grwpiau gwarchoddedig ar wahân i fenywod. Dengys ymchwil fod cwotâu ar gyfer menywod yn tueddu i gynyddu canran y menywod o gefndiroedd lleiafrifol mewn gwleidyddiaeth.⁵³ Dangosodd astudiaeth gan yr Athro Melanie M. Hughes o Brifysgol Pittsburgh, a oedd yn seiliedig ar ethol menywod o fwy na 300 o grwpiau hil, ethnig a chrefyddol ar draws 81 o wledydd, fod menywod o gefndiroedd lleiafrifol yn elwa ar gwotâu rhywedd cenedlaethol.⁵⁴
50. Ceir corff sylweddol o dystiolaeth bod presenoldeb menywod mewn deddfwrfeydd yn gysylltiedig â lefelau is o lygredigaeth. Yn ei hadolygiad o'r ymchwil academiaidd yn y maes hwn, noda Dr Minna Cowper-Coles fod y dystiolaeth yn dangos bod deddfwyr benywaidd yn chwarae rhan bwysig wrth wrthweithio llygredigaeth.⁵⁵ Eglura:
- “The academic literature finds a clear link between having (more) women as representatives and lower levels of both [minor and more serious] types of corruption. This effect is found at all levels of government. [...] At the parliamentary level, although female legislators have been found to be less corrupt as individuals, the effect of female representation in aggregate also has an impact on corruption, with greater overall representation of women in parliament decreasing levels of corruption.”⁵⁶
51. Cynhaliodd Dr Chandan Kumar Jha a'r Athro Sudipta Sarangi o Brifysgol Talaith Louisiana astudiaeth yn archwilio effeithiau menywod mewn deddfwrfeydd ar lygredigaeth yn fyd-eang, gan ddefnyddio ffynonellau

⁵² Gilardi, Fabrizio (2015) 'The Temporary Importance of Role Models for Women's Political Representation', *American Journal of Political Science*, Cyf. 59, Rhifyn 4, tt. 957–70.

⁵³ Clayton, Amanda (2021) 'How Do Electoral Gender Quotas Affect Policy?' *Annual Review of Political Science*, t. 247.

⁵⁴ Melanie M. Hughes (2011) 'Intersectionality, Quotas, and Minority Women's Political Representation Worldwide', *American Political Science Review*, t. 604 a t. 616.

⁵⁵ Cowper-Coles, Minna (2021) '[Women political leaders: the impact of gender on democracy](#)', Y Sefydliad Byd-eang dros Fenywod mewn Rolau Arwain yng Ngholeg y Brenin Llundain a Sefydliad San Steffan dros Ddemocratiaeth, t. 11.

⁵⁶ Cowper-Coles, Minna (2021) '[Women political leaders: the impact of gender on democracy](#)', Y Sefydliad Byd-eang dros Fenywod mewn Rolau Arwain yng Ngholeg y Brenin Llundain a Sefydliad San Steffan dros Ddemocratiaeth, t. 51.

data, yn cynnwys Mynegai Rheoli Llygredigaeth World Bank.⁵⁷ Ystyriodd yr astudiaeth ystod o ffactorau y gwyddys eu bod yn gysylltiedig â llygredigaeth, gan gynnwys lefelau cyfoeth gwledydd ac i ba raddau y mae ganddynt hanes o sefydliadau democrataidd cryf. Yn gyntaf, edrychant ar wledydd ledled y byd a nodant fod presenoldeb menywod yn y senedd ar lefel genedlaethol yn cael effaith achosol a negyddol ar lygredigaeth.⁵⁸ Er mwyn atgyfnerthu hyder yn eu canfyddiadau, ânt ymlaen i edrych ar effeithiau presenoldeb menywod mewn llywodraeth leol, gan ganolbwyntio ar 155 o ranbarthau mewn 17 o wledydd Ewropeaidd, a nodant batrwm tebyg.

52. Mae World Bank hefyd wedi cynnal ymchwil sy'n archwilio'r cysylltiad rhwng presenoldeb menywod yn y llywodraeth a llygredigaeth. Defnyddiodd yr astudiaeth ffynonellau data, gan gynnwys mynegai llygredigaeth Country Risk Guide, a chanfu fod cyfraddau uwch o gyfranogiad gan fenywod yn y llywodraeth yn gysylltiedig â lefelau is o lygredigaeth.⁵⁹ Nododd yr ymchwilwyr y gall presenoldeb menywod arwain at fanteision sylweddol i'r gymdeithas yn gyffredinol:

"[...] results suggest that there may be extremely important spinoffs stemming from increasing female representation: if women are less likely than men to behave opportunistically, then bringing more women into government may have significant benefits for society in general."⁶⁰

53. Dengys canfyddiadau corff rhyngwladol o ymchwil ar amrywiaeth o ran rhywedd mewn deddfwrfeydd a nodir uchod y gallai gwella amrywiaeth o ran rhywedd yn y Senedd ddarparu sawl mantais. Bydd Senedd fwy amrywiol yn Senedd fwy effeithiol, gan y gallai'r newidiadau arwain at brosesau craffu a phenderfynu cyfoethocach a gwell. Gallai'r newidiadau gryfhau cyfreithlondeb y Senedd fel corff cynrychioliadol, ac arwain at fwy o gyfranogiad ac ymddiriedaeth gan y cyhoedd. Gallai'r cynnydd hwn mewn ymddiriedaeth gael ei atgyfnerthu ymhellach gan duedd menywod i gryfhau sylfeini sefydliadau democrataidd drwy hyrwyddo gonestrwydd a didwylledd mewn bywyd cyhoeddus. Gallai'r newidiadau hefyd hwyluso mwy o amrywiaeth yng nghyd-destun nodweddion ar wahân i rywedd.

⁵⁷ Jha, Chandan Kumar a Sarangi, Sudipta (2015) 'Women and Corruption: What Positions Must They Hold to Make a Difference?', *Journal of Economic Behavior and Organization*, Cyf. 151, tt. 219–33.

⁵⁸ Jha, Chandan Kumar a Sarangi, Sudipta (2015) 'Women and Corruption: What Positions Must They Hold to Make a Difference?', *Journal of Economic Behavior and Organization*, Cyf. 151, t. 219.

⁵⁹ Dollar, David; Fisman, Raymond; Gatti, Roberta (1999) '[Are women really the "fairer" sex: corruption and women in government](#)', *Policy research report on gender and development working paper series*, No. 4, Washington, D.C.: World Bank Group, tudalennau heb eu rhifo.

⁶⁰ Dollar, David; Fisman, Raymond; Gatti, Roberta (1999) '[Are women really the "fairer" sex: corruption and women in government](#)', *Policy research report on gender and development working paper series*, No. 4, Washington, D.C.: World Bank Group, tudalennau heb eu rhifo.

Rhesymeg: cyflwyno cwtâu rhywedd statudol

Defnydd o gwtâu rhywedd ledled y byd

54. Dengys ymchwil fod gweithredu cwtâu rhywedd statudol yn ffordd effeithiol o gynyddu cynrychiolaeth menywod mewn deddfwrfeydd.⁶¹ Dengys tystiolaeth, a gyhoeddwyd gan y Sefydliad Ewropeaidd ar gyfer Cydraddoldeb Rhywiol yn 2021, fod 11 aelod-wladwriaeth yr Undeb Ewropeaidd sydd â cwtâu rhywedd deddfwriaethol wedi cynyddu cyfran y menywod yn eu seneddau bron i deirgwaith yn gyflymach na gwledydd heb gwtâu.⁶² Canfu astudiaeth fyd-eang ar effeithiau cyflwyno cwtâu rhywedd fod eu cyflwyno, ar gyfartaledd, bron yn dyblu cynrychiolaeth seneddol menywod yn y cylch etholiadol cyntaf.⁶³ Yn 2018, cyhoeddodd Canolfan Llywodraethiant Cymru a Phrifysgol Metropolitan Llundain adroddiad, a gomisiynwyd gan Fwrdd Taliadau'r Senedd, corff annibynnol, a oedd yn awgrymu y byddai presenoldeb cwota yn cael effaith gadarnhaol ar benderfyniad menywod i sefyll mewn etholiad.⁶⁴
55. Defnyddir cwtâu rhywedd mewn dros 130 o wledydd yn fyd-eang ac maent bellach yn bodoli yn y mwyafrif o ddeddfwrfeydd cenedlaethol ledled y byd.⁶⁵ Yn ôl Dr Amanda Clayton o Brifysgol Vanderbilt, mae cwtâu rhywedd etholiadol yn bodoli ym mhob rhanbarth o'r byd:

“Electoral gender quotas exist in every region of the world and are found in a remarkably diverse set of countries. Sweden, the United Arab Emirates, Mexico, and Rwanda, for example, all have highly effective gender quotas that ensure near equal representation of men and women in their parliaments.”⁶⁶

⁶¹ Clayton, Amanda, (2021) 'How do electoral gender quotas affect policy?', *Annual Review of Political Science*, Cyf. 24, t. 236.

Hughes, Melanie M.; Paxton, Pamela; Krook, Mona Lena (2017) 'Gender quotas for legislatures and corporate boards', *Annual Review of Sociology*, Cyf. 43, tt. 331–52.

Hughes, Melanie M.; Paxton, Pamela; Clayton, Amanda B.; Zetterberg, Pär (2019) '[Global gender quota adoption, implementation, and reform](#)', *Comparative Politics*, Cyf. 51, Rhifyn 2, tt. 219–38.

⁶² Y Sefydliad Ewropeaidd ar gyfer Cydraddoldeb Rhywiol, [Quotas can turbocharge progress on gender balance in politics and business](#), Mai 2021; Y Sefydliad Ewropeaidd ar gyfer Cydraddoldeb Rhywiol, [Statistical brief: gender balance in politics 2020](#), Mai 2021.

⁶³ Clayton, Amanda a Zetterberg, Pär (2018) 'Quota Shocks: Electoral Gender Quotas and Government Spending Priorities Worldwide', *The Journal of Politics*, Cyf. 80, Rhifyn 3, t. 922.

⁶⁴ Awan-Scully, Roger; Stirbu, Diana; Pritchard, Huw; Davies, Nye; Larner, Jac (2018) [Dadansoddi Amrywiaeth: Rhwystrau a chymhellion i sefyll yn etholiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru](#), t. 6.

⁶⁵ Clayton, Amanda, (2021) 'How do electoral gender quotas affect policy?', *Annual Review of Political Science*, Cyf. 24, t. 235. Gweler hefyd: Hughes, Melanie M.; Paxton, Pamela; Clayton, Amanda B.; Zetterberg, Pär (2019) '[Global gender quota adoption, implementation, and reform](#)', *Comparative Politics*, Cyf. 51, Rhifyn 2, tt. 219–38.

Hughes, Melanie M.; Paxton, Pamela; Clayton, Amanda B.; Zetterberg, Pär (2019) 'Global Gender Quota Adoption, Implementation, and Reform', *Comparative Politics*, Cyf. 51, Rhifyn 2, tt. 219–38.

⁶⁶ Clayton, Amanda, (2021) 'How do electoral gender quotas affect policy?', *Annual Review of Political Science*, Cyf. 24, t. 236.

56. Y tu hwnt i gynyddu nifer y menywod sy'n cael eu hethol i'r ddeddfwrfa, dengys yr ymchwil y gall defnyddio cwotâu rhywedd arwain at fwy o fenywod yn ymgymryd â rolau arwain uwch, gan gynnwys yn y Cabinet, fel Cadeiryddion Pwyllgor neu yn eu plaid.⁶⁷

Modelau cwotâu rhywedd

57. Mae cwotâu rhywedd statudol fel arfer yn cael eu gweithredu naill ai drwy'r model seddi cadw neu drwy'r model cwotâu ymgeiswyr.

58. O dan y model seddi cadw, mae nifer penodol neu ganran sefydlog o seddi yn cael eu cadw ar gyfer menywod (neu fath arall o grŵp demograffig).⁶⁸ Er enghraifft, mae 60 sedd allan o 395 o seddi yn cael eu cadw ar gyfer menywod mewn etholiadau i Dŷ'r Cynrychiolwyr ym Moroco.⁶⁹ Mae cyfran y seddi a gedwir ar gyfer menywod pan fo'r model seddi cadw yn cael ei ddefnyddio yn aml yn is na chyfran y seddi o dan y model cwotâu ymgeiswyr, fel y'i defnyddir mewn rhai gwledydd:

“Whereas reserved seat quotas are typically never greater than a third of parliamentary seats, several countries with either candidate quotas or voluntary political party quotas have parity thresholds, requiring that men and women comprise an equal number of candidates on party lists. Not surprisingly, countries with the highest representation of women in national parliaments often have parity quotas in PR systems (e.g., Bolivia, South Africa, and Norway).”⁷⁰

59. Mae'r model seddi cadw fel arfer yn cael ei weithredu mewn gwledydd sy'n defnyddio systemau etholiadol y cyntaf i'r felin, ac yn bennaf mewn gwledydd ar draws Dwyrain Affrica, y Dwyrain Canol, a De Asia.⁷¹ Awgryma ymchwil gan yr Athro Mala Htun mai'r model hwn sydd fwyaf addas i sicrhau cynrychiolaeth grwpiau ethnig lleiafrifol yn hytrach na menywod.⁷²

60. Mae dyluniad y system a ddefnyddir i gadw seddi yn amrywio'n fawr o un lleoliad i'r llall yn dibynnu ar y cyd-destun cymdeithasol a'r math o grŵp y

⁶⁷ Clayton, Amanda, (2021) 'How do electoral gender quotas affect policy?', *Annual Review of Political Science*, Cyf. 24, t. 242.

Krook, Mona Lena; O'Brien, Diana Z. (2012) 'All the President's Men? The Appointment of Female Cabinet Ministers Worldwide', *Journal of Politics*, Cyf. 74, Rhifyn 3, tt. 840–55.

⁶⁸ Htun, Mala (2004) 'Is Gender like Ethnicity? The Political Representation of Identity Groups', *Perspectives on Politics*, Cyf. 2, Rhifyn 3, tt. 439–58.

⁶⁹ Sobhani, Delana (2021) '[Gender Quotas and Women's Political Representation: Lessons from Morocco](#)', Sefydliad Georgetown dros Fenywod, Heddwch a Diogelwch.

⁷⁰ Clayton, Amanda, (2021) 'How do electoral gender quotas affect policy?', *Annual Review of Political Science*, Cyf. 24, t. 238.

⁷¹ Clayton, Amanda, (2021) 'How do electoral gender quotas affect policy?', *Annual Review of Political Science*, Cyf. 24, t. 237.

⁷² Htun, Mala (2004) 'Is Gender like Ethnicity? The Political Representation of Identity Groups', *Perspectives on Politics*, Cyf. 2, Rhifyn 3, tt. 439–58.

ceisir cynrychiolaeth ar ei gyfer.⁷³ Un anfantais rhai dyluniadau seddi cadw yw y gallai'r system edrych fel pe bai'n ymyrryd yn fwy sylweddol yng nghanlyniad etholiad ac yn y broses ddethol etholwyr na model cwotâu ymgeiswyr, pan fo'r cwota yn cael ei gymhwyso cyn bwrw pleidleisiau.

61. O dan y model cwotâu ymgeiswyr, mae'n ofynnol i bleidiau gynnwys canran benodol o fenywod ar eu rhestrau etholiadol. Mae'r math hwn o gwota rhywedd yn fwyaf addas ar gyfer systemau etholiadol cynrychiolaeth gyfrannol, yn boblogaidd yng Ngorllewin Ewrop ac yn cael ei ddefnyddio ym mron pob gwlad yn America Ladin.⁷⁴

62. Un o brif fanteision defnyddio cwotâu rhywedd ymgeiswyr yw y gellir dweud bod menywod sy'n cael eu hethol drwy system o'r fath yn fwy grymus mwy na menywod sy'n cael eu hethol drwy systemau seddi cadw. Esbonia Dr Amanda Clayton fod menywod sy'n cael eu hethol drwy gwotâu ymgeiswyr yn ymuno ag amgylcheddau sy'n fwy cyfeillgar i fenywod, yn ei geiriau hi:

“[...] women entering political office through candidate quotas or voluntary party quotas may be entering more women-friendly environments than women in reserved seat systems [...] [because women elected through a quota] are not distinguishable from other legislators, as all candidates are elected through the same party-wide lists. [...] [This] may grant women in these quota regimes more influence and less stigma than “quota women” elected to reserved seats.”⁷⁵

Mae tystiolaeth o Dde Asia yn sôn am sut y mae menywod sy'n cael eu hethol drwy system seddi cadw yn cael eu hystyried gan rai yn feddianwyr "seddi cardod".⁷⁶

Yn gyson â'r canfyddiadau ymchwil hyn, rhagwelodd y Pwyllgor Diben Arbennig y byddai cwotâu rhywedd ymgeiswyr (drwy am-yn-eilio gorfodol) a system gyfrannol rhestr gaeedig yn cael eu cyflwyno ar gyfer etholiadau'r Senedd.⁷⁷ Roedd y Panel Arbenigol eisoes wedi argymhell cyflwyno model cwotâu ymgeiswyr gyda threfn am-yn-eilio dyn/menyw a system etholiadol pleidlais sengl drosglwyddadwy.⁷⁸

⁷³ Htun, Mala (2004) 'Is Gender like Ethnicity? The Political Representation of Identity Groups', *Perspectives on Politics*, Cyf. 2, Rhifyn 3, t. 440.

⁷⁴ Clayton, Amanda, (2021) 'How do electoral gender quotas affect policy?', *Annual Review of Political Science*, Cyf. 24, t. 237.

⁷⁵ Clayton, Amanda, (2021) 'How do electoral gender quotas affect policy?', *Annual Review of Political Science*, Cyf. 24, t. 245.

⁷⁶ Khan, Ayeshan; Sana, Naqvi (2020) 'Dilemmas of representation: Women in Pakistan's assemblies', *Asian Affairs*, Cyf. 51, Rhifyn 2, t. 299.

⁷⁷ Y Pwyllgor Diben Arbennig ar Ddiwygio'r Senedd, [Diwygio ein Senedd: Llais cryfach i bobl Cymru](#), Mai 2022, t. 43.

⁷⁸ Y Panel Arbenigol, [Senedd sy'n gweithio i Gymru: Adroddiad y Panel Arbenigol ar Ddiwygio Etholiadol y Cynlluniad](#), Tachwedd 2017, t. 132.

Cwotâu rhywedd ac etholiadau'r Senedd

63. Nid yw gofynion o ran cyfran a gosodiad menywod ar restrau ymgeiswyr wedi bod yn nodwedd o systemau etholiadol yng Nghymru hyd yn hyn.
64. Dengys dystiolaeth, sy'n ymwneud â defnyddio cwotâu rhywedd gwirfoddol gan bleidiau gwleidyddol yng Nghymru, nad yw dibynnu ar bleidiau yn gweithredu mesurau gwirfoddol yn debygol o arwain yn gyson at ethol Senedd sy'n adlewyrchu cyfansoddiad rhywedd Cymru.
65. Dim ond rhai pleidiau gwleidyddol sydd wedi defnyddio cwotâu rhywedd gwirfoddol ac nid yw eu defnydd ond wedi bod yn rhannol lwyddiannus o ran llwyddo i ethol Senedd gytbwys.
66. Ers sefydlu'r Cynulliad Cenedlaethol yn 1999, mae o leiaf ddwy o'r prif bleidiau gwleidyddol wedi cymhwyso cwotâu yn wirfoddol i'w prosesau dethol ymgeiswyr. Clywodd y Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Senedd dystiolaeth yn nodi y gellir priodoli llwyddiant cymharol y Senedd ers ei sefydlu, wrth gyflawni canrannau eithaf uchel o gynrychiolaeth menywod o'i gymharu â sefydliadau etholedig eraill, yn rhannol, i'r pleidiau hynny yn gweithredu cwotâu rhywedd o'u gwirfodd.⁷⁹
67. Ni ellir dibynnu ar gwtâu gwirfoddol i sicrhau Senedd sydd â chydbwysedd o ran rhywedd. Nid yw pob plaid yn defnyddio cwotâu, a gallai pleidiau sy'n gwneud hynny roi'r gorau i wneud hynny ar unrhyw adeg, gan effeithio'n negyddol ar gydbwysedd y Senedd o ran rhywedd ac, yn ei dro, ei heffeithiolrwydd. Mewn gwledydd lle mae cwotâu gwirfoddol yn effeithiol, mae pob prif blaid wleidyddol wedi ymrwymo i gwtâu ymgeiswyr uchelgeisiol mewn perthynas â chynrychiolaeth menywod, ac fe'u defnyddir yn gyson dros gyfnod hir. Er mwyn gwireddu'r nod polisi, sef Senedd fwy effeithiol, drwy sicrhau ei bod yn fwy cynrychioliadol o gyfansoddiad rhywedd y boblogaeth, ystyrir bod angen gwneud darpariaeth sy'n ei gwneud yn ofynnol i bob plaid wleidyddol ddefnyddio cwotâu rhywedd.
68. Awgryma'r llenyddiaeth academiaidd fod menywod yn wynebu rhwystrau ychwanegol o'i gymharu â dynion wrth geisio cael eu dethol fel ymgeisydd etholiadol oherwydd rhagfarn ymhlith detholwyr ymgeiswyr pleidiau. Mae'r dystiolaeth yn gymysg o ran y cwestiwn a yw'r etholwyr ehangach yn dangos rhagfarn yn erbyn ymgeiswyr benywaidd mewn etholiadau, gan awgrymu bod prosesau dethol ymgeiswyr yn allweddol i ragolygon etholiadol menywod.
69. Mae'r ystyriaethau hyn yn arbennig o berthnasol yng nghyd-destun etholiadau'r Senedd, o gofio mai dynion oedd mwyafrif llethol yr

⁷⁹ Y Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Senedd, [Diwygio'r Senedd: y camau nesaf](#), Medi 2020, t. 88.

ymgeiswyr (69%) yn etholiad 2021, gan awgrymu y byddai cwotâu gorfodol i fynd i'r afael â thangynrychiolaeth menywod yn y cam dethol ymgeiswyr yn debygol o arwain at Senedd fwy cynrychioliadol o ran rhywedd ac, yn ei dro, wireddu'r manteision (a nodir uchod) a ddisgwylir yn sgil hynny.

70. Wrth fynd i'r afael â rhagfarn o fewn pleidiau gwleidyddol, noda Dr Minna Cowper-Coles:

“Some articles point to a problem with the party chairs or selectorates who discriminate against women at the selection stage, because women are not seen to resemble the current party elite or fit the idea of the ideal candidate.”⁸⁰

Wrth adolygu'r dystiolaeth a gyflwynwyd mewn astudiaethau amrywiol, noda Dr Cowper-Cowles fod rhagfarn yn erbyn menywod ar adeg dethol ymgeiswyr yn rhwystr mawr sy'n atal menywod rhag mynd i mewn i wleidyddiaeth.⁸¹

71. Cynhaliodd Dr Leah Culhane a Jemima Olchawski astudiaeth o brofiadau menywod o brosesau dethol ac ethol yng nghyd-destun etholiadau cyffredinol y DU ar gyfer Cymdeithas Fawcett.⁸² Canfu'r astudiaeth dystiolaeth o wrthwynebiad gan aelodau pleidiau a'r cyhoedd i fenywod fel ymgeiswyr credadwy a thystiolaeth o ffafriaeth bendant ac ymhyg tuag at ymgeiswyr gwrywaidd ymhlith detholwyr.⁸³

72. Mae ymchwil hefyd yn darparu tystiolaeth sy'n awgrymu bod menywod yn cael eu gosod yn is ar restrau ymgeiswyr na dynion, neu mewn safleoedd sy'n anoddach i'w hennill, mewn lleoliadau lle defnyddir systemau etholiadol rhestr gyfrannol gaeedig.⁸⁴ Er enghraifft, archwiliodd Dr Berta Esteve-Volart a'r Athro Manuel Bagues y broses o osod menywod ar restrau pleidiau ar gyfer etholiadau i Senedd Sbaen a chanfuwyd bod pleidiau gwleidyddol yn tueddu i enwebu ymgeiswyr sy'n fenywod i safleoedd salach ar y papur pleidleisio.⁸⁵

⁸⁰ Cowper-Coles, Minna (2021) '[Women political leaders: the impact of gender on democracy](#)', Y Sefydliad Byd-eang dros Fenywod mewn Rolau Arwain yng Ngholeg y Brenin Llundain a Sefydliad San Steffan dros Ddemocratiaeth, t. 21.

⁸¹ Cowper-Coles, Minna (2021) '[Women political leaders: the impact of gender on democracy](#)', Y Sefydliad Byd-eang dros Fenywod mewn Rolau Arwain yng Ngholeg y Brenin Llundain a Sefydliad San Steffan dros Ddemocratiaeth, t. 42.

⁸² Culhane, Leah a Olchawski, Jemima (2018) '[Strategies for success: Women's experiences of selection and election in UK Parliament](#)', Cymdeithas Fawcett.

⁸³ Culhane, Leah a Olchawski, Jemima (2018) '[Strategies for success: Women's experiences of selection and election in UK Parliament](#)', Cymdeithas Fawcett, t. 36.

⁸⁴ Cowper-Coles, Minna (2021) '[Women political leaders: the impact of gender on democracy](#)', Y Sefydliad Byd-eang dros Fenywod mewn Rolau Arwain yng Ngholeg y Brenin Llundain a Sefydliad San Steffan dros Ddemocratiaeth, t. 22.

⁸⁵ Esteve-Volart, Berta, a Bagues, Manuel (2012) 'Are women pawns in the political game? Evidence from elections to the Spanish Senate', *Journal of Public Economics*, Cyf. 96, Rhifynnau 3–4, t. 387.

73. Mae tystiolaeth gymysg ynghylch a yw pleidleiswyr yn gwahaniaethu yn erbyn menywod sy'n ymgeisio mewn etholiad. Mae rhywfaint o dystiolaeth o ragfarn ar sail rhywedd. Archwiliodd Dr Amy King a'r Athro Andrew Leigh o Brifysgol Genedlaethol Awstralia a yw ymgeiswyr benywaidd yn wynebu gwahaniaethu gan y cyhoedd sy'n pleidleisio yn Awstralia. Canfyddant fod ymgeiswyr benywaidd yn dioddef o 'lyffethair rhywedd' ('*gender penalty*') a phriodolant hyn i ragfarn ymhlith pleidleiswyr.⁸⁶
74. Mewn cyferbyniad, noda Dr Leah Culhane a Jemima Olchawski yn eu crynodeb o ymchwil ar etholiadau cyffredinol y DU fod astudiaethau yn y DU wedi dangos nad yw pleidleiswyr yn gwahaniaethu yn erbyn menywod yn y blwch pleidleisio.⁸⁷ Yn yr un modd, archwiliodd yr Athro Mona Lena Krook y corff o ymchwil yn y maes hwn yn rhyngwladol gan nodi, yn achos rhywedd, fod y gwaith sydd wedi'i wneud yn amwys o ran natur ac effeithiau rhagfarn gan pleidleiswyr yn erbyn ymgeiswyr benywaidd.⁸⁸ Awgryma'r canfyddiadau hyn mai rhagfarn yn erbyn menywod gan bleidiau gwleidyddol yn ystod y cam dethol ymgeiswyr, yn hytrach na chan pleidleiswyr, sydd i gyfrif am y gyfran isel o gynrychiolwyr etholedig benywaidd. Byddai hyn yn awgrymu y byddai cwothâu ymgeiswyr ar gyfer menywod yn debygol o fod yn ffordd effeithiol o fynd i'r afael â thangynrychiolaeth menywod yn y cam dethol ymgeiswyr, gyda golwg ar sicrhau Senedd fwy effeithiol yn rhinwedd y tebygolrwydd y bydd yn fwy cynrychioliadol o rywedd y boblogaeth.

Y bwriad: trosolwg o'r Bil

75. Bwriad y Bil yw gwneud y Senedd yn ddeddfwrfa fwy effeithiol, ac anela at wneud hynny drwy gryfhau ei gallu i gynrychioli pobl Cymru. Er mwyn cyflawni hyn, bydd y Bil yn cyflwyno gofynion mewn perthynas â rhestrau ymgeiswyr sydd wedi'u dylunio i gynyddu'r siawns o sicrhau Senedd sy'n adlewyrchu ar y cyfan gyfansoddiad rhywedd Cymru.
76. Mae'r Bil yn canolbwyntio'n benodol ar gynyddu nifer yr ASau benywaidd, o ystyried y lefelau cynrychiolaeth amrywiol yn y Senedd ers 1999 a bod menywod a merched yn cynrychioli dros 50% o boblogaeth Cymru ac yn fwyafrif heb gynrychiolaeth ddigonol.
77. Bydd y Bil yn cyflwyno gofynion mewn perthynas â rhestrau ymgeiswyr yn hytrach na gofynion sy'n seiliedig ar y model seddi cadw. Mae'r adran sy'n cyflwyno'r canfyddiadau ymchwil ar y ddau fodel cwothâu rhywedd uchod yn nodi rhai o fanteision cwothâu ymgeiswyr. Fel y noda Dr

⁸⁶ King, Amy a Leigh, Andrew (2010) 'Bias at the Ballot Box? Testing Whether Candidates' Gender Affects Their Vote', *Social Science Quarterly*, Cyf. 91, Rhifyn 2, tt. 324–43.

⁸⁷ Culhane, Leah a Olchawski, Jemima (2018) '[Strategies for success: Women's experiences of selection and election in UK Parliament](#)', *Cymdeithas Fawcett*, t. 42.

⁸⁸ Krook, Mona Lena (2018) 'Electoral Systems and Women's Representation', yn *The Oxford Handbook of Electoral Systems*, gol. Erik S. Herron, Robert J. Pekkanen, a Matthew S. Shugart, tt. 175–192.

Amanda Clayton, cwotâu ymgeiswyr sydd fwyaf addas mewn gwledydd sy'n defnyddio systemau etholiadol cynrychiolaeth gyfrannol, a dyma'r system fydd yn cael ei defnyddio ar gyfer etholiadau'r Senedd yn dilyn gweithredu diwygiadau Bil SC(AE). Mae cwotâu o'r fath yn boblogaidd yng Ngorllewin Ewrop a De America.⁸⁹ Eglurodd Dr Clayton hefyd fod model cwotâu ymgeiswyr yn grymuso menywod, gan roi mwy o ddylanwad a llai o stigma i fenywod na "menywod cwota" a etholir i seddi cadw.⁹⁰ Rhagwelodd y Panel Arbenigol⁹¹ a'r Pwyllgor Diben Arbennig⁹² y byddai cwotâu ymgeiswyr yn cael eu cyflwyno.

78. Mae'r model cwotâu rhywedd ymgeiswyr a nodir yn y Bil yn adlewyrchu'r nodweddion allweddol a gafodd eu hargymell gan y Panel Arbenigol a'r Pwyllgor Diben Arbennig.

79. Ystyriodd y Panel Arbenigol y model cwotâu ymgeiswyr a fyddai, yn ei farn ef, yn fwyaf effeithiol pe bai'r Senedd yn mabwysiadu system etholiadol rhestr cynrychiolaeth gyfrannol ac etholaethau amlaelod. Roedd yn credu, gyda system rhestr o'r fath:

"[...] y dylai fod yn ofynnol i'r pleidiau sicrhau bod 50 y cant o'u hymgeiswyr ym mhob etholaeth yn fenywod a 50 y cant yn ddynion, a bod eu rhestrau yn cynnwys dynion a menywod am yn ail. [...] [Byddai] hefyd yn disgwyl i bleidiau sicrhau, os ydynt yn sefyll ymgeiswyr mewn mwy nag un etholaeth, eu bod yn ceisio cydbwysu nifer y rhestrau sy'n cael eu harwain gan fenywod a'r nifer sy'n cael eu harwain gan ddynion."⁹³

80. Datblygodd y Pwyllgor Diben Arbennig y farn hon, gan ddod i'r casgliad:

"[...] y dylid datblygu cwotâu rhywedd integredig a rhestru 'am-yn-ail' gorfodol fel rhan o'r system rhestr newydd [...] [ac] y dylai hyn gynnwys gwrthod rhestrau ymgeiswyr gan Swyddogion Canlyniadau fel sancsiwn am beidio â chydymffurfio â chwotâu deddfwriaethol."⁹⁴

81. Mae argymhellion y Panel Arbenigol, a gefnogwyd gan ymchwil ryngwladol a chyfraniadau gan arbenigwyr, wedi chwarae rhan allweddol wrth lywio elfennau canolog y model a gyflwynir yn y Bil. Gwnaed rhagor o ymchwil ddesg i ddatblygu'r argymhellion lefel uchel yn gynigion manwl. Dengys ymchwil ryngwladol yn glir fod ffactorau penodol yn

⁸⁹ Clayton, Amanda, (2021) 'How do electoral gender quotas affect policy?', *Annual Review of Political Science*, Cyf. 24, t. 237.

⁹⁰ Clayton, Amanda, (2021) 'How do electoral gender quotas affect policy?', *Annual Review of Political Science*, Cyf. 24, t. 245.

⁹¹ Y Panel Arbenigol, [Senedd sy'n gweithio i Gymru: Adroddiad y Panel Arbenigol ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad](#), Tachwedd 2017, t. 132.

⁹² Y Pwyllgor Diben Arbennig ar Ddiwygio'r Senedd, [Diwygio ein Senedd: Llais cryfach i bobl Cymru](#), Mai 2022, t. 43.

⁹³ Y Panel Arbenigol, [Senedd sy'n gweithio i Gymru: Adroddiad y Panel Arbenigol ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad](#), Tachwedd 2017, t. 147.

⁹⁴ Y Pwyllgor Diben Arbennig ar Ddiwygio'r Senedd, [Diwygio ein Senedd: Llais cryfach i bobl Cymru](#), Mai 2022, t. 43.

gysylltiedig â chwotâu rhywedd effeithiol, sef (i) canran yr ymgeiswyr benywaidd a chyfran y menywod sydd yn y safle cyntaf ar restrau pleidiau; (ii) rheolau sy'n ymwneud â lle y caiff menywod eu gosod ar restrau unigol a (iii) y system orfodi. Nid ystyriwyd opsiynau eraill ar gyfer gweithredu cwotâu rhywedd ymgeiswyr, megis gosod y trothwy isaf ar gyfer ymgeiswyr benywaidd ar lefel is na 50% neu beidio â gosod gofynion ar bleidiau i sicrhau bod o leiaf hanner yr ymgeiswyr yn y safle cyntaf ar eu rhestrau yn fenywod, yn fanwl gan fod yr ymchwil ryngwladol yn ei gwneud yn glir na fyddai mesurau o'r fath yn gyson â nodau polisi'r Bil. Mae'r adrannau nesaf yn rhoi rhagor o fanylion am y rhesymeg ar gyfer pob elfen o'r model cwotâu ymgeiswyr a gyflwynir yn y Bil.

82. O dan y system etholiadol rhestr gyfrannol a fydd yn cael ei chyflwyno gan Fil SC(AE), ystyrir y bydd dau ffactor allweddol yn siapio nifer y menywod sy'n cael eu hethol i'r Senedd: nifer y menywod a gyflwynir fel ymgeiswyr gan bleidiau gwleidyddol a'r safleoedd y gosodir menywod ynddynt ar restrau pleidiau.
83. Gan adlewyrchu hyn, bydd dwy nodwedd allweddol: trothwy isaf o ymgeiswyr sy'n fenywod a meini prawf gosod sy'n diogelu safleoedd penodol i fenywod ar restrau.
84. Pan fo plaid wleidyddol gofrestredig yn dewis cyflwyno rhestr neu restrau o ymgeiswyr ar gyfer etholiadau i'r Senedd, bydd yn ofynnol i'r rhestrau hynny gydymffurfio â'r rheolau cwota. Pan fo gan blaid fwy nag un ymgeisydd ar ei rhestr, rhaid i o leiaf hanner yr ymgeiswyr fod yn fenywod. Mae'r Bil hefyd yn cyflwyno gofynion sy'n ymwneud â gosod ymgeiswyr ar restrau pleidiau. Rhaid i ymgeisydd nad yw'n fenyw ar restr gael ei ddilyn yn syth gan ymgeisydd sy'n fenyw ar y rhestr, oni bai ei fod yn olaf ar y rhestr (meini prawf gosod fertigol). Os bydd plaid yn cyflwyno rhestrau mewn mwy nag un etholaeth, rhaid i fenyw fod yn y safle cyntaf (neu yn yr unig safle pan fo'n rhestr o un) ar o leiaf hanner rhestrau plaid ledled Cymru (meini prawf gosod llorweddol).
85. Bydd y gofynion sy'n ymwneud â'r meini prawf gosod fertigol yn gymwys i bob plaid wleidyddol gofrestredig sy'n sefyll mwy nag un ymgeisydd mewn etholaeth (gan gynnwys os na fydd y blaid yn sefyll ymgeiswyr mewn etholaeth arall). Bydd y gofynion sy'n ymwneud â'r meini prawf gosod llorweddol yn gymwys i bob plaid wleidyddol gofrestredig sy'n sefyll un neu ragor o ymgeiswyr mewn mwy nag un etholaeth.
86. Mae'r cyfuniad o feini prawf gosod fertigol a llorweddol yn cynyddu'r tebygolrwydd y bydd yr Aelodau a etholir i'r Senedd yn gynrychioliadol ar y cyfan o gyfansoddiad rhywedd poblogaeth Cymru.
87. Ni fydd ymgeiswyr annibynnol ond yn gallu sefyll mewn etholiad fel unigolion. Ni fyddant yn cael eu hystyried yn rhestr at ddibenion y system bleidleisio ac ni fyddant yn gallu grwpio gyda'i gilydd ar un rhestr. Gan mai dim ond pleidiau gwleidyddol cofrestredig a all gyflwyno rhestr, ni

fydd y trothwy isaf na'r gofynion gosod y darperir ar eu cyfer yn y Bil yn gymwys i ymgeiswyr unigol.

Rhesymeg: darparu gwybodaeth gan ymgeiswyr

88. Mae gofynion y system a gyflwynir gan y Bil yn seiliedig ar ofyniad i bob ymgeisydd ar restr plaid nodi yn y cam enwebu a yw'n fenyw ai peidio.
89. Mae darparu'r wybodaeth hon yn ofynnol i sicrhau bod y gofynion o ran rhestrau ymgeiswyr yn cael eu gweithredu a'u gorfodi'n effeithiol. Bydd yr wybodaeth yn cael ei darparu gan bob ymgeisydd ar restr plaid a bydd ar gael i'r canlynol:
- Pleidiau gwleidyddol i'w galluogi i drefnu eu rhestrau yn unol â'r gofynion fertigol a llorweddol;
 - Swyddogion Canlyniadau Etholaethol i'w galluogi i asesu a yw enwebiadau unigol a rhestrau pleidiau yn cydymffurfio â'r gofynion fertigol.
90. Yn ogystal, bydd angen i'r Swyddog Cydymffurfiaeth Enwebiadau Cenedlaethol newydd wybod a yw'r ymgeisydd cyntaf (neu'r unig ymgeisydd) ar restrau plaid yn fenyw, ai peidio, er mwyn asesu a yw pleidiau gwleidyddol yn cydymffurfio â'r gofynion llorweddol.
91. Mae'r gofyniad i ymgeisydd nodi a yw'n fenyw ai peidio yn darparu'r wybodaeth angenrheidiol, ond dim mwy, i weithredu a gorfodi'r system.

Rhesymeg: trothwy isaf a osodir ar 50%

92. Yn etholiad diweddaraf y Senedd yn 2021, 31% oedd cyfran yr ymgeiswyr a oedd yn fenywod. Mae'r ffigur hwn ymhell islaw cyfran y menywod yn y boblogaeth. Roedd ymgeiswyr gwrywaidd yn cyfrif am 69% o'r 470 o ymgeiswyr.⁹⁵
93. Bydd y Bil yn ei gwneud yn ofynnol i bleidiau sicrhau bod o leiaf hanner yr ymgeiswyr ar eu rhestrau yn fenywod, pan fo rhestr yn cynnwys mwy nag un ymgeisydd. Gelwir y dull hwn yn 'trothwy isaf', a gosodir y trothwy ar 50% ar gyfer ymgeiswyr sy'n fenywod.
94. Er y bydd yn ofynnol i bleidiau sicrhau bod o leiaf 50% o'u hymgeiswyr yn fenywod, gall yr ymgeiswyr sy'n weddill fod yn unrhyw rywedd, gan gynnwys menyw, ym mha bynnag gyfran.
95. Os bydd rhestr yn cynnwys odrif o ymgeiswyr, bydd y trothwy isaf o 50% yn golygu y bydd angen o leiaf un ymgeisydd arall sy'n fenyw o'i gymharu ag ymgeiswyr nad ydynt yn fenywod. Ni fydd trothwy isaf yn gymwys os

⁹⁵ Comisiwn y Senedd, [Etholiad y Senedd yn 2021: Papur briffio](#), 2021.

bydd plaid yn cyflwyno rhestr sy'n cynnwys un ymgeisydd yn unig (er y byddai'r gofyniad gosod llorweddol a nodir isod yn gymwys pe bai'r plaid yn cyflwyno rhestr mewn mwy nag un etholaeth).

96. Defnyddir trothwyon isaf yn gyffredin i sicrhau bod rhestrau pleidiau yn adlewyrchu'r gymdeithas yn well, ac mae eu cyflwyno wedi arwain at gynnydd yn nifer y menywod sy'n cael eu hethol. Er enghraifft, roedd cynnydd o 40% yn nifer y menywod a etholwyd yng Ngweriniaeth Iwerddon (o 25 o seddi yn 2011 i 35 o seddi yn 2016) yn dilyn cyflwyno trothwy ar gyfer ymgeiswyr benywaidd a osodwyd ar 30% cyn etholiad cyffredinol 2016.⁹⁶
97. Mae trothwy isaf a osodir ar 50% ar gyfer menywod yn gwota cymesur mewn perthynas â'r ganran o boblogaeth Cymru sy'n fenywod. Rhagwelir y bydd gosod y trothwy ar y lefel hon yn arwain at gynnydd yn nifer y menywod sy'n rhan o'r llif o ddarpar ASau. Mae'n annhebygol y bydd cwota a osodir ar lefel is yn gweithredu fel dull a fydd yn arwain at ethol cyfran sylweddol uwch o fenywod, o gofio bod 43% o'r ASau a etholwyd yn yr etholiad diweddaraf yn 2021 yn fenywod.
98. O ystyried y gyfran isel o fenywod sy'n ymgeisio yn etholiadau'r Senedd yn hanesyddol, ni ragwelir y bydd trothwy isaf ar gyfer menywod a osodir ar 50% yn arwain at restrau pleidiau a Senedd sy'n cael eu gorgynrychioli'n sylweddol gan fenywod.
99. Ystyrir isafswm trothwy a osodir ar 50% yn ffordd fwy effeithiol o wireddu'r nod polisi na system gwota 50:50 dyn/menyw gymesur sy'n seiliedig ar drefn am-yn-eilio lem a gynigir gan y Pwyllgor Diben Arbennig.⁹⁷ Yn nodweddiadol, mae systemau cwota cymesur yn ei gwneud yn ofynnol i bleidiau gynnwys dynion a menywod am yn ail wrth osod ymgeiswyr ar restrau, a hynny mewn modd llym. Felly, mae cwota cymesur, fel arfer, yn galw am fwy o lymder a chyfarwyddyd yn y rheolau ynghylch gosod y gwahanol ryweddau ar restrau ymgeiswyr unigol pleidiau ac ar draws eu rhestrau, gan arwain at lai o hyblygrwydd i bleidiau drefnu eu rhestrau cyn yr etholiad.
100. At ei gilydd, byddai system gwota 50:50 gymesur yn cynnwys risg ychydig yn uwch o fethu â sicrhau o leiaf 50% o gynrychiolaeth menywod yn y Senedd nesaf na'r system gwota a gynigir yn y Bil hwn. Mae hyn oherwydd nad yw system gwota gymesur yn rhoi unrhyw hyblygrwydd i bleidiau osod menywod mewn safleoedd olynol ar eu rhestrau pan fo disgwyliad y gall ymgeiswyr yn y safleoedd hynny ennill seddi. Byddai system gwota gymesur i bob pwrpas yn gosod terfyn uchaf ar nifer yr ymgeiswyr benywaidd a allai sefyll, nodweddiad a fyddai'n ymddangos yn groes i'r nod o ethol mwy o fenywod i'r Senedd. Gyda'i gilydd, mae'r ystyriaethau hyn yn nodi y byddai system sy'n seiliedig ar drothwy isaf a

⁹⁶ Buckley, Fiona (2019) [Ireland's experience of parliamentary gender quotas](#).

⁹⁷ Y Pwyllgor Diben Arbennig ar Ddiwygio'r Senedd, [Diwygio ein Senedd: Llais cryfach i bobl Cymru](#), Mai 2022, t. 43.

osodir ar 50% ar gyfer ymgeiswyr sy'n fenywod yn cyflawni'r nodau a ddymunir. Byddai system o'r fath yn golygu llai o gymhlethdod a mwy o hyblygrwydd i bleidiau gwleidyddol na threfn am-yn-eilio lem.

Rhesymeg: meini prawf gosod fertigol

101. Bydd y Bil hwn yn cyflwyno gofyniad bod rhaid i restrau a gyflwynir gan bleidiau gwleidyddol fodloni'r meini prawf gosod fertigol wrth osod ymgeiswyr ar restr etholiadol. Y gofyniad yw pan fydd ymgeisydd nad yw'n fenyw yn cael ei osod ar restr, rhaid i fenyw ddilyn (ac eithrio pan fydd ymgeisydd nad yw'n fenyw yn cael ei osod yn y safle olaf ar restr). Gall ymgeisydd sy'n fenyw neu ymgeisydd nad yw'n fenyw ddilyn menyw ar restr. Mae'r system hon yn caniatáu i bleidiau osod mwy nag un ymgeisydd sy'n fenyw mewn trefn olynol ar eu rhestrau.
102. Er y bydd cyflwyno trothwy isaf ar gyfer menywod a osodir ar 50% yn arwain at gynnydd yng nghyfran yr ymgeiswyr sy'n fenywod yn etholiadau'r Senedd, mae angen y cam ychwanegol o gyflwyno meini prawf gosod i helpu i sicrhau bod cyfran uwch o'r ymgeiswyr a etholir fel Aelodau yn ymgeiswyr sy'n fenywod.
103. O dan y system etholiadol rhestr gyfrannol newydd a gyflwynir gan Fil SC(AE), bydd pleidiau gwleidyddol yn gallu cyflwyno rhestr o hyd at wyth ymgeisydd ym mhob un o 16 o etholaethau Senedd Cymru. Gyda'r math hwn o system, mae'r safle y gosodir menywod ynddo ar restrau pleidiau yn effeithio'n fawr ar eu siawns o gael eu hethol. Y bwriad wrth gyflwyno meini prawf gosod yw sicrhau bod ymgeiswyr sy'n fenywod yn cael eu gosod ar restrau pleidiau mewn safleoedd lle maent, fel arfer, o leiaf, yr un mor debygol ag ymgeiswyr nad ydynt yn fenywod o ennill sedd.
104. Heb weithredu'r meini prawf gosod fertigol, gallai plaid osod menywod mewn safleoedd israddol ar ei rhestrau. Canlyniad posibl hyn fyddai plaid yn cyflawni'r gofynion o ran trothwy isaf drwy sicrhau bod o leiaf 50% o'i hymgeiswyr yn fenywod, ac eto nifer mwy o ymgeiswyr nad ydynt yn fenywod yn cael eu hethol nag ymgeiswyr sy'n fenywod. Ni fyddai canlyniad o'r fath yn cyflawni diben y Bil o greu Senedd fwy effeithiol, gan na fyddai'n cefnogi'r nod o wella cynrychiolaeth menywod yn y Senedd.

Rhesymeg: meini prawf gosod llorweddol

105. Er y bydd y gofynion gosod fertigol yn sicrhau bod o leiaf 50% o'r ymgeiswyr ar restr yn fenywod a bod menywod yn cael eu gosod mewn safleoedd 'enilladwy' ar y rhestr, mae'n dal yn bosibl yr etholir nifer mwy o ymgeiswyr nad ydynt yn fenywod na'r rhai hynny sy'n fenywod o ganlyniad i ymgeisydd nad yw'n fenyw yn cael ei osod yn y safle cyntaf ar bob rhestr. Pe bai pleidiau yn gosod ymgeisydd nad yw'n fenyw yn y safle cyntaf ar restrau fel mater o drefn neu hyd yn oed ym mhob etholaeth, gallai hyn gael effaith sylweddol ar y graddau y byddai'r

Senedd yn adlewyrchu'r cydbwysedd o ran rhywedd sy'n bodoli mewn cymdeithas. Os na chyflwynir meini prawf gosod llorweddol ochr yn ochr â'r gofynion gosod fertigol, gallai plaid ethol hyd at 16 yn fwy o ymgeiswyr nad ydynt yn fenywod na'r rhai hynny sy'n fenywod.

106. Er mwyn cyfyngu ar y risg y gallai hyn ddigwydd, bydd y Bil yn cyflwyno gofyniad i sicrhau bod gan o leiaf 50% o'r holl restrau a gyflwynir gan blaid ledled Cymru ymgeisydd sy'n fenyw yn y safle cyntaf. Gall yr ymgeisydd yn y safle cyntaf ar y 50% sy'n weddill o restrau'r blaid fod yn ymgeisydd sy'n fenyw neu'n ymgeisydd nad yw'n fenyw. Pe bai plaid yn cyflwyno odrif o restrau, byddai'r rheol 50% yn dal i sefyll, sy'n golygu y byddai angen o leiaf un rhestr arall ag ymgeisydd sy'n fenyw yn y safle cyntaf na rhestrau ag ymgeisydd nad yw'n fenyw ar y brig. Ystyriwyd a ddylid cymhwyso'r meini prawf llorweddol ar lefel fwy lleol. Un opsiwn, er enghraifft, fyddai gefeillio'n anffurfiol ddwy etholaeth neu ragor a gosod gofyniad y dylai plaid sicrhau bod gan o leiaf hanner y rhestrau yn y nifer penodol o etholaethau fenyw yn y safle cyntaf. Diystyrwyd yr opsiwn hwn gan y byddai wedi cymhlethu'r rheolau ac wedi gosod cyfyngiadau ar bleidiau gwleidyddol heb unrhyw fudd amlwg. Byddai hefyd, o bosibl, yn achosi problemau i bleidiau nad ydynt yn bwriadu sefyll ymgeiswyr ym mhob etholaeth.

107. Ni fydd cyflwyno'r meini prawf gosod llorweddol yn dileu'r posibilrwydd y bydd mwy o ymgeiswyr nad ydynt yn fenywod yn cael eu hethol fel ASau na menywod, ond bydd yn cyfyngu i ba raddau y gallai hyn ddigwydd. Yn yr enghraifft fwyaf eithafol, gallai plaid gyflawni gofynion y trothwy isaf a'r meini prawf gosod a gweld hyd at wyth yn fwy o ymgeiswyr nad ydynt yn fenywod yn cael eu hethol na'r rhai hynny sy'n fenywod o hyd. Byddai hyn yn digwydd pan fo plaid yn ennill odrif o seddi yn union hanner yr 16 o etholaethau newydd, yn ennill nifer cyfartal o seddi yn yr etholaethau eraill, ac wedi gosod ymgeisydd nad yw'n fenyw yn y safle cyntaf ar restrau pob etholaeth lle mae'n ennill odrif o seddi, wrth osod menyw yn y safle cyntaf ym mhob etholaeth arall. Mae'r canlyniad eithafol hwn yn annhebygol o ddigwydd yn ymarferol, naill ai'n anfwriadol neu drwy beirianeg fwriadol gan bleidiau gwleidyddol.

108. Rhagwelir y bydd cyflwyno trothwy isaf ar gyfer menywod a osodir ar 50% a meini prawf gosod fertigol a llorweddol yn cynyddu'r siawns o ethol Senedd sy'n adlewyrchu cyfansoddiad poblogaeth Cymru o ran rhywedd. Serch hynny, cydnabyddir o hyd fod gan bleidiau gwleidyddol rôl allweddol i'w chwarae, drwy'r broses ddethol ymgeiswyr a'r gwaith o lunio restrau pleidiau etholaethol, wrth sicrhau bod ymgeiswyr benywaidd yn cael eu gosod mewn seddi enilladwy ac mewn etholaethau enilladwy, os yw'r ddeddfwriaeth am gyflawni ei diben yn llawn.

Rhesymeg: gorfodi trothwy isaf a gofynion gosod

109. Er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'r gofynion newydd, ystyrir bod angen i'r Bil gyflwyno system orfodi a sancsiynau posibl am beidio â chydymffurfio.

110. Mae'r defnydd o sancsiynau i gefnogi ymdrechion gorfodi yn ddull a ddefnyddir yn gyffredin mewn gwledydd lle mae cwtâu rhywedd wedi'u mabwysiadu. Mae'r math o sancsiynau sy'n gymwys yn amrywio rhwng gwledydd, ac mae ffactorau cyd-destunol yn siapiau pa fath o sancsiynau sy'n debygol o fod yn effeithiol ym mhob lleoliad. Yng Nghymru, disgwylir mai'r dull mwyaf effeithiol fyddai system sancsiynau sy'n seiliedig ar wrthod rhestrau pleidiau. O dan y system sy'n gymwys yng Ngweriniaeth Iwerddon, mae pleidiau sy'n methu â bodloni'r cwota rhywedd etholiadol yn colli 50% o'r cyllid gwladol y byddent fel arall yn ei dderbyn.⁹⁸ Ni ellid disgwyl i system sancsiynau o'r fath weithredu'n effeithiol yng Nghymru gan nad yw pleidiau'n derbyn cyllid gwladol yn y ffordd y maent yng Ngweriniaeth Iwerddon ac mewn rhai gwledydd eraill.
111. Bydd y Bil yn gweithredu argymhelliad y Pwyllgor Diben Arbennig, a argymhellodd fod y trefniadau newydd yn cynnwys '[...] gwrthod rhestrau ymgeiswyr [...] fel sancsiwn am beidio â chydymffurfio â chwotâu deddfwriaethol'.⁹⁹
112. Bydd Swyddogion Canlyniadau Etholaethol yn gyfrifol am wirio bod o leiaf 50% o'r ymgeiswyr ar bob rhestr wedi nodi eu bod yn fenyw a bod y gofynion gosod fertigol yn cael eu bodloni. Bydd y gwiriadau hyn yn cael eu cynnal fel rhan o'r prosesau a'r gweithdrefnau safonol presennol a sefydledig sy'n ymwneud â chyfraith etholiadol. Mae gan Swyddogion Canlyniadau Etholaethol eisoes bwerau i ddyfarnu papurau enwebu ymgeiswyr yn annilys pan na fo'r wybodaeth yn gyflawn nac yn cydymffurfio. Yn yr un modd, bydd Swyddogion Canlyniadau Etholaethol yn gallu dyfarnu papurau enwebu yn annilys ar sail diffyg cydymffurfiaeth â'r gofynion yn y Bil hwn.
113. Bydd rôl Swyddog Cydymffurfiaeth Enwebiadau Cenedlaethol yn cael ei chreu i oruchwylio cydymffurfiaeth â'r gofynion gosod llorweddol er y bydd penderfyniadau ynghylch dilysrwydd papurau enwebu a rhestrau pleidiau yn aros gyda'r Swyddogion Canlyniadau Etholaethol. Gan fod hon yn rôl newydd ac unigryw sy'n ofynnol at ddibenion gweithredu cwtâu yn unig, mae'r Bil yn darparu ar gyfer penodi'r swyddog newydd hwn gan Weinidogion Cymru. Fel sy'n wir am rôl Swyddogion Canlyniadau Etholaethol, bydd llawer o'r manylion gweithredol sy'n ymwneud â'r camau ymarferol y mae rhaid neu y caniateir i'r Swyddog Cydymffurfiaeth Enwebiadau Cenedlaethol eu cymryd er mwyn asesu cydymffurfiaeth a datrys unrhyw faterion o ran diffyg cydymffurfiaeth yn cael eu nodi mewn Gorchymyn a wneir gan Weinidogion Cymru o dan adran 13 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. I grynhoi, y bwriad yw y bydd pob Swyddog Canlyniadau Etholaethol yn cyflwyno gwybodaeth i'r Swyddog Cydymffurfiaeth Enwebiadau Cenedlaethol am y rhywedd a nodwyd gan yr ymgeisydd yn y safle cyntaf ar restr pob plaid yn ei etholaeth. Yna, bydd y Swyddog Cydymffurfiaeth Enwebiadau

⁹⁸ Buckley, Fiona (2019) [Ireland's experience of parliamentary gender quotas](#).

⁹⁹ Y Pwyllgor Diben Arbennig ar Ddiwygio'r Senedd, [Diwygio ein Senedd: Llais cryfach i bobl Cymru](#), Mai 2022, t. 43.

Cenedlaethol yn cadarnhau a yw rhestrau plaid yn cydymffurfio â'r gofynion gosod llorweddol. Os na fydd rhestrau plaid wleidyddol yn cydymffurfio â'r gofynion gosod llorweddol, caiff y blaid ddewis i'r rhestr (neu'r rhestrau) gael eu haildrefnu gan y Swyddog Canlyniadau Etholaethol yn unol â'r rheolau penodol a fydd yn cael eu rhagnodi mewn Gorchymyn a wneir gan Weinidogion Cymru o dan adran 13 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth. Os na fydd plaid yn dewis rhestr (neu restrau) i Swyddogion Canlyniadau Etholaethol eu haildrefnu, yna byddai'r Swyddog Cydymffurfiaeth Enwebiadau Cenedlaethol yn dewis un rhestr (neu ragor, fel sy'n angenrheidiol i sicrhau cydymffurfiaeth) (ar hap yn ôl pob tebyg drwy fwrw coelbren) a byddai'r rhain yn cael eu haildrefnu gan y Swyddogion Canlyniadau Etholaethol yn unol â rheolau penodedig er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth.

114. Bydd llawer o'r manylion ynghylch sut y bydd y broses orfodi yn gweithio'n ymarferol yn cael eu nodi mewn Gorchymyn a wneir gan Weinidogion Cymru o dan adran 13 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Bydd y Gorchymyn a wneir o dan y pŵer hwnnw'n nodi, er enghraifft, sut y bydd disgwyl i'r Swyddog Canlyniadau Etholaethol a'r Swyddog Cydymffurfiaeth Enwebiadau Cenedlaethol ddelio ag effaith tynnu ymgeiswyr oddi ar restr (er enghraifft, o ganlyniad i farwolaeth) wrth asesu cydymffurfiaeth plaid â'r gofynion fertigol a llorweddol. Mae'r pwerau yn y ddeddfwriaeth hefyd yn cynnwys pwerau i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth benodol mewn Gorchymyn o dan adran 13 mewn perthynas â'r hawl i archwilio gwybodaeth am rywedd a ddarparwyd gan ymgeiswyr. Ar hyn o bryd, caniateir i grwpiau cyfyngedig o bobl (gan gynnwys ymgeiswyr eraill sy'n sefyll yn yr un etholaeth a'u hasiantiaid) archwilio papurau enwebu yn ystod y cyfnod cyn yr etholiad.
115. Mae'r Bil yn darparu'r pwerau ar gyfer mynd i'r afael â'r materion gweithredol hyn mewn is-ddeddfwriaeth, gan adlewyrchu'r cydbwysedd cyfredol rhwng materion a gwmpesir mewn deddfwriaeth sylfaenol a'r rhai y darperir ar eu cyfer mewn Gorchymyn a wneir gan Weinidogion Cymru o dan adran 13 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.
116. Rhoddwyd ystyriaeth ofalus i'r math o system orfodi a fyddai fwyaf priodol yng Nghymru. Bydd dull gwahanol o orfodi yn cael ei gymryd ar lefel etholaeth o'i gymharu ag ar lefel genedlaethol. Diben y gwahaniaeth hwn o ran y dulliau yw sicrhau bod y system orfodi wedi'i chynllunio i gydbwyso'n briodol yr angen am orfodi cadarn ac effeithiol â'r angen i weithredu mewn modd cyfrannol a diogelu canlyniad etholiad. Yn y pen draw, cyflawnir y canlyniad a ddymunir o gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth, gan fod yn sensitif i rai o'r heriau y gall pleidiau eu hwynebu wrth weithredu'r ddeddfwriaeth newydd ac yn sensitif i fuddiannau pawb wrth sicrhau bod etholiadau'n cael eu cynnal yn effeithlon ac yn effeithiol.

Rhesymeg: gweithredu system adolygu

117. Y Senedd ei hun a gyflwynodd y cynigion i ddiwygio'r Senedd, drwy'r Panel Arbenigol ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad, y Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Senedd, ac yn ddiweddarach y Pwyllgor Diben Arbennig ar Ddiwygio'r Senedd.
118. Er mai Bil gan Lywodraeth Cymru yw hwn, ei ddiben craidd yw rhoi effaith ddeddfwriaethol i argymhelliad y Pwyllgor Diben Arbennig ar Ddiwygio'r Senedd, y cafodd ei argymhellion eu cymeradwyo gan y Senedd ym mis Mehefin 2022.
119. Felly, er y rhoddwyd ystyriaeth i osod dyletswydd adrodd ar Weinidogion Cymru, penderfynwyd gan Lywodraeth Cymru ei bod yn briodol i'r Senedd gynnal unrhyw adolygiad o weithrediad ac effaith y Ddeddf.
120. Mae'r darpariaethau adolygu yn ei gwneud yn ofynnol i'r Llywydd gyflwyno cynnig cyn gynted ag y bo'n ymarferol (a heb fod yn hwyrach na chwe mis) yn dilyn cyfarfod cyntaf y Senedd ar ôl yr etholiad cyffredinol cyntaf i gael ei gynnal ar ôl i'r darpariaethau yn y Ddeddf sy'n sefydlu'r cwtâu ddod i rym yn llawn. Mae'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol bod y cynnig yn cynnig bod y Senedd yn sefydlu pwyllgor at ddibenion cynnal adolygiad o weithrediad ac effaith adran 1 o'r Ddeddf ac unrhyw ddarpariaethau cysylltiedig a wneir o dan adran 13 o Ddeddf 2006 neu o dan y Ddeddf ei hun. Rhaid i'r cynnig hefyd gynnig bod rhaid i'r pwyllgor gwblhau adroddiad ar yr adolygiad heb fod yn hwyrach na 12 mis ar ôl cyfarfod cyntaf y Senedd ar ôl yr etholiad cyffredinol hwnnw. Os bydd y pwyllgor, ar ôl adolygiad o'r fath, yn gosod adroddiad gerbron y Senedd, mae'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru osod datganiad yn nodi eu hymateb i'r adroddiad. Mae'r dull hwn o adolygu yn gyson ag adran 19 o Fil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau). Y bwriad yw hwyluso dull cydlynol o adolygu'r diwygiadau a weithredir drwy'r pecyn o Filiau a gyflwynir o ganlyniad i'r argymhellion yn adroddiad y Pwyllgor Diben Arbennig ar Ddiwygio'r Senedd.

4. Ymgynghori

121. Gosododd adroddiad y Pwyllgor Diben Arbennig, *Diwygio Ein Senedd, Llais Cryfach i Bobl Cymru*,¹⁰⁰ amserlen uchelgeisiol i fynd ati i ddiwygio'r Senedd mewn pryd ar gyfer etholiad nesaf y Senedd yn 2026. Dywedodd y Pwyllgor y byddai angen cyflwyno deddfwriaeth ar fyrder er mwyn i'w gynigion gael eu rhoi ar waith mewn pryd ar gyfer etholiad 2026.
122. Hefyd, mae'n gwbl briodol bod gweinyddwyr etholiadol a phleidiau gwleidyddol yn cael cyfnod priodol o amser i baratoi i weithredu newidiadau o'r fath, ar ôl i ddeddfwriaeth berthnasol gael ei gwneud. Er enghraifft, mae Confensiwn Gould yn gwneud darpariaeth y dylai pob deddfwriaeth sy'n berthnasol i etholiad – gan gynnwys is-ddeddfwriaeth – gael ei gwneud o leiaf chwe mis cyn hysbysiad yr etholiad hwnnw, er mwyn sicrhau bod digon o amser i newidiadau i'r gyfraith etholiadol gael eu rhoi ar waith yn briodol.¹⁰¹
123. Dywedodd Llywodraeth Cymru yn ei hymateb i adroddiad y Pwyllgor Diben Arbennig y gallai'r amserlen dynn hon gyfyngu neu gwtogi ar gyfleoedd i graffu cyn deddfu. Felly y bu, ac nid oedd yn bosibl i Lywodraeth Cymru gynnal ei hymgynghoriad cyhoeddus agored ei hun ar gysyniadau cyffredinol Diwygio'r Senedd na Bil drafft o fewn yr amserlen a oedd ar gael i ddatblygu'r ddeddfwriaeth.
124. Yn hytrach, mae Llywodraeth Cymru wedi cydweithio â rhanddeiliaid allanol mewn ffordd wedi'i thargedu i drafod ystyriaethau polisi allweddol. Mae hyn wedi cynnwys cydweithio â'r Comisiwn Etholiadol; Comisiwn y Senedd; y gymuned o weinyddwyr etholiadol (gan gynnwys Swyddogion Canlyniadau a chynrychiolwyr Gweinyddwyr Etholiadol); academyddion ym maes cynrychiolaeth amrywiol mewn gwleidyddiaeth; a nifer bach o sefydliadau'r trydydd sector. Mae'r Comisiwn Etholiadol hefyd wedi cydweithio â chynrychiolwyr y pleidiau gwleidyddol ar y cynigion polisi lefel uchel. Mae trafodaethau gydag arbenigwyr academaidd, a gefnogwyd gan ymchwil ddesg, wedi bod yn allweddol wrth ddeall ffactorau llwyddiant allweddol systemau cwota ledled y byd. Mae trafodaethau eraill, yn enwedig y rhai â'r gymuned o weinyddwyr etholiadol, wedi helpu i ddeall sut y gellir integreiddio cwotâu rhywedd yn effeithiol i'r system etholiadol bresennol yng Nghymru, gan sicrhau cyn lleied o effaith negyddol â phosibl.
125. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi cydweithio â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ar elfennau o'r Bil sy'n ymwneud â phreifatrwydd gwybodaeth pobl a chyda'r Weinyddiaeth Gyfiawnder ar yr effeithiau ar y system gyfiawnder.

¹⁰⁰ Y Pwyllgor Diben Arbennig ar Ddiwygio'r Senedd, [Diwygio ein Senedd: Llais cryfach i bobl Cymru](#), Mai 2022.

¹⁰¹ Mae Confensiwn Gould yn deillio o adroddiad [Scottish Elections 2007: The independent review of the Scottish Parliamentary and local government elections 3 May 2007](#).

126. Bydd Llywodraeth Cymru hefyd yn cynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar y Gorchymyn a wneir o dan adran 13 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ac a fydd yn disodli'r Gorchymyn presennol o dan y pŵer hwnnw, sef: Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2007 (y Gorchymyn Ymddygiad fel y'i gelwir). Bydd y Gorchymyn newydd hwn hefyd yn darparu'r sail statudol ar gyfer etholiad 2026. Bydd y Gorchymyn hwn yn gweithredu llawer o'r agweddau manwl sy'n angenrheidiol i orfodi'r cynigion, a grynhoir yn y Datganiad o'r Bwriad Polisi sy'n cyd-fynd â'r Bil.
127. Er nad oedd Llywodraeth Cymru yn gallu cynnal ei hymgyngoriad cyhoeddus ei hun, wrth ddatblygu'r ddeddfwriaeth mae wedi ystyried y cyfoeth o wybodaeth sydd ar gael am farn y cyhoedd am Ddiwygio'r Senedd, a fynegwyd mewn cyfres o ymgynghoriadau a gynhaliwyd dros y blynyddoedd diwethaf. Mae hefyd wedi ystyried canfyddiadau tystiolaeth a ddarparwyd gan arbenigwyr ac ymarferwyr. Mae crynodeb o'r ymgynghoriadau hyn i'w weld isod.

Senedd sy'n gweithio i Gymru: Adroddiad y Panel Arbenigol ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad, 2017

128. Penodwyd y Panel Arbenigol ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad gan y Llywydd a Chomisiwn y Cynulliad ym mis Chwefror 2017 i wneud argymhellion ar sawl mater yn ymwneud ag etholiadau'r Senedd.
129. Ategodd y Panel Arbenigol ei arbenigedd ei hun drwy wahodd arbenigwyr i gyflwyno tystiolaeth benodol, a thrwy roi gwahoddiad cyffredinol i unigolion, grwpiau a chyrrff â buddiant, a'r cyhoedd, i rannu eu barn. Cafodd y panel 33 o gyflwyniadau ysgrifenedig gan unigolion a chyrrff.
130. Daeth y Panel Arbenigol i'r casgliad y byddai ethol Senedd fwy amrywiol yn gwella sut mae'n gweithredu a sut mae'n cynrychioli pobl Cymru, a bod menywod yn cael eu tangynrychioli yn y Senedd. Argymhellodd y dylid integreiddio cwota rhywedd i'r system etholiadol a'i sefydlu ar gyfer etholiad 2021.¹⁰²

Creu Senedd i Gymru: Ymgynghoriad a gynhaliwyd gan Gomisiwn y Senedd, 2018

131. Yn 2018, cynhaliodd Comisiwn y Senedd ymgynghoriad cyhoeddus ar ganfyddiadau'r Panel Arbenigol ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad. Roedd yr ymgynghoriad, *Creu Senedd i Gymru*,¹⁰³ yn cynnwys cwestiynau ynglŷn â maint y Senedd a mesurau yn ymwneud â'i hamrywiaeth. O'r 1,340 o ymatebion i gwestiwn am amrywiaeth,

¹⁰² Y Panel Arbenigol, [Senedd sy'n gweithio i Gymru: Adroddiad y Panel Arbenigol ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad](#), Tachwedd 2017.

¹⁰³ Comisiwn y Senedd, [Creu Senedd i Gymru: Adroddiad ar yr ymgynghoriad](#), Hydref 2018.

dywedodd 61% (820) eu bod yn cytuno ag argymhelliad y Panel Arbenigol ac yn credu y dylid manteisio ar newid i'r system etholiadol er mwyn annog pobl i ethol Cynlluniad sy'n adlewyrchu'n well natur amrywiol y gymdeithas yng Nghymru. Roedd 30% o'r ymatebwyr yn anghytuno, tra dywedodd 9% nad oeddent yn gwybod.¹⁰⁴

132. O'r 820 o ymatebion gan y rhai a oedd am weld y system etholiadol wedi'i chynllunio i annog Senedd fwy amrywiol, dywedodd 47% mai drwy gyfwrng mesurau gwirfoddol y dylid gwneud hynny, tra honnodd 26% y dylid gwneud hynny drwy ddefnyddio dulliau mwy ffurfiol, fel cwotâu rhywedd. Nododd nifer amhenodol o ymatebwyr y dylid cyflwyno mesurau gwirfoddol yn y lle cyntaf, gan symud wedyn tuag at gwtâu rhywedd ffurfiol.¹⁰⁵

Diwygio'r Senedd: y camau nesaf – Y Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Senedd, 2020

133. Sefydlwyd y Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Senedd ar 18 Medi 2019 i ystyried argymhellion y Panel Arbenigol ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad. Roedd adroddiad y Pwyllgor,¹⁰⁶ a gyhoeddwyd yn 2020, yn seiliedig ar chwe sesiwn tystiolaeth lafar a gynhaliwyd ag 20 o unigolion a chyrrff, a dau ddigwyddiad i randdeiliaid – gydag un yn canolbwyntio ar gapasiti'r Senedd a'r llall yn canolbwyntio ar amrywiaeth y Senedd. Hefyd, cyflwynodd 12 o unigolion a chyrrff dystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor.

134. Dywedodd y Pwyllgor ei fod wedi clywed:

"[...] amryw safbwyntiau ar gwtâu amrywiaeth, p'un ai o ran rhywedd neu o ran nodweddion gwarchodedig eraill. Dadleuodd rhai rhanddeiliaid y dylid integreiddio cwotâu o'r fath yn y fframwaith deddfwriaethol sy'n sail i drefniadau etholiadol y Senedd; awgrymodd eraill mai mater i bleidiau gwleidyddol yw mabwysiadu cwotâu yn wirfoddol, ac roedd rhai yn dadlau na ddylid defnyddio cwotâu o gwbl".¹⁰⁷

135. Ymhlith y rhai a oedd yn darparu tystiolaeth oedd Dr Nicole Martin o Brifysgol Manceinion, a awgrymodd y gallai grwpiau neu gymunedau eraill a dangynrychiolir elwa ar weithredu cwotâu rhywedd:

¹⁰⁴ Comisiwn y Senedd, [Creu Senedd i Gymru: Adroddiad ar yr ymgynghoriad](#), Hydref 2018, t. 16.

¹⁰⁵ Comisiwn y Senedd, [Creu Senedd i Gymru: Adroddiad ar yr ymgynghoriad](#), Hydref 2018, t. 16.

¹⁰⁶ Y Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Senedd, [Diwygio'r Senedd: y camau nesaf](#), Medi 2020.

¹⁰⁷ Y Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Senedd, [Diwygio'r Senedd: y camau nesaf](#), Medi 2020, t. 126.

"A gender quota will help ethnic minority women just as much as it might help white women, especially if there are targeted schemes towards potential ethnic minority candidates as well that will address that element of disadvantage and protected characteristics."¹⁰⁸

136. Dywedodd y pwyllgor fod:

"[...] llawer o'r rhai sydd wedi cyfrannu at ein gwaith wedi dadlau o blaid argymhelliad y Panel Arbenigol y dylid integreiddio cwtâu rhywedd yn nhrefniadau etholiadol y Senedd."¹⁰⁹

137. Ymhlith y rhain, dywedodd yr Athro Sarah Childs:

"[...] fod tystiolaeth ryngwladol yn awgrymu y gallai cwtâu deddfwriaethol fod yn effeithiol wrth symud tuag at gynrychiolaeth sy'n gytbwys rhwng y rhywiau, ond cydnabu na fyddent o reidrwydd yn cael gwared ar yr holl rwystrau a oedd yn atal Senedd fwy amrywiol rhag cael ei hethol".¹¹⁰

138. Yn ôl adroddiad y Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Senedd, dywedodd Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod Cymru:

"[...] fod tystiolaeth ryngwladol yn dangos y gallai cwtâu rhywedd deddfwriaethol fod yn fesur dros dro i 'garlamu' cynrychiolaeth menywod, trwy wrthweithio effeithiau rhagfarn ddjarwybod a rhywiaeth strwythurol mewn pleidiau a sefydliadau gwleidyddol. Roedd o'r farn na fyddai gweithredu gwirfoddol yn unig yn sicrhau'r newid cyflym angenrheidiol."¹¹¹

139. Daeth adroddiad y Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Senedd i'r casgliad bod y Pwyllgor wedi'i berswadio gan "[...] dystiolaeth glir a chymhellol y gall cwtâu rhywedd [...] wella amrywiaeth yr ymgeiswyr".¹¹²

Y Pwyllgor Diben Arbennig ar Ddiwygio'r Senedd

140. Roedd y Pwyllgor Diben Arbennig ar Ddiwygio'r Senedd yn bwyllgor trawsbleidiol o ASau a sefydlwyd ar 6 Hydref 2021. Ei gylch gwaith oedd ystyried y casgliadau a wnaed yn flaenorol gan y Panel Arbenigol ar Ddiwygio Etholiadol a'r Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Senedd, a

¹⁰⁸ Y Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Senedd, [Diwygio'r Senedd: y camau nesaf](#), Medi 2020, t. 87.

¹⁰⁹ Y Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Senedd, [Diwygio'r Senedd: y camau nesaf](#), Medi 2020, t. 126.

¹¹⁰ Y Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Senedd, [Diwygio'r Senedd: y camau nesaf](#), Medi 2020, tt. 126-7.

¹¹¹ Y Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Senedd, [Diwygio'r Senedd: y camau nesaf](#), Medi 2020, t. 126.

¹¹² Y Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Senedd, [Diwygio'r Senedd: y camau nesaf](#), Medi 2020, t. 133.

gwneud argymhellion ynghylch cyfarwyddiadau polisi ar gyfer Bil gan Lywodraeth Cymru ar ddiwygio'r Senedd.

141. Ymhlith materion eraill, ystyriodd y Pwyllgor Diben Arbennig ystod o fesurau i wella amrywiaeth y Senedd. Daeth y Pwyllgor Diben Arbennig i'r '[...] casgliad unfrydol y dylid datblygu cwtâu rhywedd integredig deddfwriaethol a rhestru am-yn-ail gorfodol fel rhan o'r system rhestr newydd'.¹¹³ Ymhellach, argymhellodd y Pwyllgor Diben Arbennig y dylai'r trefniadau newydd '[...] gynnwys gwrthod rhestrau ymgeiswyr gan Swyddogion Canlyniadau fel sanctiwn am beidio â chydymffurfio â chwotâu deddfwriaethol'.¹¹⁴
142. Datblygwyd y Bil hwn i weithredu argymhellion y Pwyllgor ar gyflwyno cwtâu rhywedd ar gyfer etholiadau'r Senedd.

¹¹³ Y Pwyllgor Diben Arbennig ar Ddiwygio'r Senedd, [Diwygio ein Senedd: Llais cryfach i bobl Cymru](#), Mai 2022, t. 43.

¹¹⁴ Y Pwyllgor Diben Arbennig ar Ddiwygio'r Senedd, [Diwygio ein Senedd: Llais cryfach i bobl Cymru](#), Mai 2022, t. 43.

5. Y pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth

Mae'r Bil yn cynnwys darpariaethau i wneud is-ddeddfwriaeth a dyroddi penderfyniadau. Mae Tabl 5.1 (is-ddeddfwriaeth) yn nodi'r canlynol mewn perthynas â'r rhain:

- (i).y person neu'r corff y rhoddir y pŵer iddo;
- (ii).ar ba ffurf y mae'r pŵer i gael ei arfer;
- (iii).priodoldeb y pŵer dirprwyedig;
- (iv).y weithdrefn berthnasol; hynny yw, p'un a yw'n "gadarnhaol", yn "negyddol", neu "dim gweithdrefn", ynghyd â'r rhesymau pam yr ystyrir ei bod yn briodol.

Bydd Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ar gynnwys yr is-ddeddfwriaeth pan ystyrir ei bod yn briodol gwneud hynny. Penderfynir ar union natur yr ymgynghoriad pan fydd y cynigion wedi'u ffurfioli.

Tabl 5.1: Crynodeb o'r pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth yn narpariaethau Bil Senedd Cymru (Rhestrau Ymgeiswyr Etholiadol)

Adran	I bwy y rhoddir y pŵer	Ffurf	Priodoldeb y pŵer dirprwyedig	Gweithdrefn	Rheswm dros y weithdrefn
1 <i>(adran newydd arfaethedig 7C(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006)</i>	Gweinidogion Cymru	Gorchymyn	Nid pŵer newydd yw hwn, ond mae'n ymwneud â'r pŵer presennol yn adran 13 o Ddeddf Llywodraeth Cymru ("to make provision about elections etc") i ddarparu bod rhaid gwneud darpariaeth mewn Gorchymyn o dan yr adran honno ar gyfer penodi Swyddog Cydymffurfiaeth Enwebiadau Cenedlaethol. Ystyrir bod y lefel hon o fanylion gweinyddol yn briodol ar gyfer is-ddeddfwriaeth.	Cadarnhaol	Dyma'r weithdrefn bresennol ar gyfer y pŵer yn adran 13 o Ddeddf Llywodraeth Cymru.
1 <i>(adran newydd arfaethedig 7C(2)-(4) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006)</i>	Gweinidogion Cymru	Gorchymyn	Nid pŵer newydd yw hwn, ond mae'n ymwneud â'r pŵer presennol yn adran 13 o Ddeddf Llywodraeth Cymru i ganiatáu i ddarpariaeth gael ei gwneud mewn Gorchymyn o dan yr adran honno ynghylch swyddogaethau'r Swyddog Cydymffurfiaeth Enwebiadau Cenedlaethol a Swyddog Canlyniadau Etholaethol mewn perthynas â sicrhau cydymffurfiaeth ag adran 7B yn ogystal â phŵer i wneud darpariaeth ynghylch pa gamau y mae rhaid neu y caniateir eu cymryd pe na bai rhestrau yn cydymffurfio ag adran 7B. Mae is-adran 7C(4) yn	Cadarnhaol	Dyma'r weithdrefn bresennol ar gyfer y pŵer yn adran 13 o Ddeddf Llywodraeth Cymru.

Adran	I bwy y rhoddir y pŵer	Ffurf	Priodoldeb y pŵer dirprwyedig	Gweithdrefn	Rheswm dros y weithdrefn
			cynnwys manylion ychwanegol ynghylch y math o ddarpariaeth y caniateir ei gwneud o dan is-adrannau 7C(2) a (3) ac yn benodol mae'n caniatáu darpariaeth sy'n ei gwneud yn ofynnol i Swyddog Canlyniadau Etholaethol, neu'n galluogi iddo, ddyfarnu nad yw ymgeisydd yn dal wedi'i enwebu mwyach. Ystyrir bod y lefel hon o fanylion technegol ynghylch swyddogaethau cydymffurfio yn briodol ar gyfer is-ddeddfwriaeth sy'n ymdrin â rheolau etholiadol.		
1 <i>(adran newydd arfaethedig 7D o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006)</i>	Gweinidogion Cymru	Gorchymyn	Nid pŵer newydd yw hwn, ond mae'n ymwneud â'r pŵer presennol yn adran 13 o Ddeddf Llywodraeth Cymru i ganiatáu neu ei gwneud yn ofynnol i ddarpariaeth gael ei gwneud mewn Gorchymyn o dan yr adran honno ynghylch nifer o faterion technegol mewn perthynas â'r gofynion cwotâu. Yn benodol, caniateir gwneud darpariaeth ynghylch effaith tynnu ymgeisydd oddi ar restr ar gydymffurfiaeth ag adrannau 7A a 7B. Rhaid gwneud darpariaeth ar gyfer ymgeiswyr ar restrau pleidiau i nodi a ydynt yn fenyw ai peidio fel rhan o'r broses enwebu a chaniateir gwneud darpariaeth ynghylch archwilio'r	Cadarnhaol	Dyma'r weithdrefn bresennol ar gyfer y pŵer yn adran 13 o Ddeddf Llywodraeth Cymru.

Adran	I bwy y rhoddir y pŵer	Ffurf	Priodoldeb y pŵer dirprwyedig	Gweithdrefn	Rheswm dros y weithdrefn
			<p>wybodaeth honno.</p> <p>Gan fod manylion y broses yr enwebir person yn ddilys fel ymgeisydd drwyddi eisoes mewn is-ddeddfwriaeth, ystyrir bod y manylion gweinyddol ychwanegol hyn hefyd yn briodol ar gyfer deddfwriaeth o'r fath.</p>		
3(1)	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Er mwyn sicrhau y gellir gwneud unrhyw ddiwygiadau i ddeddfwriaeth sy'n briodol at ddibenion unrhyw ddarpariaeth yn y Bil, o ganlyniad i unrhyw ddarpariaeth ynddo, neu er mwyn rhoi effaith lawn i unrhyw ddarpariaeth ynddo, heb fod angen deddfwriaeth sylfaenol bellach.	Negyddol, ond cadarnhaol os addasir deddfwriaeth sylfaenol	Mae'n briodol bod lefel ychwanegol o graffu os yw deddfwriaeth sylfaenol yn cael ei diwygio, ei diddymu neu ei haddasu.
4(2)-(3)	Gweinidogion Cymru	Gorchymyn	Dim ond mewn perthynas ag adrannau 1 a 2 o'r Bil y mae hwn yn bŵer cychwyn ac mae'n cynnwys y pŵer i wneud darpariaethau darfodol, trosiannol ac arbed, ac felly ystyrir ei fod yn briodol ar gyfer is-ddeddfwriaeth.	Dim gweithdrefn	Mae hwn yn orchymyn cychwyn ac felly ystyrir ei bod yn briodol nad yw'n ddarostyngedig i unrhyw weithdrefn.

RHAN 2 – ASESIAID EFFAITH RHEOLEIDDIOL

6. Crynodeb o'r Aseiad Effaith Rheoleiddiol

143. Mae Aseiad Effaith Rheoleiddiol wedi'i gwblhau ar gyfer y Bil ac mae'n dilyn isod.
144. Nid oes darpariaethau penodol yn y Bil sy'n codi gwariant ar Gronfa Gyfunol Cymru.
145. Mae'r tabl a ganlyn yn cyflwyno crynodeb o'r costau a'r manteision ar gyfer y Bil yn gyfan. Cynlluniwyd y tabl i gyflwyno'r wybodaeth sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 26.6 (viii) a (ix).

Bil Senedd Cymru (Rhestrau Ymgeiswyr Etholiadol)		
Yr opsiwn a ffeirir: Mae'r Bil hwn yn gweithredu argymhellion y Pwyllgor Diben Arbennig ar Ddiwygio'r Senedd a gyflwynodd adroddiad ym mis Mai 2022		
Cyfnod: Cyflwyno	Cyfnod gwerthuso: 2024-25 - 2031-32	Blwyddyn sail brisiau: 2022-23
Cyfanswm Cost Cyfanswm: £21,000 Gwerth presennol: £19,300	Cyfanswm Manteision Cyfanswm: £- Gwerth presennol: £-	Gwerth Presennol Net: £-19,300

Cost gweinyddu

Costau:			
<p>Dros y cyfnod gwerthuso wyth mlynedd, disgwylir y bydd costau gweinyddol yn disgyn ar Lywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol. Bydd yr angen i ddiweddarau Systemau Rheoli Etholiadol yn arwain at gostau pontio o £18,000 i awdurdodau lleol. Bydd Llywodraeth Cymru yn wynebu'r gost reolaidd o £1,500 ym mhob etholiad mewn perthynas â dynodi'r Swyddog Cydymffurfiaeth Enwebiadau Cenedlaethol.</p>			
Pontio: £18,000	Rheolaidd: £3,000	Cyfanswm: £21,000	Gwerth presennol: £19,300

Arbedion costau: Ni nodwyd unrhyw arbedion costau.

Pontio: £-

Rheolaidd: £-

Cyfanswm: £-

Gwerth presennol:
£-

Cost gweinyddu net: £21,000

Costau cydymffurfio

Ni nodwyd unrhyw gostau cydymffurfio.

Pontio: £-

Rheolaidd: £-

Cyfanswm: £-

Gwerth
presennol: £-

Costau eraill

Ni nodwyd unrhyw gostau eraill.

Pontio: £-

Rheolaidd: £-

Cyfanswm: £-

Gwerth
presennol: £-

Costau ac anfanteision heb eu meintoli

Ni nodwyd unrhyw gostau nac anfanteision heb eu meintoli.

Manteision

Er y rhagwelir y bydd y newidiadau'n arwain at nifer o fanteision, ni fu'n bosibl pennu gwerth ariannol y manteision hyn ar hyn o bryd. Bydd y Senedd mewn gwell sefyllfa i wneud y canlynol:

- cynrychioli'r etholwyr ac ymgysylltu â nhw
- dal y Weithrediaeth i gyfrif
- defnyddio ystod fwy amrywiol o brofiadau bywyd wrth graffu ar bolisi a deddfwriaeth.

Cyfanswm: £-

Gwerth presennol: £-

Tystiolaeth, rhagdybiaethau ac ansicrwydd allweddol

Cafwyd ymgysylltu cadarnhaol ac adeiladol â rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys â grŵp o ymarferwyr arbenigol o weinyddwyr etholiadol a swyddogion cyllid llywodraeth leol (a gynnulliwyd ar y cyd â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru) yn ogystal â'r Comisiwn Etholiadol. Mae rhagor o fanylion am yr ymgysylltu â rhanddeiliaid sydd wedi cael ei wneud fel rhan o'r gwaith i ddeddfu ar ddiwygio'r Senedd ar gael ym Memorandwm Esboniadol Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau).

7. Opsiynau

Opsiynau a ystyriwyd

146. Cafodd argymhellion y Pwyllgor Diben Arbennig ar Ddiwygio'r Senedd eu cymeradwyo gan y Senedd, ac mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gyflwyno deddfwriaeth i roi'r argymhellion ar waith. Felly, mae'r asesiad costau wedi'i wneud ar sail y cynigion hynny yn hytrach nag ar sail cost nifer o opsiynau lefel uchel. Felly, y ddau opsiwn a gyflwynir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn yw:

- Opsiwn 1: Busnes fel arfer
- Opsiwn 2: Gweithredu Bil Senedd Cymru (Rhestrau Ymgeiswyr Etholiadol)

8. Costau a manteision

147. Mae'r cyfnod gwerthuso ar gyfer yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn yn cwmpasu 2024-25 i 2031-32. Mae'r cyfnod hwn yn cwmpasu dau gylch etholiadol y Senedd ac felly mae'n cael ei ystyried yn ddigonol er mwyn i'r amcangyfrif o'r costau gyrraedd cyflwr sefydlog. Disgwylir y bydd cyflwr sefydlog yn cael ei gyrraedd yn dilyn etholiad nesaf y Senedd, a gynhelir yn ystod blwyddyn ariannol 2026-27.

148. Oni nodir yn wahanol, mae'r holl gostau wedi cael eu talgrynnu i'r £100 agosaf. Efallai na fydd rhai o'r cyfansymiau mewn tablau yn cyfateb oherwydd y talgrynnu hwn. Mae'r costau wedi cael eu disgowntio gan ddefnyddio cyfradd ddisgownt ganolog Trysorlys EF, sef 3.5%.

Opsiwn 1: Busnes fel arfer

149. Dyma'r opsiwn sy'n nodi'r sefyllfa fel y mae hi ar hyn o bryd, ac felly nid oes costau a manteision ychwanegol yn gysylltiedig â'r opsiwn hwn. Mae costau a manteision ychwanegol y ddeddfwriaeth arfaethedig wedi cael eu hasesu yn erbyn y waelodlin hon.

150. Ni fu'n bosibl mesur yn ariannol y costau cyfle posibl a allai godi o ganlyniad i gollir cyfle i gryfhau amrywiaeth y Senedd o ran rhywedd. Mae disgwyl i gynyddu amrywiaeth rhywedd y Senedd arwain at gynrychiolaeth fwy effeithiol. Gellid rhagweld yn rhesymol y bydd hyn, yn ei dro, yn sicrhau'r gwerth am arian gorau posibl drwy wariant cyhoeddus, a thrwy hynny arwain at arbedion ariannol.

151. Mae Opsiwn 1 yn golygu'r costau rheolaidd presennol wrth gynnal etholiadau, gan gynnwys y costau disgwyliedig sy'n ymwneud â rhoi Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) ar waith, fel y nodir ym Memorandwm Esboniadol y Bil hwnnw.

Opsiwn 2: Gweithredu Bil Senedd Cymru (Rhestrau Ymgeiswyr Etholiadol)

152. Bydd y Bil yn darparu ar gyfer:

- meini prawf gosod fertigol a llorweddol ar gyfer ymgeiswyr ar restrau pleidiau
- yr ymgeiswyr hynny i nodi eu rhywedd fel rhan o'r broses enwebu
- dynodi Swyddog Cydymffurfiaeth Enwebiadau Cenedlaethol
- y weithdrefn gydymffurfio llorweddol

153. Mae amcangyfrifon costau manwl i gyd-fynd â'r Bil wedi cael eu datblygu, gan gynnwys mewn perthynas â'i oblygiadau i Lywodraeth Cymru, awdurdodau lleol a'r Comisiwn Etholiadol. Bydd gwerth am arian

yn parhau i gael ei ystyried yn llawn wrth i Lywodraeth Cymru wneud cynnydd o ran diwygio a dechrau ei roi ar waith.

154. Mae rhai costau eisoes wedi cael eu hysgwyddo a rhai y disgwylir iddynt gael eu hysgwyddo yn 2023–24 ac yn 2024–25, cyn i'r Bil gael y Cydsyniad Brenhinol. O'r herwydd, ystyrir bod y rhain yn 'gostau suddedig' gan y byddent wedi cael eu talu, ac ni fyddai modd eu hadennill, pe na bai'r ddeddfwriaeth yn cael y Cydsyniad Brenhinol. Cyfeirir at y rhain at ddibenion tryloywder ond nid ydynt wedi'u cynnwys yng nghostau'r Bil. Y costau mesuradwy a fydd yn disgyn ar Lywodraeth Cymru yn 2023–24 mewn perthynas â'r rhaglen waith ehangach ar ddiwygio'r Senedd, fel y nodir ym Memorandwm Esboniadol Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau), yw £2.2m. Mae hyn yn ymwneud â pharatoi a chyflawni deddfwriaeth ar draws rhaglen ddiwygio'r Senedd. Ymgymerir â Bil Senedd Cymru (Rhestrau Ymgeiswyr Etholiadol) fel rhan o'r rhaglen ehangach hon.
155. Disgwylir y bydd costau pontio o £18,000 yn y flwyddyn 2025–26, sef y flwyddyn cyn etholiad nesaf Senedd Cymru, a bydd y rhain yn disgyn ar Lywodraeth Cymru. Bydd costau gweinyddol ychwanegol yn etholiad cyntaf y Senedd lle gallai'r darpariaethau fod yn gymwys, sef ym mlwyddyn ariannol 2026-27. Ni ddisgwylir unrhyw gostau gweinyddol ychwanegol pellach yn etholiadau dilynol y Senedd. Felly, rhagwelir 'cyflwr sefydlog' ar gyfer costau o 2027-28 ymlaen.
156. I'r graddau y gellir pennu ffi i'r Swyddog Cydymffurfiaeth Enwebiadau Cenedlaethol adennill costau am wasanaethau a ddarparwyd mewn etholiad Senedd Cymru, penderfyniad i'r Gweinidogion fydd ar ba lefel y gosodir y ffi hon ar ôl i'r Bil droi'n ddeddf. Amcangyfrifon yw'r costau a gyflwynir yn yr Aseiad Effaith Rheoleiddiol.
157. Mae'r Aseiad Effaith Rheoleiddiol yn ceisio darparu'r amcangyfrif gorau o'r costau tebygol o ganlyniad i'r Bil ac nid oes unrhyw ffactorau hysbys a allai effeithio ar yr amcangyfrifon (naill ai o ran costau nac arbedion) pan fydd penderfyniadau dilynol wedi cael eu gwneud.

Costau ac arbedion i awdurdodau lleol

158. Ni nodwyd arbedion cost ar gyfer awdurdodau lleol, mewn perthynas â pheidio â gweithredu (Opsion 1: busnes fel arfer).
159. Mae swyddogion awdurdodau lleol yn chwarae rhan allweddol yn y gwaith o weinyddu etholiadau Senedd Cymru. Mae Llywodraeth Cymru yn ariannu awdurdodau lleol i weinyddu etholiadau'r Senedd. Er mwyn bod yn dryloyw, dyma'r costau a'r arbedion a fyddai'n cael eu gweld wrth i awdurdodau lleol weinyddu etholiadau, sy'n gyfrifoldeb i Lywodraeth Cymru yn y pen draw.

160. Gofynnwyd i Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) helpu swyddogion Llywodraeth Cymru i nodi effeithiau ariannol net y newidiadau a wneir i weinyddu etholiadau. Yn benodol, gofynnwyd i CLILC ddarparu amcangyfrif o'r costau neu'r arbedion ychwanegol mewn perthynas â'r sefyllfa bresennol, a fyddai'n deillio'n uniongyrchol o ddarpariaethau'r Bil.
161. Fel rhan o'r ymarfer hwn, ffurfiwyd gweithgor arbenigol o gynrychiolwyr awdurdodau lleol, gan gynnwys swyddogion canlyniadau rhanbarthol blaenorol a phresennol a rheolwyr gwasanaethau etholiadol. Nododd gweithgor CLILC y meysydd gweithgarwch a gwariant y byddai effaith arnynt.
162. Ystyriodd y gweithgor a fyddai unrhyw gostau ychwanegol yn codi o ganlyniad i'r newidiadau a wneir i rôl Swyddogion Canlyniadau Etholaethol. Nid oedd y gweithgor yn rhagweld y byddai newid yn y costau sy'n ymwneud â rôl Swyddogion Canlyniadau Etholaethol yn benodol oherwydd darpariaethau'r Bil. Gellid cynnwys unrhyw ofynion hyfforddi yn y sesiynau hyfforddi a fyddai'n cael eu cynnal i baratoi ar gyfer etholiad sydd ar y gweill beth bynnag. Sylwch fod Memorandwm Esboniadol Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) yn nodi y rhagwelir y bydd costau hyfforddi Swyddogion Canlyniadau Etholaethol yn cynyddu £1,300 i adlewyrchu'r angen i ymgyfarwyddo â'r system ddiwygiedig a gyflwynir gan y Bil hwnnw.
163. Bydd angen newidiadau i'r Systemau Rheoli Etholiadol i gefnogi'r gweithgarwch cydymffurfio newydd y bydd ei angen oherwydd cyflwyno cwotâu rhywedd ymgeiswyr. Rhagwelir y bydd y rhan fwyaf o'r newidiadau hyn yn gymharol fach ac y gellir eu cyflawni fel rhan o'r gwasanaeth dan contract a ddarperir gan y tri chyflenwr. Ar sail profiad blaenorol o newidiadau i Systemau Rheoli Etholiadol, amcangyfrifwyd y bydd y gwaith gofynnol yn costio tua £18,000 ar draws y tri chyflenwr. Bydd yr amcangyfrif hwn yn amodol ar negodi a chytundeb contract gyda chyflenwyr ac yn dibynnu ar raddfa y newidiadau sydd eu hangen i'r system rheoli etholiadol. Awdurdodau lleol sy'n dal y contractau gyda chyflenwyr ac felly nhw sy'n gyfrifol am y costau a nodir.
164. Oherwydd bod angen gwneud gwaith cyn yr etholiad, mae'n debygol y byddai costau sy'n ymwneud â newidiadau i Systemau Rheoli Etholiadol yn digwydd yn 2025-26.
165. Ni nodwyd unrhyw gostau nac arbedion pellach sy'n ymwneud â gweinyddu etholiadau sy'n deillio'n benodol o ddarpariaethau'r Bil ac sy'n disgyn ar awdurdodau lleol.

Tabl 8.1: Crynodeb o gostau awdurdodau lleol

Costau pontio (sy'n digwydd yn 2025-26)	
System Rheoli Etholiadol	£18,000

Costau ac arbedion i Lywodraeth Cymru

166. Ni nodwyd arbedion cost ar gyfer Llywodraeth Cymru, mewn perthynas â pheidio â gweithredu (Opsiw'n 1: busnes fel arfer).
167. Ystyriodd gweithgor arbenigol CLILC a yw costau'n debygol yn sgil penodi Swyddog Cydymffurfiaeth Enwebiadau Cenedlaethol. Bydd deiliad y swydd newydd hon yn cefnogi gweithgarwch cydymffurfio yng nghyd-destun y meini prawf gosod llorweddol. Roedd y gweithgor rhanddeiliaid yn rhagweld y byddai'r cyfrifoldebau sy'n ymwneud â'r rôl hon a'r amser sydd ei angen i gyflawni gofynion y rôl yn llawer mwy cyfyngedig nag yn achos Swyddog Canlyniadau Etholaethol. Byddai angen gwneud penderfyniadau polisi mewn perthynas â'r terfynau priodol ar gyfer ffioedd Swyddog Cydymffurfiaeth Enwebiadau Cenedlaethol ar gyfer yr etholiadau nesaf ac yn y dyfodol. At ddibenion yr asesiad hwn ac er mwyn cael yr amcangyfrif gorau, gan ddefnyddio ffioedd diweddaraf y Swyddogion Canlyniadau Etholaethol a'r Swyddogion Canlyniadau Rhanbarthol fel cymhariaeth, i'r graddau y gellir pennu ffi ar gyfer y Swyddog Cydymffurfiaeth Enwebiadau Cenedlaethol i adennill costau am wasanaethau a ddarparwyd mewn etholiad Senedd Cymru, amcangyfrifir hyn yn £1,500 fesul etholiad ond gallai amrywio rhywfaint. Llywodraeth Cymru fyddai'n gyfrifol am y costau hyn.
168. Disgwylir y bydd y costau a ddaw i Lywodraeth Cymru mewn perthynas â dynodi Swyddog Cydymffurfiaeth Enwebiadau Cenedlaethol yn digwydd yn ystod blwyddyn etholiad, a fydd, yng nghyd-destun cyfnod gwerthuso'r Bil hwn, yn 2026-27 ac yn 2030-31.

Tabl 8.2: Crynodeb o gostau Llywodraeth Cymru

Blwyddyn	2026–27	2030–31
Costau referniw LIC	£1,500	£1,500
Cyfanswm	£1,500	£1,500

Costau i'r Comisiwn Etholiadol

169. Byddai'r newidiadau yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn Etholiadol ddiweddarau ei ganllawiau ar gyfer ymgeiswyr, pleidiau a gweinyddwyr etholiadol, yn ogystal â'i adnoddau a'i wybodaeth ar gyfer pleidleiswyr. Mae'r Comisiwn Etholiadol wedi amcangyfrif mai £6,000 yw cost datblygu a chyhoeddi canllawiau. Mae hon yn gost barhaus a fydd yn codi p'un a yw'r darpariaethau yn y Bil hwn yn cael eu rhoi ar waith ai peidio, gan fod y Comisiwn Etholiadol o'r farn bod darparu'r canllawiau hyn yn rhan o'i gyfrifoldebau a'i swyddogaethau presennol. Felly, ni fyddai unrhyw gostau ychwanegol yn deillio'n uniongyrchol o'r Bil. Ni chafodd arbedion cost eu nodi gan y Comisiwn Etholiadol.

Costau i Bleidiau Gwleidyddol

170. Gall newidiadau i system etholiadol y Senedd, gan gynnwys cyflwyno cwotâu ymgeiswyr, arwain at gostau ychwanegol yn ogystal ag arbedion i bleidiau gwleidyddol sy'n ymwneud â'r broses etholiadol yng Nghymru. Er enghraifft, efallai y bydd angen i bleidiau gwleidyddol addasu sut maent yn cael eu trefnu, fel eu prosesau dethol ymgeiswyr, er mwyn cymryd rhan yn y system etholiadol newydd. Fodd bynnag, ni fyddai modd mesur y costau a'r arbedion hyn gan y byddai maint y newidiadau sy'n ofynnol yn amrywio'n helaeth rhwng pob plaid gwleidyddol. Mae'r pleidiau unigol yn amrywio o ran maint, yn cael eu trefnu'n wahanol, ac mae ganddynt eu prosesau dethol eu hunain.
171. Bydd rhai pleidiau wedi gweithredu cwotâu gwirfoddol yn y gorffennol, fel gefeillio neu am-yn-eilio, ac felly mae'n bosibl y byddant yn fwy parod ar gyfer eu gweithredu o'i gymharu â phleidiau eraill y mae cwotâu yn hollol newydd iddynt. Bydd rhai pleidiau eisoes yn mynd ati i ddenu a recriwtio ymgeiswyr benywaidd i sefyll mewn etholiad, tra bydd eraill wedi bod yn llai gweithgar yn hyn o beth.
172. Felly, gallai'r man cychwyn ar gyfer pob plaid, a maint y newidiadau sydd eu hangen i addasu eu proses etholiadol eu hunain a allai arwain at gostau neu arbedion, fod yn wahanol iawn. Yn ogystal â hyn, mae disgrisiwn o ran i ba raddau y mae pleidiau gwleidyddol yn dewis cymryd rhan mewn etholiadau mewn perthynas â nifer yr etholaethau a nifer yr ymgeiswyr a gyflwynir ganddynt, a fyddai'n cael effaith sylweddol ar unrhyw gostau ac arbedion posibl. Gan nad yw'r penderfyniadau hyn yn ganlyniad uniongyrchol i'r Bil ac nad ydynt wedi'u cymryd eto gan bleidiau gwleidyddol, nid yw'n bosibl eu mesur ac nid yw costau nac arbedion yn hysbys ar hyn o bryd. Er y bu rhywfaint o gydweithio â Phanel Pleidiau Gwleidyddol y Senedd, a sefydlwyd gan y Comisiwn Etholiadol, ar gynigion polisi lefel uchel, ni fu unrhyw gydweithio uniongyrchol â phleidiau gwleidyddol ar gostau cyn cyflwyno'r deddfwriaeth am y rhesymau a nodir uchod.

Manteision

173. Ni ragwelir y bydd newidiadau sy'n deillio o'r Bil yn arwain at arbedion cost cyffredinol.
174. Rhagwelir y bydd y newidiadau'n arwain at fanteision heb werth ariannol, ac mae rhai enghreifftiau wedi'u nodi isod.
175. Bydd mwy o gydbwysedd o ran rhywedd o bosibl yn arwain at Senedd sy'n cynnwys amrywiaeth ehangach o safbwyntiau ac amrywiaeth ehangach o arbenigedd. Bydd Senedd sy'n gallu cynrychioli pobl Cymru yn well mewn sefyllfa well i ddal y weithrediaeth i gyfrif drwy ei gweithgarwch yn craffu ar bolisïau a deddfwriaeth, gan gynnwys

cyllidebau a biliau'r llywodraeth. Gellir disgwyl i hyn arwain at well deddfwriaeth a chynlluniau gwario a fyddai, yn eu tro, yn arwain at ganlyniadau gwell i bobl Cymru. Mae'r Senedd yn gwneud penderfyniadau sy'n effeithio ar fywydau pob unigolyn yng Nghymru a bydd y camau hyn i graffu'n well ar benderfyniadau o'r fath yn arwain at well penderfyniadau a chanlyniadau i'r etholwyr.

176. Cyflwynodd Archwilydd Cyffredinol Cymru¹¹⁵ a'r Athro Laura McAllister¹¹⁶ yr achos ar wahân wrth ddarparu tystiolaeth i'r Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Senedd yn 2020 y gall gwell craffu arwain at arbedion cost sy'n gwrthbwysu cost ychwanegol y gwariant sy'n angenrheidiol i gymryd y camau sy'n ofynnol i wella craffu. Roedd y safbwyntiau hyn yn ategu sylwadau cynharach gan Gomisiwn Silk yn ei adroddiad cyntaf yn 2012 sef, 'Rhaid wrth graffu da i gael deddfwriaeth dda, ac mae deddfwriaeth dda yn talu amdani ei hun'.¹¹⁷
177. Barn y Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Senedd oedd 'na ddylai cost yn unig fod yn esgus dros fethu â buddsoddi yn ein democratiaeth drwy sicrhau bod trefniadau etholiadol y Senedd yn briodol'.¹¹⁸
178. O ran manteision ehangach, mae'r Memorandwm Esboniadol wedi nodi canfyddiadau ymchwil academiaidd sy'n dangos y gall ymddiriedaeth menywod mewn sefydliadau gwleidyddol gynyddu pan fydd mwy o fenywod yn eu cynrychioli,¹¹⁹ a bod menywod a merched yn fwy tebygol o gymryd diddordeb brwd mewn prosesau gwleidyddol pan fydd mwy o fenywod yn gynrychiolwyr ac yn fwy gweladwy.¹²⁰ Felly, gellir disgwyl y gallai cynyddu amrywiaeth rhywedd y Senedd arwain at y cyhoedd yn cymryd mwy o sylw a mwy o ran.
179. Yn gyffredinol, er nad oes disgwyl i ddarpariaethau'r Bil hwn arwain at fanteision ariannol, mae amrywiaeth o fanteision anariannol disgwyliedig, fel y cydnabyddir gan amrywiaeth o ffynonellau.

¹¹⁵Archwilydd Cyffredinol Cymru, [Llythyr at y Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Senedd](#), 15 Mai 2020.

¹¹⁶ Y Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Senedd, [Diwygio'r Senedd: y camau nesaf](#), Medi 2020, t. 185.

¹¹⁷ Comisiwn Silk, [Grymuso a Chyfrifoldeb: Pwerau Ariannol i Gryfhau Cymru](#), Tachwedd 2012, t. 136.

¹¹⁸ Y Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Senedd, [Diwygio'r Senedd: y camau nesaf](#), Medi 2020, t. 182.

¹¹⁹ Atkeson, Lonna Rae a Carillo, Nancy (2007) 'More is Better: The Influence of Collective Female Descriptive Representation on External Efficacy', *Politics and Gender*, Cyf. 3, Rhifyn 1, tt. 79-101.

Ulbig, Stacy G. (2007) 'Gendering Municipal Government: Female Descriptive Representation and Feelings of Political Trust', *Social Science Quarterly*, Cyf. 88, Rhifyn 5, tt. 1106-1123.

¹²⁰ Campbell, David E. a Wolbrecht, Christina (2006) 'See Jane Run: Women Politicians as Role Models for Adolescents', *Journal of Politics*, Cyf. 68, Rhifyn 2, tt. 233-47.

Wolbrecht, Christina a Campbell, David E. (2007) 'Leading by Example: Female Members of Parliament as Political Role Models', *American Journal of Political Science*, Cyf. 51, Rhifyn 4, tt. 921-39.

9. Aseidiadau o'r Effaith

180. Ochr yn ochr â'r asesiad o gostau, mae Aseiad Effaith Integredig wedi cael ei gynnal ar bob elfen o'r Bil. Pwrpas yr asesiad hwn fu ystyried effaith darpariaethau'r Bil ar grwpiau penodol o bobl a meysydd polisi, ac ystyried unrhyw newidiadau sydd eu hangen i'r Bil er mwyn lliniaru effeithiau negyddol neu sicrhau mwy o effeithiau cadarnhaol.
181. Ceir crynodeb isod o'r Aseiad Effaith Integredig. Mae ar gael yn llawn ar gais gan DiwygiorSenedd@llyw.cymru.
182. Mae aseidiadau unigol, mwy manwl, o'r effaith wedi cael eu paratoi lle mae'r Aseiad Effaith Integredig wedi nodi y gallai'r Bil gael effeithiau penodol, neu lle mae gofyniad deddfwriaethol i wneud hynny. Paratowyd aseidiadau effaith unigol mewn perthynas â'r canlynol:
- Cydraddoldeb a Hawliau Dynol;
 - Diogelu data;
 - Y Gymraeg; a
 - Chyfiawnder.
183. Ni nodwyd unrhyw effeithiau a oedd yn golygu bod angen ailystyried neu oedi cyn cyflwyno'r ddeddfwriaeth hon.

Crynodeb o'r Aseiad Effaith Integredig

Effaith ar lesiant cenedlaethau'r dyfodol

184. Mae'r [Aseiad Effaith Integredig](#) yn ystyried goblygiadau'r ddeddfwriaeth mewn perthynas â'r pum ffordd o weithio a nodir yn [Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol \(Cymru\)](#).
185. Yn y cyd-destun hwn, ystyrir bod y ddeddfwriaeth yn cynnig manteision parhaus yn yr **hirdymor** o ran gallu'r Senedd i ddal Llywodraeth Cymru i gyfrif, gwneud deddfau a chynrychioli pobl Cymru. Y rheswm am hyn yw bod cynrychiolwyr sy'n fenywod yn gallu:
- Rhoi blaenoriaeth i faterion polisi a deddfwriaethol gwahanol
 - Rhoi blaenoriaeth i fathau penodol o waith
 - Hyrwyddo ffyrdd penodol o weithio
 - Annog safon uwch o ymgeiswyr yn gyffredinol
 - Creu modelau rôl mewn swyddi arweinyddol gwleidyddol
 - Cynyddu cynrychiolaeth grwpiau lleiafrifol
 - Lleihau llygredigaeth a gweithgarwch anfoesegol
186. Ystyrir bod gwell craffu'n arwain at bolisiau a deddfu gwell, a allai **atal** ystod eang o broblemau rhag codi yn y dyfodol. Yng nghyd-destun **atal**, bydd y ddeddfwriaeth hon yn lliniaru amrywiaeth o bryderon a nodwyd yn

flaenorol ynghylch gallu'r Senedd i graffu'n effeithiol ac ymgysylltu â'r bobl y mae'n eu gwasanaethu. Mae ymchwil yn dangos y gall cynyddu cynrychiolaeth menywod mewn deddfwrfa gryfhau ei dilysrwydd.

187. Wrth ddatblygu newidiadau etholiadol, rhoddwyd ystyriaeth **integredig** i'r newidiadau ehangach a gynigir a'u heffaith gyfunol ar brosesau etholiadol presennol a chapasiti timau etholiadau awdurdodau lleol. Mae hyn yn cynnwys gweithredu Deddf Etholiadau Llywodraeth y DU 2022, a diwygiadau sy'n cael eu cyflawni ar wahân drwy Fil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) a Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) Llywodraeth Cymru.

188. Mae **cydweithio** ac **ymgysylltu** â phartneriaid a rhanddeiliaid wedi bod yn hanfodol wrth ddatblygu'r ddeddfwriaeth hon, gan gynnwys â phartneriaid cyflenwi a sefydliadau'r trydydd sector. Rhagwelir y bydd y dull hwn yn cael ei gynnal wrth roi'r ddeddfwriaeth hon ar waith.

Effaith ar lesiant cymdeithasol

189. Yn yr Asesiad Effaith Integredig, rhoddwyd ystyriaeth i sut, ac i ba raddau, y gall y ddeddfwriaeth effeithio ar bobl a chymunedau. Roedd hyn yn cynnwys effeithiau ar unigolion, grwpiau o bobl neu gymunedau penodol, pobl sy'n byw, yn gweithio neu'n gysylltiedig â lleoedd penodol, defnyddwyr cynnyrch neu wasanaethau penodol, gweithwyr, yn gyffredinol ac mewn sectorau penodol, a'r nod o hyrwyddo gwaith teilwng a theg (yn unol ag adran 4 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015).

190. Er enghraifft, nododd yr Asesiad Effaith Integredig y bydd mesurau i gynyddu nifer y menywod yn y Senedd yn gwella ei gallu i graffu ar ran buddiannau amrywiaeth ehangach o gymunedau a phobl ledled Cymru a'u cynrychioli.

191. Gall menywod sy'n Aelodau o'r Senedd arwain at sylw cryfach i'r Senedd, er enghraifft, ar faterion sydd weithiau'n bwysicach i fenywod, plant a theuluoedd. Gallai hyn gael effaith gadarnhaol ar grwpiau penodol o bobl, er enghraifft plant, menywod, teuluoedd a chymunedau.

Effaith ar lesiant diwylliannol

192. Gwnaeth yr Asesiad Effaith Integredig ystyried effeithiau'r ddeddfwriaeth ar lesiant diwylliannol. Nodwyd nad yw'r cynigion i gyflwyno cwotâu rhywedd ymgeiswyr yn cael unrhyw effaith uniongyrchol ar lesiant diwylliannol.

Effaith ar y Gymraeg

193. Cynhaliwyd Asesiad llawn o'r Effaith ar y Gymraeg.
194. Nododd yr [Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg](#) nad yw cyflwyno cwotâu ymgeiswyr ar gyfer etholiadau'r Senedd yn debygol o effeithio'n uniongyrchol ar y Gymraeg, ond y gallai fod rhai effeithiau anuniongyrchol cadarnhaol posibl. Er enghraifft, gan fod deddfwyr benywaidd yn tueddu i roi mwy o sylw i faterion sy'n ymwneud â phlant, addysg a theuluoedd, efallai y bydd cynnydd yn y sylw a roddir gan y Senedd i faterion yn ymwneud â'r Gymraeg megis addysg cyfrwng Gymraeg a digwyddiadau diwylliannol Gymraeg.

Effaith ar lesiant economaidd

195. Yn gyffredinol, nid ystyrir bod darpariaethau'r Bil yn cael effaith sylweddol ar lesiant economaidd, er bod rhywfaint o dystiolaeth bod cynrychiolaeth menywod mewn deddfwrfeydd yn rhagfynegydd o wariant y ddeddfwrfa honno mewn rhai meysydd, gan arwain, er enghraifft, at gynnydd mewn gwariant ar bolisïau cymdeithasol ac at leihau tlodi.¹²¹ Nid oes Asesiad llawn o'r Effaith Economaidd wedi'i gynnal.

Effaith ar y sector cyhoeddus

196. Mae'r Asesiad Effaith Integredig wedi ystyried goblygiadau posibl y Bil i'r sector cyhoeddus.
197. Mae goblygiadau ariannol y newidiadau wedi'u hymgorffori yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol a nodir yn Rhan 2 o'r Memorandwm Esboniadol hwn.
198. Nododd yr Asesiad Effaith Integredig y byddai'r ddeddfwriaeth yn cael effaith uniongyrchol ar y Comisiwn Etholiadol, a fydd yn llunio ac yn cyhoeddi canllawiau ar gyfer pleidiau gwleidyddol, ymgeiswyr, Swyddogion Canlyniadau Etholaethol a'r Swyddog Cydymffurfiaeth Enwebiadau Cenedlaethol. Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn nodi na fydd y Comisiwn Etholiadol yn ysgwyddo unrhyw gostau ychwanegol yn sgil cyflawni'r gofynion hyn.
199. Mae'r Asesiad Effaith Integredig yn nodi y bydd y ddeddfwriaeth yn cael effaith ar Swyddogion Canlyniadau Etholaethol, a fydd yn cyflawni rôl mewn perthynas â gorfodi'r rheolau cwota rhywedd. Serch hynny, nodir na fydd hyn yn arwain at gostau ychwanegol. Bydd y ddeddfwriaeth hefyd yn arwain at greu rôl y Swyddog Cydymffurfiaeth Enwebiadau

¹²¹ Swiss, Liam; Fallon, Kathleen M.; a Burgos, Giovanni (2012) 'Does Critical Mass Matter? Women's Political Representation and Child Health in Developing Countries', *Social Forces*, Cyf. 91, Rhifyn 2, tt. 531–558.

Cenedlaethol. Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn amcangyfrif bod y costau sy'n gysylltiedig â'r rôl honno yn £1,500 yr etholiad.

200. Mae'r Asesiad Effaith Integredig yn nodi y bydd y ddeddfwriaeth yn cael effaith ar bleidiau gwleidyddol ac ymarferwyr etholiadol. Drwy ymgysylltu â rhanddeiliaid, datblygwyd y cynigion mewn modd sy'n lleihau unrhyw effaith negyddol neu anghymesur ar brosesau sefydledig.

Effaith ar y trydydd sector

201. Mae'r Asesiad Effaith Integredig wedi ystyried goblygiadau posibl y Bil i'r trydydd sector.

202. Mae'r Asesiad Effaith Integredig yn nodi na fydd cyflwyno cwotâu ymgeiswyr ar gyfer etholiadau'r Senedd yn effeithio'n sylweddol ar y trydydd sector. Mae'r Asesiad Effaith Integredig yn nodi y gallai'r newidiadau roi ffocws newydd i waith nifer bach o sefydliadau sy'n gweithio i hyrwyddo cynrychiolaeth fwy amrywiol ym mywyd cyhoeddus a swyddi arwain.

Effaith ar lesiant amgylcheddol a bioamrywiaeth

203. Gwnaeth yr Asesiad Effaith Integredig ystyried effaith y ddeddfwriaeth ar lesiant amgylcheddol.

204. Nodwyd nad yw'r ddeddfwriaeth yn cael effaith uniongyrchol ar lesiant amgylcheddol. Felly, nid oes Asesiad llawn o'r Effaith ar Fioamrywiaeth wedi'i gynnal.

Effaith ar anfantais economaidd-gymdeithasol

205. Gwnaeth yr Asesiad Effaith Integredig ystyried effaith y ddeddfwriaeth ar anfantais economaidd-gymdeithasol.

206. Nodwyd nad yw'r ddeddfwriaeth yn cael effaith uniongyrchol ar lesiant economaidd-gymdeithasol. Felly, nid oes Asesiad Dyletswydd Economaidd-gymdeithasol llawn wedi'i gynnal.

Effaith ar iechyd

207. Mae'r Asesiad Effaith Integredig yn amlinellu y bydd mesurau i gynyddu nifer y menywod sy'n deddfu yn galluogi'r Senedd i wella ei gallu i graffu ar bolisi a deddfwriaeth, gan gynnwys mewn perthynas ag iechyd cymunedau a phobl ledled Cymru. Gallai'r ddeddfwriaeth gymell mwy o fenywod i gymryd rhan yn y broses ddemocrataidd, gan arwain at y manteision iechyd cysylltiedig posibl.

208. Mae'n bosibl y gallai fod effaith negyddol ar iechyd meddwl rhai unigolion sydd, oherwydd eu hamgylchiadau penodol, efallai'n teimlo'n ansicr neu'n bryderus ynghylch nodi a ydynt yn fenyw ai peidio, gan ystyried hyn yn rhwystr i'w cyfranogiad fel ymgeisydd mewn etholiad. Mae nifer yr ymgeiswyr i'r Senedd y mae hyn yn debygol o effeithio arnynt yn debygol o fod yn fach iawn a bydd natur yr effaith yn amrywio gan ddibynnu ar amgylchiadau personol penodol unigolion. Nid oes Asesiad llawn o'r Effaith ar Iechyd wedi'i gynnal ond mae effeithiau negyddol posibl ar grwpiau penodol wedi'u hystyried fel rhan o'r Asesiad Effaith Integredig a'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb.

Effaith ar hawliau plant

209. Gwnaeth yr Asesiad Effaith Integredig ystyried effeithiau'r ddeddfwriaeth ar blant ac ar hawliau plant. Nodwyd nad yw'r cynigion i gyflwyno cwotâu ymgeiswyr yn cael unrhyw effaith andwyol ar blant na hawliau plant, gan fod rhaid i ymgeiswyr i fod yn Aelodau o'r Senedd fod yn 18 oed ar ddiwrnod eu henwebiad i sefyll mewn etholiad.

210. Cyfeiriodd yr Asesiad Effaith Integredig at ymchwil a oedd yn awgrymu y gallai cynyddu nifer y deddfwyr benywaidd arwain at fwy o ffocws yn nadleuon y Senedd ar faterion sy'n ymwneud â phlant a'u hawliau, ac at graffu mwy effeithiol yn y meysydd polisi hyn.

211. Gan nad ystyrir bod darpariaethau'r Bil yn cael effaith uniongyrchol ar hawliau plant, nid oes Asesiad llawn o'r Effaith ar Hawliau Plant wedi'i gynnal.

Crynodeb o'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

212. Mae [Asesiad llawn o'r Effaith ar Gydraddoldeb](#) wedi'i gynnal. Cynhaliwyd yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb i ystyried effeithiau posibl y ddeddfwriaeth ar bobl â nodweddion gwarchodedig fel y'u disgrifir yn Neddf Cydraddoldeb 2010.

213. Mae'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn nodi y gallai'r Bil gael effeithiau cadarnhaol ar y cyfan, er nad bob amser yn uniongyrchol, ar ystod o bobl â nodweddion gwarchodedig. Bydd mesurau i gynyddu nifer y deddfwyr benywaidd yn y Senedd o bosibl yn gwella ei gallu i graffu ar ran buddiannau amrywiaeth ehangach o gymunedau a phobl ledled Cymru a'u cynrychioli, gan gynnwys pobl â nodweddion gwarchodedig fel y'u disgrifir yn Neddf Cydraddoldeb 2010.

214. Nododd yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb y bydd y ddeddfwriaeth yn effeithio'n uniongyrchol ar rai grwpiau ac y gallai gael effaith ar grwpiau eraill. Mae'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn nodi y bydd y ddeddfwriaeth yn effeithio'n uniongyrchol ar y grwpiau canlynol:

- Dynion a menywod (nodwedd warchoddedig: rhyw)
- Pobl draws (nodwedd warchoddedig: ailbennu rhywedd)

215. Mae'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn nodi y gallai'r ddeddfwriaeth effeithio ar yr hawl i sefyll mewn etholiad (Erthygl 3, Protocol 1), yr hawl i breifatrwydd (Erthygl 8) a hawl pobl i gael eu diogelu rhag gwahaniaethu (Erthygl 14). Mae'r Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data ar gyfer y Bil yn darparu rhagor o wybodaeth am yr amgylchiadau pan fydd gwybodaeth bersonol yn cael ei rhannu yn unol â'r ddeddfwriaeth a chamau lliniaru.

216. Mae'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn nodi bod unrhyw effeithiau negyddol ar ymgeiswyr nad ydynt yn fenywod yn cael eu lliniaru gan y ffaith bod y trothwy isaf wedi'i osod ar 50% i fenywod, gan felly alluogi cydbwysedd o ran rhywedd ac, ar yr un pryd, gadw safleoedd "enilladwy" ar restrau i fenywod. Ymhellach, mae'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn nodi bod y ddeddfwriaeth yn ceisio cyflawni nod dilys, sef sicrhau bod y Senedd yn gynrychioliadol ar y cyfan o gyfansoddiad rhywedd poblogaeth Cymru.

217. Mae'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn cydnabod mai un o uchelgeisiau polisi ehangach Llywodraeth Cymru o hyd yw cefnogi cynhwysiant a chyfranogiad pobl draws a'i gwneud yn symlach i gael Tystysgrif Cydnabod Rhywedd. Serch hynny, mae cydnabod rhywedd yn fater a gedwir yn ôl o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru. Cydnabyddir y gallai'r ddeddfwriaeth hon effeithio'n negyddol ar rai unigolion yn sgil gorfod nodi eu rhywedd. Nid oes dim yn y rheolau ynghylch cyfran a gosodiad menywod ar restrau sy'n atal unrhyw unigolyn rhag sefyll.

218. Mae'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn nodi y gallai'r ddeddfwriaeth arwain at effeithiau anuniongyrchol cadarnhaol ar y grwpiau canlynol a ddynodwyd gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yn rhai â nodweddion gwarchoddedig:

- Plant a phobl ifanc (nodwedd warchoddedig: oedran)
- Y rhai sy'n feichiog neu ar absenoldeb mamolaeth (nodwedd warchoddedig: beichiogrwydd a mamolaeth)
- Pobl anabl (nodwedd warchoddedig: anabledd)
- Y rhai sydd angen gofal, gan gynnwys pobl hŷn a phobl anabl (nodweddion gwarchoddedig: oedran ac anabledd).

219. Mae'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn nodi, yn seiliedig ar dystiolaeth ac ymchwil ar effaith mesurau tebyg mewn gwledydd eraill, y gallai cynyddu nifer yr Aelodau o'r Senedd sy'n fenywod alluogi'r Senedd i wella ei gallu i graffu ar bolisi a deddfwriaeth ynghylch materion sydd o ddiddordeb penodol i'r grwpiau uchod. Y rheswm dros hyn yw bod dystiolaeth o leoliadau eraill yn dangos bod deddfwyr benywaidd yn rhoi mwy o sylw i faterion a allai fod yn arbennig o bwysig i bobl o'r grwpiau

hyn, fel iechyd. Rheswm arall dros hyn yw y gall cyflwyno cwotâu arwain at ethol deddfwyr sydd ag ystod ehangach o brofiadau bywyd, gan gynnwys o'r grwpiau uchod.

Effaith ar brawfesur gwledig

220. Mae'r Asesiad Effaith Integredig wedi dod i'r casgliad nad oedd angen Asesiad Effaith Prawfesur Gwledig llawn gan na fydd cyflwyno cwotâu ymgeiswyr ar gyfer etholiadau'r Senedd yn cael unrhyw effeithiau penodol nac uniongyrchol ar unigolion a chymunedau gwledig. Bydd menywod sy'n dymuno sefyll mewn etholiad mewn etholaethau mwy gwledig yn elwa ar gwtâu yn yr un modd â menywod mewn rhannau mwy trefol o Gymru, gan eu galluogi i gynrychioli ac adlewyrchu safbwyntiau penodol a phrofiadau bywyd menywod sy'n byw yng nghefn gwlad Cymru.

Crynodeb o'r Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data

221. Mae [Asesiad llawn o'r Effaith ar Ddiogelu Data](#) wedi'i gynnal mewn perthynas â'r Bil.

222. Mae'r Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data wedi nodi y bydd y ddeddfwriaeth yn cael effaith ar unigolion sydd efallai eisiau sefyll fel ymgeisydd rhestr plaid yn etholiadau'r Senedd. Bydd y ddeddfwriaeth hefyd yn cael effaith ar reolyddion data perthnasol, sef pleidiau gwleidyddol cofrestredig (fel y'u diffinnir gan y ddeddfwriaeth), Swyddogion Canlyniadau Etholaethol a'r Swyddog Cydymffurfiaeth Enwebiadau Cenedlaethol, gan y bydd y ddeddfwriaeth yn ei gwneud yn ofynnol iddynt gasglu neu dderbyn ac yna prosesu data personol ychwanegol.

223. O dan y trefniadau presennol ar gyfer etholiadau'r Senedd, mae'n ofynnol i ymgeiswyr lenwi ffurflenni fel rhan o'r broses etholiadol a darparu gwybodaeth fel eu henw, cyfeiriad cartref a dyddiad geni. Yn aml, caiff y ffurflenni hyn eu cyflwyno ar ran ymgeisydd gan eu plaid wleidyddol a fydd, efallai, yn gwirio bod y ffurflenni wedi'u llenwi'n gywir.

224. Bydd y ddeddfwriaeth newydd yn ei gwneud yn ofynnol i ymgeiswyr nodi a ydynt yn fenyw ai peidio yn rhan o'r broses enwebu. Bydd gofyn i bob ymgeisydd rhestr plaid ar gyfer etholiadau'r Senedd nodi hyn. Felly, bydd y Bil, ynghyd â'r is-ddeddfwriaeth sydd i'w gwneud oddi tano, yn ei gwneud yn ofynnol prosesu gwybodaeth bersonol am ymgeiswyr, a allai fod yn sensitif i rai pobl.

225. Bydd angen i bleidiau gwleidyddol wybod y rhywedd a nodwyd gan eu hymgeiswyr fel y gallant sicrhau bod rhestrau eu pleidiau yn cydymffurfio â'r rheolau cwota. Bydd pleidiau yn cyflwyno'r ffurflenni enwebu, gan gynnwys rhestrau eu plaid a'r rhywedd a nodwyd gan ymgeiswyr, i'r

Swyddogion Canlyniadau Etholaethol, a fydd yn defnyddio'r wybodaeth i wirio cydymffurfiaeth â'r rheolau cwota.

226. Bydd y Swyddog Canlyniadau Etholaethol a'i staff yn cael yr wybodaeth am rywedd yn yr un modd ag y mae gwybodaeth bersonol a allai fod yn sensitif yn cael ei derbyn a'i phrosesu ar hyn o bryd. Bydd cyfraith Rheoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data (GDPR) yn berthnasol o dan yr amgylchiadau hyn a rhagwelir y bydd polisiâu a chanllawiau ar waith sy'n debyg i'r rhai presennol sy'n ymwneud â sut y mae gwybodaeth am ymgeiswyr i gael ei diogelu a'i thrin.
227. Mae'r Bil yn rhoi'r pŵer i wneud darpariaeth mewn is-ddeddfwriaeth ynghylch archwilio gwybodaeth am rywedd a ddarparwyd gan ymgeiswyr. Os caiff ei arfer, byddai hyn yn cael ei nodi yn y gyfraith ac mae'n bosibl y'i gwneir yn ddarostyngedig i fesurau diogelu.
228. Fel rheolyddion data, bydd angen i bleidiau gwleidyddol barhau i ddarparu hysbysiad preifatrwydd i ymgeiswyr sy'n nodi dibenion casglu a phrosesu data. Yn yr un modd, bydd angen i Swyddogion Canlyniadau Etholaethol barhau i ddarparu hysbysiad preifatrwydd i ymgeiswyr sy'n nodi dibenion casglu data ac yn egluro ei bod yn ofynnol yn ôl y gyfraith i'r ymgeiswyr ddarparu gwybodaeth fel rhan o'r broses i ddod yn ymgeisydd mewn etholiad ar gyfer y Senedd. Bydd angen i bleidiau gwleidyddol a Swyddogion Canlyniadau Etholaethol adolygu'r hysbysiadau preifatrwydd hyn yn sgil y swyddogaethau ychwanegol sy'n gysylltiedig â chwotâu a fyddai'n cael eu rhoi iddynt yn rhinwedd y Bil.
229. Bydd angen rhannu gwybodaeth berthnasol â'r Swyddog Cydymffurfiaeth Enwebiadau Cenedlaethol. Darperir ar gyfer hyn yn yr is-ddeddfwriaeth. Ni fydd angen i'r Swyddog Cydymffurfiaeth Enwebiadau Cenedlaethol ond gweld yr wybodaeth ynghylch rhywedd yr ymgeisydd cyntaf neu'r unig ymgeisydd ar restr pob plaid er mwyn cyflawni ei swyddogaethau yn effeithiol wrth wirio cydymffurfiaeth â'r meini prawf gosod llorweddol. Felly, disgwylir y bydd yr is-ddeddfwriaeth yn ei gwneud yn ofynnol i'r Swyddogion Canlyniadau Etholaethol rannu'r wybodaeth bersonol hon â'r Swyddog Cydymffurfiaeth Enwebiadau Cenedlaethol. Ni fydd y Swyddog Cydymffurfiaeth Enwebiadau Cenedlaethol yn cael gwybodaeth bersonol arall am yr ymgeiswyr hyn, megis enw neu ddyddiad geni.
230. Bydd yn ofynnol i'r Swyddogion Canlyniadau Etholaethol gyhoeddi'r rhestr o ymgeiswyr a enwebwyd yn ddilys yn y datganiad am y sawl a enwebwyd. Er na fydd yr wybodaeth a ddarperir gan ymgeiswyr ynghylch eu rhywedd yn cael ei chyhoeddi, bydd trefn yr ymgeiswyr ar restr plaid (sydd wedi'i seilio ar yr wybodaeth honno a'r rheolau cwota) ar gael i'r cyhoedd ac weithiau gall fod yn bosibl sefydlu a yw ymgeisydd wedi nodi ei fod yn fenyw neu nad yw'n fenyw.
231. Mae'r Aseiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data yn nodi, er mwyn gwireddu diben y Bil, fod angen casglu a phrosesu data yn y ffyrdd a nodir uchod.

Heb drin a phrosesu'r wybodaeth hon, ni fyddai pleidiau gwleidyddol cofrestredig yn gallu cyflwyno rhestrau sy'n cydymffurfio, ac ni fyddai Swyddogion Canlyniadau Etholaethol na'r Swyddog Cydymffurfiaeth Enwebiadau Cenedlaethol yn gallu gwirio a yw rhestr plaid yn cydymffurfio â'r rheolau cwota ai peidio. Mae'r Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data hefyd yn cydnabod y risgiau uwch i rai unigolion yn sgil gorfod nodi eu rhywedd er dibenion gweithredu a gorfodi'r ddeddfwriaeth yn effeithiol.

232. Fel rheolyddion data, pleidiau gwleidyddol cofrestredig, Swyddogion Canlyniadau Etholaethol a'r Swyddog Cydymffurfiaeth Enwebiadau Cenedlaethol sy'n gyfrifol yn y pen draw am y prosesu data a bydd yn ofynnol iddynt gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth diogelu data. Bydd casglu'r wybodaeth ynghylch rhywedd yn estyniad o broses sydd eisoes yn bodoli ac sy'n gyfarwydd iddynt. Mae'r canllawiau a ddarperir gan y Comisiwn Etholiadol yn debygol o'u cynorthwyo i gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth.

Crynodeb o'r asesiad Nodi'r Effaith ar y System Gyfiawnder

233. Mae [asesiad Nodi'r Effaith ar y System Gyfiawnder](#) llawn wedi'i gynnal mewn perthynas â'r Bil.

234. Mae'r asesiad Nodi'r Effaith ar y System Gyfiawnder yn nodi y rhagwelir y bydd unrhyw effaith ar y system gyfiawnder yn sgil y darpariaethau cwota rhywedd yn y ddeddfwriaeth sylfaenol, gan gynnwys cost, yn fach iawn.

235. Ni fydd unrhyw droseddau newydd yn cael eu creu, er y gall is-ddeddfwriaeth ehangu trosedd bresennol sy'n ymwneud ag ymddygiad Swyddogion Canlyniadau a swyddogion etholiadol eraill i rôl newydd (Swyddog Cydymffurfiaeth Enwebiadau Cenedlaethol) sy'n cael ei chreu o dan y ddeddfwriaeth newydd.

236. Mae'r gyfraith etholiadol bresennol yn darparu ar gyfer nifer o droseddau etholiadol sy'n ymwneud â chynnal etholiadau yn deg, wedi'u targedu at weinyddwyr a chyfranogwyr etholiadol. Un o'r troseddau hyn yw torri dyletswydd swyddogol gan Swyddogion Canlyniadau a swyddogion etholiadol eraill ac mae'n bosibl y bydd yn cael ei newid er mwyn cynnwys y Swyddog Cydymffurfiaeth Enwebiadau Cenedlaethol. O ran cyfranogwyr, ceir troseddau amrywiol sy'n arferion llwgr neu anghyfreithlon, y mae un ohonynt yn ymwneud â darparu datganiadau ffug mewn papurau enwebu a phapurau eraill. Ni fydd datganiad ffug ynghylch rhywedd yn rhan o'r drosedd arfer llwgr honno.

237. Er nad yw'r Bil yn creu troseddau newydd, gan y bydd yn gweithredu rheolau newydd y mae rhaid i weinyddwyr a chyfranogwyr gadw atynt, mae hyn yn cynyddu'r amgylchiadau posibl a allai arwain at sail i wneud cais i'r llysoedd, er enghraifft drwy gyflwyno deiseb etholiadol. Bydd effaith ehangu trosedd torri dyletswydd swyddogol i gynnwys y Swyddog

Cydymffurfiaeth Enwebiadau Cenedlaethol yn fach iawn ac ystyrir nad yw'n debygol o arwain at gynnydd mewn achosion gerbron y llysoedd.

238. Mae'r asesiad Nodi'r Effaith ar y System Gyfiawnder yn nodi ei bod yn annhebygol iawn y bydd nifer y deisebau etholiadol a gyflwynir mewn perthynas ag etholiadau'r Senedd yn cynyddu oherwydd darpariaethau yn y Bil. Rhaid cyflwyno deiseb etholiadol o fewn 21 diwrnod i ddiwrnod ethol yr Aelod ac mae gofyniad ariannol sylweddol ynghlwm wrthi. Nid yw deisebau etholiadol yn digwydd yn aml – does dim deisebau etholiadol wedi'u cyflwyno mewn perthynas ag etholiadau'r Senedd hyd yma.

10. Aseiad fforddiadwyedd

239. Er bod Aseiad Effaith Rheoleiddiol yn asesu gwerth cymdeithasol ac felly'n cynnwys effeithiau diwylliannol, cymdeithasol ac amgylcheddol ochr yn ochr â chostau a manteision economaidd, mae aseiad fforddiadwyedd yn aseiad cwbl ariannol. O'r herwydd, dim ond costau arian parod a manteision sy'n rhyddhau arian parod sy'n cael eu cynnwys. Byddai unrhyw gostau a manteision amgylcheddol, cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd ehangach a nodwyd mewn Aseiad Effaith Rheoleiddiol yn cael eu dileu o aseiad fforddiadwyedd.

240. Mae'r aseiad fforddiadwyedd yn ystyried yr un cyfnod â'r Aseiad Effaith Rheoleiddiol, sef rhwng 2024-25 a 2031-32.

241. Mae'r costau arian parod a'r manteision sy'n rhyddhau arian parod yn yr aseiad hwn wedi cael eu haddasu i adlewyrchu chwyddiant disgwylledig yn ystod y cyfnod gwerthuso. Mae'r addasiad hwn wedi cael ei wneud ar sail yr amcanestyniadau datchwyddydd cynnyrch domestig gros sydd wedi'u cynnwys yn Rhagolygon Economaidd a Chyllidol y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol (OBR)¹²² a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2023. Roedd amcanestyniadau'r OBR ond yn ymestyn i 2027-28 ac felly mae cyfartaledd yr amcanestyniadau hyn wedi cael ei ddefnyddio ar gyfer gweddill y cyfnod gwerthuso. Er bod chwyddiant yn gostwng erbyn hyn, mae rhywfaint o ansicrwydd o hyd ynghylch ei lwybr yn y dyfodol. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i fonitro effaith chwyddiant ar gostau ariannol y Bil.

242. Oni nodir yn wahanol, mae'r holl gostau wedi cael eu talgrynnu i'r £100 agosaf. Efallai na fydd rhai o'r cyfansymiau mewn tablau yn cyfateb oherwydd y talgrynnu hwn.

Costau pontio

243. Nododd yr Aseiad Effaith Rheoleiddiol gostau pontio o £18,000 i ariannu newidiadau i'r Systemau Rheoli Etholiadol. Byddai'r costau yn 2025-26 a byddai awdurdodau lleol (ALLau) yn talu amdanynt, gyda chymorth cyllid gan Lywodraeth Cymru.

Tabl 10.1: Aseiad fforddiadwyedd awdurdodau lleol

Blwyddyn	2025–26
Costau cyfalaf ALLau	£18,000
Cyfanswm	£18,000
Cyfanswm a addaswyd ar gyfer chwyddiant	£18,900

¹²² Y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol, [Rhagolygon economaidd a chyllidol, Mawrth 2023](#).

Costau rheolaidd

Nododd yr Aseiad Effaith Rheoleiddiol gost reolaidd ddangosol bosibl yn ystod pob blwyddyn etholiad yn sgil dynodi Swyddog Cydymffurfiaeth Enwebiadau Cenedlaethol. I'r graddau y gellir pennu ffi ar gyfer y Swyddog i adennill costau am wasanaethau a ddarparwyd mewn etholiad Senedd Cymru, amcangyfrifir bod hyn yn £1,500 fesul etholiad ond gallai hyn amrywio rhywfaint. Llywodraeth Cymru fydd yn gyfrifol am y costau hyn.

Tabl 10.2: Aseiad fforddiadwyedd Llywodraeth Cymru

Blwyddyn	2026–27	2030–31
Costau refeniw LIC	£1,500	£1,500
Cyfanswm	£1,500	£1,500
Cyfanswm a addaswyd ar gyfer chwyddiant	£1,600	£1,700

11. Adolygu ar ôl gweithredu

244. Mae'r Bil yn darparu bod rhaid i'r Llywydd gyflwyno cynnig cyn gynted ag y bo'n ymarferol, a doed a ddêl o fewn chwe mis i gyfarfod cyntaf y Senedd ar ôl yr etholiad cyffredinol pan fyddai cwotâu ymgeiswyr yn cael effaith gyntaf, a fyddai (os caiff ei gymeradwyo gan y Senedd) yn sefydlu Pwyllgor i gynnal adolygiad o weithrediad ac effaith y Bil hwn. Mae'r Bil yn darparu bod y cynnig yn ei gwneud yn ofynnol i'r Pwyllgor gyflwyno adroddiad o fewn 12 mis i gyfarfod cyntaf y Senedd ar ôl yr etholiad pan fyddai cwotâu ymgeiswyr yn cael effaith gyntaf. Os, ar ôl adolygiad gan Bwyllgor o'r fath, bydd y Pwyllgor yn gosod adroddiad gerbron y Senedd, rhaid i Weinidogion Cymru osod gerbron y Senedd ddatganiad yn nodi eu hymateb i'r adroddiad.

Atodiad 1

Nodiadau Esboniadol

BIL SENEDD CYMRU (RHESTRAU YMGEISWYR ETHOLIADOL)

NODIADAU ESBONIADOL

CYFLWYNIAD

1. Mae'r Nodiadau Esboniadol hyn ar gyfer Bil Senedd Cymru (Rhestrau Ymgeiswyr Etholiadol) ("y Bil") fel y'i cyflwynwyd i Senedd Cymru ar 11 Mawrth 2024. Fe'u lluniwyd gan Grŵp yr Economi, y Trysorlys a'r Cyfansoddiad Llywodraeth Cymru er mwyn cynorthwyo'r sawl sy'n darllen y Bil. Dylid darllen y Nodiadau Esboniadol ar y cyd â'r Bil ond nid ydynt yn rhan ohono.

TROSOLWG CYFFREDINOL O'R BIL

2. Bwriedir i'r Bil sicrhau bod aelodaeth Senedd Cymru ("y Senedd") yn adlewyrchu cyfansoddiad rhywedd y boblogaeth ar y cyfan. Bwriedir i hyn, yn ei dro, wneud y Senedd yn ddeddfwrfa fwy effeithiol i bobl Cymru ac ar ran pobl Cymru.
3. Mae'r Bil yn darparu ar gyfer cyflwyno gofynion ynghylch cyfran a gosodiad menywod ar restrau ymgeiswyr pleidiau gwleidyddol cofrestredig, sy'n rhan o'r system a ddefnyddir i ethol Aelodau o'r Senedd (ASau).
4. Mae'r Bil yn cynnwys 5 adran, a chyflwynir sylwedd y Bil yn adran 1, sy'n mewnosod darpariaethau newydd yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006 ("DLIC").

SYLWEBAETH AR ADRANNAU'R BIL

Adran 1 - Cyfran a gosodiad menywod ar restrau o ymgeiswyr i fod yn Aelodau o'r Senedd

5. Mae adran 1 yn gwneud darpariaeth ar gyfer cyflwyno gofynion ynghylch cyfran a gosodiad menywod ar restrau ymgeiswyr a gyflwynir gan bleidiau gwleidyddol cofrestredig, sy'n rhan o'r system etholiadol a ddefnyddir ar gyfer etholiadau'r Senedd. Mae'n gwneud hynny drwy ddiwygio Rhan 1 o DLIC drwy fewnosod adrannau newydd 7A i 7D.

6. Mae dwy agwedd bresennol ar DLIC yn arbennig o berthnasol. Yn gyntaf, mae adran 6 o DLIC yn diffinio “registered political party” fel plaid wleidyddol sydd wedi’i chofrestru o dan Ran 2 o Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000. Yn ail, mae adran 13 o DLIC yn rhoi pŵer eang i Weinidogion Cymru i wneud is-ddeddfwriaeth ynghylch etholiadau. Mae’r pŵer hwn wedi’i arfer yn flaenorol i wneud Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2007 (O.S. 2007/236) (y cyfeirir ato’n aml fel “y Gorchymyn Ymddygiad”). Fel yr eglurir isod, o dan y Bil gwneir darpariaeth bellach mewn perthynas ag adrannau newydd 7A a 7B o DLIC gan ddefnyddio’r pŵer yn adran 13 o’r Ddeddf honno.
7. Mae cyfeiriadau yn y Bil (a’r Nodiadau hyn) at adran 7 o DLIC yn gyfeiriadau at yr adran honno fel y’i hamnewidir gan Fil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau).

Adran newydd 7A: Rhaid i o leiaf hanner yr ymgeiswyr ar restr a gyflwynir o dan adran 7 fod yn fenywod

8. Mae adran newydd 7A yn ei gwneud yn ofynnol bod o leiaf hanner yr ymgeiswyr ar restr plaid yn fenywod, mewn achosion pan fo’r rhestr yn cynnwys dau neu ragor o ymgeiswyr. Pan fo rhestr yn cynnwys odrif o ymgeiswyr, rhaid i’r mwyafrif fod yn fenywod, sy’n golygu bod rhaid i’r rhestr gynnwys o leiaf un yn fwy o ymgeiswyr sy’n fenywod nag ymgeiswyr nad ydynt yn fenywod (is-adran (3)). Mae is-adran (4) hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i unrhyw ymgeisydd nad yw’n fenyw gael ei ddilyn yn syth ar restr gan ymgeisydd sy’n fenyw (ac eithrio’r ymgeisydd olaf ar restr, na fyddai’n cael ei ddilyn gan unrhyw ymgeisydd arall).

Adran newydd 7B: Rhaid i’r ymgeisydd cyntaf neu’r unig ymgeisydd ar o leiaf hanner y rhestrau a gyflwynir gan blaid fod yn fenyw

9. Mae adran newydd 7B yn gosod gofynion pan fo plaid wleidyddol gofrestredig wedi cyflwyno rhestrau o ymgeiswyr ar gyfer dwy neu ragor o etholaethau’r Senedd. Pan fo plaid yn cyflwyno rhestrau ar gyfer eilrif o etholaethau’r Senedd, ar o leiaf hanner y rhestrau naill ai: (a) rhaid i’r ymgeisydd sy’n ymddangos gyntaf ar y rhestr fod yn fenyw neu (b) os yw’r rhestr yn cynnwys un ymgeisydd yn unig, rhaid i’r ymgeisydd hwnnw fod yn fenyw. Pan fo plaid yn cyflwyno odrif o restrau, mae’r un gofyniad yn gymwys mewn perthynas â’r mwyafrif o restrau’r blaid. Er enghraifft, os yw plaid yn cyflwyno rhestr mewn pedair etholaeth Senedd, rhaid bod o leiaf ddwy fenyw yn ymddangos fel yr ymgeisydd cyntaf neu’r unig ymgeisydd. Os yw plaid yn cyflwyno rhestr mewn pum etholaeth Senedd, rhaid bod o leiaf dair menyw yn ymddangos fel yr ymgeisydd cyntaf neu’r unig ymgeisydd.

Adran newydd 7C: Y swyddog cydymffurfiaeth enwebiadau cenedlaethol a gorfodi adran 7B

10. Mae adran newydd 7C yn darparu ar gyfer creu Swyddog Cydymffurfiaeth Enwebiadau Cenedlaethol (SCEC) ac i adran 7B gael ei gorfodi drwy ddarpariaeth sydd i'w gwneud mewn gorchymyn o dan adran 13 o DLIC.
11. Mae is-adran (1) yn ei gwneud yn ofynnol bod darpariaeth yn cael ei gwneud mewn Gorchymyn o dan adran 13 o DLIC ar gyfer dynodi SCEC gan Weinidogion Cymru. Swyddogaethau'r SCEC yw'r rhai a nodir mewn Gorchymyn a wneir o dan adran 13.
12. Caiff Gorchymyn o dan adran 13 hefyd roi swyddogaethau i Swyddogion Canlyniadau Etholaethol (SCEau: gweler adran 7 o DLIC) ynghylch sicrhau cydymffurfiaeth ag adran 7B. Mae is-adran (3) yn ymwneud â darpariaeth ynghylch camau y caniateir eu cymryd neu y mae rhaid eu cymryd pan nad yw rhestrau ymgeiswyr a gyflwynir o dan adran 7 o DLIC yn cydymffurfio ag adran 7B. Mae is-adran (4) yn nodi darpariaeth benodol y caniateir ei gwneud drwy ddibynnu ar is-adrannau (2) a (3), sef;
 - a. swyddogaethau'r SCEC wrth benderfynu pa restrau sydd i fod yn destun camau gweithredu i sicrhau cydymffurfiaeth ag Adran 7B, a
 - b. swyddogaethau'r SCE sy'n ymwneud â gwneud newidiadau i restrau ymgeiswyr, gan gynnwys dal nad yw ymgeisydd nad yw'n fenyw ac sydd yr unig ymgeisydd ar restr bellach yn cael ei enwebu.

Adran newydd 7D: Darpariaeth benodol yn ymwneud ag adrannau 7A a 7B y caniateir neu y mae rhaid eu gwneud mewn gorchymyn o dan adran 13

13. Mae is-adran (1) yn ymwneud â gwneud darpariaeth ynghylch y materion a ddisgrifir ym mharagraffau (a) a (b) mewn gorchymyn o dan adran 13. Mae hyn yn cynnwys pŵer i wneud darpariaeth ynghylch yr effaith ar gydymffurfio ag adrannau 7A a 7B pe byddai ymgeisydd yn cael ei dynnu oddi ar restr. Byddai enghreifftiau o ymgeisydd yn cael ei dynnu oddi ar restr a gyflwynwyd i SCE yn cynnwys pan fo'r ymgeisydd wedi marw neu wedi tynnu'n ôl ar ôl i'r rhestr gael ei chyflwyno.
14. Mae is-adran (2) yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i wneud darpariaeth, mewn gorchymyn o dan adran 13 o DLIC, sy'n ei gwneud yn ofynnol i bob ymgeisydd a fydd ar restr ymgeiswyr plaid wleidyddol gofrestredig nodi (yn rhan o'r broses enwebu) naill ai:
 - a. mai menyw ydyw, neu
 - b. nad menyw ydyw.
15. Caiff gorchymyn o dan adran 13 hefyd wneud darpariaeth ynghylch arolygu datganiadau o'r fath gan ymgeiswyr (is-adran (1)(b)).

Adran 2 - Adolygu gweithrediad ac effaith y Ddeddf hon etc.

16. Mae adran 2 yn gosod dyletswydd ar y Llywydd i gyflwyno cynnig sy'n cynnig bod y Senedd yn sefydlu pwyllgor i adolygu ac adrodd ar weithrediad ac effaith adrannau 7A i 7D o DLIC ac unrhyw ddarpariaeth gysylltiedig a wneir o dan adran 13 o'r Ddeddf honno, neu o dan adran 3 o'r Bil. Rhaid i'r Llywydd gyflwyno'r cynnig hwn cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl cyfarfod cyntaf y Senedd yn dilyn etholiad cyffredinol cyntaf y Senedd ar ôl i'r Ddeddf ddod i rym, a sut bynnag o fewn chwe mis i'r cyfarfod hwnnw. Rhaid i'r cynnig hefyd gynnig bod rhaid i'r pwyllgor gwblhau ei adroddiad o fewn 12 mis i'r cyfarfod hwnnw. Mae'r adran hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru osod datganiad gerbron y Senedd sy'n amlinellu eu hymateb i unrhyw adroddiad o'r fath a osodir gan y pwyllgor gerbron y Senedd.

Adran 3 - Pŵer i wneud darpariaeth ganlyniadol, darpariaeth drosiannol etc.

17. Mae adran 3 yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau sy'n cynnwys darpariaeth ganlyniadol, darpariaeth ddeilliadol, darpariaeth atodol, darpariaeth drosiannol, darpariaeth ddarfodol neu ddarpariaeth arbed at ddibenion unrhyw ddarpariaeth yn y Bil, o ganlyniad i unrhyw ddarpariaeth ynddo neu er mwyn rhoi effaith lawn i unrhyw ddarpariaeth ynddo. Mae'r rheoliadau hynny i'w gwneud drwy offeryn statudol a chânt ddiwygio, diddymu, dirymu neu addasu'r Ddeddf sy'n deillio o'r Bil neu unrhyw ddeddfiad arall (pryd bynnag y caiff ei basio neu y'i gwneir), a chânt wneud darpariaeth wahanol at ddibenion gwahanol.
18. Mae is-adrannau (4) a (5) yn nodi gweithdrefnau Senedd Cymru a fydd yn gymwys i reoliadau a wneir o dan y pŵer hwn gan ddibynnu a yw'r rheoliadau yn diwygio deddfwriaeth sylfaenol ynteu is-ddeddfwriaeth. Mae is-adran (6) yn cynnwys diffiniad o ddeddfwriaeth sylfaenol at ddibenion yr adran hon.

Adrannau 4 a 5 - Dod i rym ac enw byr

19. Mae adran 4 yn gwneud darpariaeth ar gyfer dod â'r Bil i rym:
 - a. mae adrannau 3 i 5 i ddod i rym drannoeth y diwrnod y caiff y Ddeddf sy'n deillio o'r Bil y Cydsyniad Brenhinol;
 - b. caniateir i adrannau 1 a 2 o'r Bil ddod i rym ar ddiwrnod neu ddiwrnodau a bennir gan Weinidogion Cymru mewn gorchymyn.
20. Caiff gorchymyn sy'n dod ag adrannau 1 a 2 i rym bennu diwrnodau gwahanol at ddibenion gwahanol a gwneud darpariaeth drosiannol, darpariaeth ddarfodol neu ddarpariaeth arbed. Rhaid i orchymyn o dan yr

adran hon gael ei wneud drwy offeryn statudol, ond nid oes unrhyw weithdrefn yn gymwys ar gyfer ei wneud.

21. Mae adran 5 yn darparu mai enw byr y Ddeddf sy'n deillio o'r Bil fydd Deddf Senedd Cymru (Rhestrau Ymgeiswyr Etholiadol) 2024.

Atodiad 2

Mynegai o ofynion y Rheolau Sefydlog

Tabl A2.1

Rheol sefydlog		Adran	Tudalennau/ paragraffau
26.6(i)	Datgan y byddai darpariaethau'r Bil o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd	Datganiad yr Aelod	Tud. 1
26.6(ii)	Nodi amcanion polisi y Bil	Pennod 3 – Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael	Tud. 5–32
26.6(iii)	Nodi a gafodd ffyrdd eraill o wireddu'r amcanion polisi eu hystyried ac, os felly, pam y cafodd yr ymagwedd a gymerir yn y Bil ei mabwysiadu	Rhan 2 – Asesiad Effaith Rheoleiddiol	Tud. 45
26.6(iv)	Nodi'r ymgynghori a gafwyd, os cafwyd unrhyw ymgynghori o gwbl, ar y canlynol: (a) amcanion polisi y Bil a'r ffyrdd o'u gwireddu; (b) manylion y Bil, a (c) Bil drafft, naill ai yn llawn neu'n rhannol (ac os yn rhannol, pa rannau)	Pennod 4 – Ymgynghori	Tud. 33–37

Rheol sefydlog		Adran	Tudalennau/ paragraffau
26.6(v)	Nodi crynodeb o ddeiliant yr ymgynghori hwnnw, gan gynnwys sut a pham y mae unrhyw Fil drafft wedi cael ei ddiwygio	Pennod 4 – Ymgynghori	Tud. 33–37
26.6(vi)	Os na chyhoeddwyd y Bil, neu ran o'r Bil, yn flaenorol fel drafft, datgan y rhesymau dros y penderfyniad hwnnw	Pennod 4 – Ymgynghori	Tud. 33–37
26.6(vii)	Crynhoi yn wrthrychol yr hyn y bwriedir i bob un o ddarpariaethau'r Bil ei wneud (i'r graddau y mae angen esbonio hynny neu y mae angen cyflwyno sylwadau ar hynny) a rhoi'r wybodaeth arall sy'n angenrheidiol i esbonio effaith y Bil	Atodiad 1 – Nodiadau Esboniadol	Tud. 65–69
26.6(viii)	<p>Nodi'r amcangyfrifon gorau o'r canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> (a) y costau gweinyddol gros, y costau cydymffurfio gros a'r costau gros eraill y byddai darpariaethau'r Bil yn arwain atynt; (b) yr arbedion gweinyddol y byddai'r Bil yn arwain atynt; (c) costau gweinyddol net darpariaethau'r Bil; 	Rhan 2 – Aseiad Effaith Rheoleiddiol	Tud. 42–51

Rheol sefydlog		Adran	Tudalennau/ paragraffau
	<p>(d) dros ba gyfnodau amser y disgwylid i'r holl gostau ac arbedion hynny godi; ac</p> <p>(e) ar bwy y byddai'r costau'n syrthio</p>		
26.6(ix)	Unrhyw fanteision ac anfoneision amgylcheddol a chymdeithasol sy'n deillio o'r Bil na ellir eu mesur yn ariannol	Rhan 2 – Aseiad Effaith Rheoleiddiol	Tud. 52–58
26.6(x)	<p>Os yw'r Bil yn cynnwys unrhyw ddarpariaeth sy'n rhoi pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth, nodi mewn perthynas â phob darpariaeth o'r fath:</p> <p>(a) y person neu'r corff y rhoddir y pŵer iddo ac ym mha fodd y mae'r pŵer i gael ei arfer;</p> <p>(b) pam y bernir ei bod yn briodol dirprwyo'r pŵer; ac</p> <p>(c) gweithdrefn y Senedd (os oes un) y mae'r is-ddeddfwriaeth a wnaed neu sydd i'w gwneud wrth arfer y pŵer i ddod oddi tani, a pham y barnwyd ei bod yn briodol ei gosod o dan y weithdrefn honno (ac nid ei gosod o dan unrhyw weithdrefn arall);</p>	Pennod 5 – Y pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth	Tud. 38–41

Rheol sefydlog		Adran	Tudalennau/ paragraffau
26.6(xi)	Os yw'r Bil yn cynnwys unrhyw ddarpariaeth sy'n codi gwariant ar Gronfa Gyfunol Cymru, ymgorffori adroddiad gan yr Archwilydd Cyffredinol sy'n nodi ei farn ef ar a yw'r tâl yn briodol neu beidio	Nid yw'r gofyniad yn Rheol Sefydlog 26.6(vi) yn gymwys i'r Bil hwn	
26.6(xii)	Nodi'r effaith bosibl (os o gwbl) ar y system gyfiawnder yng Nghymru a Lloegr yn sgil darpariaethau'r Bil ("asesiad effaith ar gyfiawnder"), yn unol ag adran 110A o'r Ddeddf.	Rhan 2 – Asesiad Effaith Rheoleiddiol	Tud. 60–61
26.6B	Pan fo darpariaethau'r Bil yn deillio o ddeddfwriaeth sylfaenol bresennol, boed at ddibenion diwygio neu gydgrynhoi, rhaid darparu tabl tarddiadau i gyd-fynd â'r Memorandwm Esboniadol er mwyn esbonio'n glir beth yw'r berthynas rhwng y Bil a'r fframwaith cyfreithiol presennol.	Nid yw'r gofyniad yn Rheol Sefydlog 26.6B ynghylch Tabl Tarddiadau yn gymwys i'r Bil hwn oherwydd mai darn o ddeddfwriaeth annibynnol yw'r Bil ac nad yw'n tarddu o ddeddfwriaeth sylfaenol bresennol at ddibenion diwygio neu gydgrynhoi.	
26.6C	Pan fo'r Bil yn cynnig diwygio deddfwriaeth sylfaenol bresennol yn sylweddol, rhaid darparu atodlen i gyd-fynd â'r Memorandwm Esboniadol, yn nodi geiriad deddfwriaeth bresennol sy'n cael ei diwygio gan y Bil, ac yn nodi'n eglur sut y caiff y geiriad hwnnw ei ddiwygio gan y Bil.	Atodiad 3 – Atodlen o Ddiwygiadau	Tud. 75–80

Atodiad 3

Atodlen o ddiwygiadau

Deddf Llywodraeth Cymru 2006

Y DIWYGIADAU SYDD I GAEL EU GWNEUD GAN FIL SENEDD CYMRU
(RHESTRAU YMGEISWYR ETHOLIADOL)

Bwriedir i'r ddogfen hon ddangos sut y byddai'r darpariaethau yn y ddeddfwriaeth a ganlyn yn edrych fel y'u diwygid gan Fil Senedd Cymru (Rhestrau Ymgeiswyr Etholiadol) pe bai'n cael ei ddeddfu fel y'i cyflwynir ar 11 Mawrth 2024.

Deddfwriaeth Sylfaenol

- Deddf Llywodraeth Cymru 2006

Er hwylustod, dangosir y darpariaethau isod gyda'r diwygiadau y rhagwelir y byddant yn cael eu gwneud gan Fil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) (os caiff ei ddeddfu) yn ogystal â'r rhai a fydd yn cael eu gwneud gan Fil Senedd Cymru (Rhestrau Ymgeiswyr Etholiadol) (os caiff ei ddeddfu).

Ceir llinell drwy'r testun sydd i gael ei ddileu gan Fil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau), e.e. ~~mae testun sydd wedi ei hepgor yn edrych fel hyn.~~

Mae testun sydd i gael ei ychwanegu gan Fil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) wedi ei danlinellu, e.e. mae testun sydd wedi ei ychwanegu yn edrych fel hyn.

Mae testun sydd i gael ei ychwanegu gan Fil Senedd Cymru (Rhestrau Ymgeiswyr Etholiadol) wedi ei danlinellu'n **goch**, e.e. mae testun sydd wedi ei ychwanegu yn edrych fel hyn.

Rhoddir y cyfeiriadau at y darpariaethau diwygio perthnasol yn y Bil yn y golofn dde ar bob tudalen.

Lle y bo'n berthnasol, cynhwysir darpariaethau cysylltiedig o'r Ddeddf, a'r newidiadau iddynt yn sgil Bil Senedd Cymru (Rhestrau Ymgeiswyr Etholiadol), er mwyn helpu i ddeall y diwygiadau arfaethedig.

Rhybudd

Lluniwyd y testun hwn gan swyddogion Grŵp yr Economi, y Trysorlys a'r Cyfansoddiad Llywodraeth Cymru. Er bod ymdrechion wedi'u gwneud i sicrhau ei fod yn gywir, ni ddylid dibynnu arno fel testun diffiniol o'r Ddeddf na'r Bil.

At ddiben helpu pobl i ddeall effaith Bil Senedd Cymru (Rhestrau Ymgeiswyr Etholiadol) yn unig y lluniwyd y testun. Ni fwriedir iddo gael ei ddefnyddio mewn unrhyw gyd-destun arall.

Noder: at ddiben helpu pobl i ddeall Bil Senedd Cymru (Rhestrau Ymgeiswyr Etholiadol) yn unig y mae'r ddogfen hon wedi ei llunio. Ni ddylid dibynnu arni at unrhyw ddiben arall.

DEDDF LLYWODRAETH CYMRU 2006

Adran	Diwygir gan
<p>6 Voting at general elections</p> <p>(1) Each person entitled to vote at a general election in a Senedd constituency has two votes.</p> <p>(2) One (referred to in this Act as a “constituency vote”) is a vote which may be given for a candidate to be the Senedd constituency member for the Senedd constituency.</p> <p>(3) The other (referred to in this Act as an “electoral region vote”) is a vote which may be given for—</p> <p>(a) a registered political party which has submitted a list of candidates to be Senedd regional members for the Senedd electoral region in which the Senedd constituency is included, or</p> <p>(b) an individual who is a candidate to be a Senedd regional member for that Senedd electoral region.</p> <p>(4) The Senedd constituency member for the Senedd constituency is to be returned under the simple majority system.</p> <p>(5) The Senedd regional members for the Senedd electoral region are to be returned under the additional member system of proportional representation provided for in this Part.</p> <p>(6) In this Act “registered political party” means a party registered under Part 2 of the Political Parties, Elections and Referendums Act 2000 (c. 41).</p> <p>7 Candidates at general elections</p> <p>(1) At a general election a person may not be a candidate to be the Senedd constituency member for more than one Senedd constituency.</p> <p>(2) Any registered political party may submit a list of candidates for return as Senedd regional members for a particular Senedd electoral region at a general election.</p> <p>(3) The list must be submitted to the regional returning officer.</p> <p>(4) The list must not include more than twelve persons (but may include only one).</p> <p>(5) The list must not include a person—</p> <p>(a) who is included on any other list submitted for the Senedd electoral region or any list submitted for another Senedd electoral region,</p> <p>(b) who is an individual candidate to be a Senedd regional member for the Senedd electoral region or another Senedd electoral region,</p> <p>(c) who is a candidate to be the Senedd constituency member for a Senedd constituency which is not included in the Senedd electoral region, or</p> <p>(d) who is a candidate to be the Senedd constituency member for a Senedd constituency included in the Senedd electoral region but is not a candidate of the party.</p> <p>(6) A person may not be an individual candidate to be a Senedd regional member for the Senedd electoral region if that person is—</p> <p>(a) included on a list submitted by a registered political party for the Senedd electoral region or another Senedd electoral region,</p> <p>(b) an individual candidate to be a Senedd regional member for another Senedd electoral region,</p> <p>(c) a candidate to be the Senedd constituency member for a</p>	<p>Rhan 2 Adran 8 o Fil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau)</p>

Noder: at ddiben helpu pobl i ddeall Bil Senedd Cymru (Rhestrau Ymgeiswyr Etholiadol) yn unig y mae'r ddogfen hon wedi ei llunio. Ni ddylid dibynnu arni at unrhyw ddiben arall.

~~Senedd constituency which is not included in the Senedd electoral region, or
(d) a candidate of any registered political party to be the Senedd constituency member for a Senedd constituency included in the Senedd electoral region.
(7) In this Act “regional returning officer”, in relation to a Senedd electoral region, means the person designated as the regional returning officer for the Senedd electoral region in accordance with an order under section 13.~~

~~8 Calculation of electoral region figures~~

~~(1) This section and section 9 are about the return of Senedd regional members for an electoral region at a general election.
(2) The person who is to be returned as the Senedd constituency member for each Senedd constituency in the Senedd electoral region is to be determined before it is determined who are to be returned as the Senedd regional members for the Senedd electoral region.
(3) For each registered political party by which a list of candidates has been submitted for the Senedd electoral region—
(a) there is to be added together the number of electoral region votes given for the party in the Senedd constituencies included in the Senedd electoral region, and
(b) the number arrived at under paragraph (a) is then to be divided by the aggregate of one and the number of candidates of the party returned as Senedd constituency members for any of those Senedd constituencies.
(4) For each individual candidate to be a Senedd regional member for the Senedd electoral region there is to be added together the number of electoral region votes given for the candidate in the Senedd constituencies included in the Senedd electoral region.
(5) The number arrived at—
(a) in the case of a registered political party, under subsection (3)(b), or
(b) in the case of an individual candidate, under subsection (4),
is referred to in this Act as the electoral region figure for that party or individual candidate.~~

~~9 Allocation of seats to electoral region members~~

~~(1) The first seat for the Senedd electoral region is to be allocated to the party or individual candidate with the highest electoral region figure.
(2) The second and subsequent seats for the Senedd electoral region are to be allocated to the party or individual candidate with the highest electoral region figure after any recalculation required by subsection (3) has been carried out.
(3) This subsection requires a recalculation under paragraph (b) of section 8(3) in relation to a party—
(a) for the first application of subsection (2), if the application of subsection (1) resulted in the allocation of a Senedd seat to the party, or
(b) for any subsequent application of subsection (2), if the previous application of that subsection did so,
and a recalculation is to be carried out after adding one to the aggregate mentioned in that paragraph.
(4) An individual candidate already returned as an Senedd constituency member or Senedd regional member is to be disregarded.
(5) Seats for the Senedd electoral region which are allocated to a party are to be filled by the persons on the party's list in the order in which they appear on the list (disregarding anyone already returned as a Senedd constituency~~

Noder: at ddiben helpu pobl i ddeall Bil Senedd Cymru (Rhestrau Ymgeiswyr Etholiadol) yn unig y mae'r ddogfen hon wedi ei llunio. Ni ddylid dibynnu arni at unrhyw ddiben arall.

~~member, including anyone whose return is void).~~

~~(6) Once a party's list has been exhausted (by the return of persons included on it as Senedd constituency members or by the previous application of subsection (1) or (2)), the party is to be disregarded.~~

~~(7) If (on the application of subsection (1) or any application of subsection (2)) the highest electoral region figure is the electoral region figure of two or more parties or individual candidates, the subsection applies to each of them.~~

~~(8) However, if subsection (7) would mean that more than the full number of seats for the Senedd electoral region were allocated, subsection (1) or (2) does not apply until—~~

~~(a) a recalculation has been carried out under section 8(3)(b) after adding one to the number of votes given for each party with that electoral region figure, and~~

~~(b) one has been added to the number of votes given for each individual candidate with that electoral region figure.~~

~~(9) If, after that, the highest electoral region figure is still the electoral region figure of two or more parties or individual candidates, the regional returning officer must decide between them by lots.~~

6 Voting at general elections

(1) Each person entitled to vote at a general election in a Senedd constituency may give a vote for—

(a) a registered political party that has submitted a list of candidates to be Members of the Senedd for the constituency, or

(b) an individual who is a candidate (“an individual candidate”) to be a Member of the Senedd for the constituency.

(2) In this Act “registered political party” means a party registered under Part 2 of the Political Parties, Elections and Referendums Act 2000 (c. 41).

7 Candidates at general elections

(1) A registered political party may submit a list of candidates to be Members of the Senedd for a particular Senedd constituency at a general election.

(2) The list must be submitted to the constituency returning officer.

(3) The list must not include more than eight people (but may include only one).

(4) The list must not include a person—

(a) who is included on another list submitted under this section (whether for the constituency or another constituency);

(b) who is an individual candidate to be a Member of the Senedd (whether for the constituency or another constituency).

(5) A person may not be an individual candidate to be a Member of the Senedd for a constituency if that person is—

(a) included on a list submitted under this section (whether for the constituency or another constituency);

(b) an individual candidate to be a Member of the Senedd for another constituency.

(6) In this Act, “constituency returning officer”, in relation to a Senedd constituency, means the person designated as the returning officer for the constituency in accordance with an order under section 13 (power of the Welsh Ministers to make provision about elections etc.)

Noder: at ddiben helpu pobl i ddeall Bil Senedd Cymru (Rhestrau Ymgeiswyr Etholiadol) yn unig y mae'r ddogfen hon wedi ei llunio. Ni ddylid dibynnu arni at unrhyw ddiben arall.

7A At least half of candidates on a list submitted under section 7 must be women

(1) This section applies to a list submitted by a registered political party under section 7 that includes two or more candidates to be Members of the Senedd for a Senedd constituency.

(2) Where there is an even number of candidates on the list, at least half of the candidates must be women.

(3) Where there is an odd number of candidates on the list, the majority of candidates must be women.

(4) A candidate on a list who is not a woman must, unless the candidate is last on the list, be immediately followed on the list by a woman.

7B First or only candidate on at least half of the lists submitted by a party must be a woman

(1) This section applies where a registered political party has, under section 7, submitted lists of candidates for two or more Senedd constituencies.

(2) Where the party has submitted an even number of lists, the first or only candidate on at least half of those lists must be a woman.

(3) Where the party has submitted an odd number of lists, the first or only candidate on the majority of those lists must be a woman.

7C The national nominations compliance officer and enforcement of section 7B

(1) An order under section 13 must make provision for the designation by the Welsh Ministers of a national nominations compliance officer.

(2) The national nominations compliance officer has such functions related to ensuring compliance with section 7B as are provided for in an order made under section 13.

(3) An order under section 13 may make provision about—

(a) what steps may or must be taken where the lists of candidates submitted under section 7 by a registered political party are not in compliance with section 7B;

(b) the functions of a constituency returning officer in relation to ensuring compliance with section 7B.

(4) Provision under subsections (2) and (3) may in particular—

(a) set out how the national nominations compliance officer may or must determine (which may be through the drawing of lots) the list or lists in respect of which steps may or must be taken by virtue of paragraph (b);

(b) require or enable a constituency returning officer to—

(i) make changes, in accordance with the order, to a list selected by virtue of paragraph (a);

(ii) hold, in accordance with the order, that where the only candidate on a list selected by virtue of paragraph (a) is not a woman, that candidate no longer stands nominated.

7D Particular provision relating to sections 7A and 7B that may or must be made in an order under section 13

(1) Provision relating to sections 7A and 7B that may be made in an order under section 13 includes, in particular, provision about—

(a) the effect of the removal of a candidate from a list of candidates on compliance with sections 7A and 7B, including provision under which, despite

Adran 1
o Fil Senedd
Cymru (Rhestrau
Ymgeiswyr
Etholiadol)

Noder: at ddiben helpu pobl i ddeall Bil Senedd Cymru (Rhestrau Ymgeiswyr Etholiadol) yn unig y mae'r ddogfen hon wedi ei llunio. Ni ddylid dibynnu arni at unrhyw ddiben arall.

the removal of a candidate, a list is to be treated as complying with those sections:

(b) inspection of a statement made by virtue of subsection (2).

(2) An order under section 13 must make provision requiring a person (P), as part of the process by which P is nominated by a registered political party as a candidate, to state either—

(a) that P is a woman, or

(b) that P is not a woman.

8 Calculation of seat allocation figures

(1) This section and section 9 are about the allocation, to registered political parties or individual candidates, of the seats for a Senedd constituency at a general election.

(2) For each registered political party by which a list of candidates has been submitted under section 7 (candidates at general elections) for the constituency—

(a) the votes given in the constituency for the party are to be added up, and

(b) the number arrived at under paragraph (a) is to be divided by the seat allocation divisor.

(3) On the first calculation for a party under subsection (2)(b), the seat allocation divisor for the party is one (section 9 makes provision about recalculations under that subsection with an increased divisor).

(4) For each individual candidate to be a Member of the Senedd for the constituency, the votes given in the constituency for the candidate are to be added up.

(5) The number arrived at—

(a) in the case of a registered political party, under subsection (2)(b), or

(b) in the case of an individual candidate, under subsection (4),

is referred to in section 9 as the “seat allocation figure” for that party or individual candidate.

9 Allocation of seats

(1) The first seat for a Senedd constituency is to be allocated to the registered political party or individual candidate with the highest seat allocation figure.

(2) The second and subsequent seats for the constituency are to be allocated to the party or individual candidate with the highest seat allocation figure after any recalculation required by subsection (3) has been carried out.

(3) This subsection requires a recalculation of the seat allocation figure for a registered political party—

(a) for the first application of subsection (2), if the application of subsection (1) resulted in the allocation to the party of a seat for the constituency, or

(b) for any subsequent application of subsection (2), if the previous application of that subsection resulted in the allocation to the party of a seat for the constituency,

and each recalculation is to be carried out under section 8(2)(b) after adding one to the previous seat allocation divisor for that party.

(4) An individual candidate already allocated a seat as a Member of the Senedd for the constituency is to be disregarded when applying subsection (2).

(5) Seats for the constituency that are allocated to a party are to be filled by the candidates on the party's list in the order in which they appear on the list.

(6) Once a party's list has been exhausted (by the application of subsection (1) or (2)), the party is to be disregarded when applying subsection (2).

Rhan 2, Adran 8,
o Fil Senedd
Cymru (Aelodau
ac Etholiadau)

Noder: at ddiben helpu pobl i ddeall Bil Senedd Cymru (Rhestrau Ymgeiswyr Etholiadol) yn unig y mae'r ddogfen hon wedi ei llunio. Ni ddylid dibynnu arni at unrhyw ddiben arall.

<p><u>(7) If, on the application of subsection (1) or on an application of subsection (2), the highest seat allocation figure is the seat allocation figure for two or more parties or individual candidates (referred to in subsection (8) as the “tied seat allocation figure”), subsection (1) or (2) (as the case may be) applies to each of them.</u></p> <p><u>(8) But if subsection (7) would mean that more than the full number of seats for the constituency were allocated, subsection (1) or (2) is not to be applied until—</u></p> <p><u>(a) a recalculation of the seat allocation figure for any party with the tied seat allocation figure has been carried out under section 8(2)(b) after adding one to the number arrived at under section 8(2)(a), and</u></p> <p><u>(b) one has been added to the number arrived at under section 8(4) for any individual candidate with the tied seat allocation figure.</u></p> <p><u>(9) If, after that, the highest seat allocation figure is still the seat allocation figure for two or more parties or individual candidates (so it is still the case that more than the full number of seats for the constituency would be allocated), the constituency returning officer must decide between them by lots.</u></p>	
-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------	--